



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

54/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

28/09/2018

Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon

Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon

Nia Bryer (Ymchwil OB3)

Brett Duggan (Ymchwil Arad)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bryer, N; Duggan, B (2018) *Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon*.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 54/2018.
Ar gael yn: <https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-welsh-medium-provision-initial-teacher-education/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Julie Owens

Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0625484

E-bost: ITEducationAddysgGA@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau a ffigurau.....	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad.....	4
2. Methodoleg	7
3. Y cyd-destun polisi a strategol	12
4. Trosolwg o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn AGA.....	21
5. Trosolwg o ddata a thueddiadau sy'n ymwneud ag AGA cyfrwng Cymraeg a phroffil iaith y gweithlu addysgu	35
6. Proffil o hyfforddeion AGA cyfrwng Cymraeg	44
7. Argaeledd a natur darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg	50
8. Mentrau ychwanegol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, y Dystysgrif Cymhwysedd iaith i Athrawon a Chynllun Colegau Cymru	65
9. I ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion hyfforddeion ac ysgolion...	73
10. Blaenoriaethau (a pholisïau) ar gyfer y dyfodol a'r newidiadau sydd eu hangen.....	82
11. Casgliadau ac Argymhellion	88

Rhestr o dablau a ffigurau

Tabl 2.1: Proffil y cyfranwyr o ysgolion.....	9
Tabl 4.2: Canlyniadau Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon 2017	30
Tabl 5.1: Addysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd yn ôl categori, 2012/13 i 2016/17.....	36
Tabl 5.2: Addysgu Cymraeg mewn ysgolion uwchradd yn ôl categori, 2012/13 i 2016/17...	37
Tabl 5.3: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi myfyrwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ysgol	39
Tabl 5.4: Pwnc astudio y rhai ym mlwyddyn gyntaf cyrsiau AGA uwchradd cyfrwng Cymraeg, 2011/12 i 2016/17	40
Tabl 5.5: Meysydd pwnc myfyrwyr TAR uwchradd sy'n derbyn arian drwy'r Cynllun Gwellu Cyfrwng Cymraeg (2016/17)	41
Tabl 5.6: Targed TAR, niferoedd gwirioneddol a chyfran myfyrwyr y Cynllun Gwellu Cyfrwng Cymraeg fesul pwnc, 2016/17	43
 Ffigur 12.1: Sgiliau Cymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer hyfforddeion ac athrawon	 91

Geirfa

Acronym Diffiniad

AGA	Addysg Gychwynnol i Athrawon
ANG	Athro Newydd Gymhwyso
CAADOC	Canolfan Addysg Athrawon De Orllewin Cymru
CAAGCC	Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CGA	Cyngor y Gweithlu Addysg
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
CYDAG	Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
HCA	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
SAC	Statws Athro Cymwysedig
SEWCTET	Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Rhagfyr 2017, penodwyd Ymchwil OB3, ar y cyd ag Arad a Dateb, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA).
- 1.2 Nod y gwerthusiad oedd deall y cymorth presennol a ddarperir i ddatblygu addysgu cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc o fewn AGA. Amcanion cyffredinol y gwerthusiad yw:
- adolygu'r dystiolaeth, y canfyddiadau a'r argymhellion sydd ar gael drwy adolygiadau a gwerthusiadau presennol i asesu cyfraniad cyffredinol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn AGA
 - nodi cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth bresennol
 - asesu cydlynid y ddarpariaeth bresennol o ran cyflawni amcanion polisi
 - asesu sut mae'r trefniadau presennol yn cyd-fynd â diwygiadau addysgol, yn enwedig y meini prawf achredu AGA, y cwricwlwm newydd a gweledigaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, sef *Cymraeg 2050*
 - asesu i ba raddau y mae'r trefniadau presennol yn diwallu anghenion unigolion (myfyrwyr AGA ac athrawon sy'n dechrau ar eu gyrfa) a sefydliadau (ysgolion a chonsortia).
- 1.3 At ddibenion y gwerthusiad hwn, aethom ati i ddiffinio darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg ar y cychwyn. Cytunwyd ar ddiffiniad gyda grŵp llywio'r gwerthusiad ac ystyriwyd bod myfyriwr yn cymryd rhan mewn AGA cyfrwng Cymraeg os oedd yn ymwneud, neu wedi ymwneud, ag o leiaf un o'r elfennau canlynol:
- darpariaeth gan Ganolfannau AGA drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. darlithoedd a seminarau pwnc, sesiynau tiwtorial ac adnoddau addysgu ayb)
 - darpariaeth gan Ganolfannau AGA i wella sgiliau Cymraeg hyfforddeion, gan gynnwys y ddarpariaeth sydd ar gael drwy'r Cynllun Gwellu Cyfrwng Cymraeg

- darpariaeth gan Ganolfannau AGA (a thrwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg) i baratoi hyfforddeion i addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (e.e. agweddau addysgeg)
- profiadau a gafwyd gan hyfforddeion o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod eu cyfnodau profiad dysgu mewn ysgolion.

1.4 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd yn cynnwys ymchwil desg, cyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau allweddol eraill sy'n rhanddeiliaid, gwaith maes gyda hyfforddeion a staff darparwyr AGA, yn ogystal â phhecyn o waith maes ar draws ystod o ysgolion cynradd ac uwchradd.

Strwythur yr adroddiad hwn

1.5 Mae deuddeg pennod i'r adroddiad hwn fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o'r fethodoleg werthuso, ein dull o ddarparu budd i'r gymunedol a phroffil y rhai a gyfrannodd at y gwaith maes
- pennod tri: adolygiad o bolisiau a strategaethau perthnasol yn ymwneud â'r Gymraeg, diwygio addysg a diwygio AGA
- pennod pedwar: trosolwg o'r ddarpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg bresennol, gan gynnwys y dulliau a fabwysiadwyd gan bob un o'r tair Canolfan AGA a mentrau megis y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon a Chynllun Colegau Cymru
- pennod pump: trosolwg o ddata a thueddiadau yn ymwneud â'r nifer sy'n manteisio ar AGA cyfrwng Cymraeg a phroffil iaith y gweithlu addysgu
- pennod chwech: canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â phroffil myfyrwyr AGA
- pennod saith: canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg y Canolfannau

- pennod wyth: canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â mentrau ychwanegol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon a Chynllun Colegau Cymru
- pennod naw: canfyddiadau'r gwaith maes mewn perthynas â'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion hyfforddeion, athrawon ac ysgolion
- pennod deg: canfyddiadau'r gwaith maes o ran blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a'r newidiadau angenrheidiol
- pennod un ar ddeg: ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer y gwerthusiad hwn.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal y gwerthusiad ac mae'n rhoi darlun o gryfderau a chyfyngiadau'r dull a fabwysiadwyd. Mae'r bennod hefyd yn crynhoi'r dull o ddarparu budd i'r gymuned fel rhan o'r astudiaeth ac mae'n cynnig proffil o hyfforddeion AGA, staff addysgu ac ysgolion a gyfrannodd at y gwerthusiad.

Dull

- 2.2 Roedd y gwerthusiad, a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Ebrill 2018, yn cwmpasu'r elfennau gwaith canlynol:
- cam cychwynnol, gan gynnwys mynychu cyfarfod cychwynnol gyda Grŵp Llywio'r astudiaeth, cyfweiliadau cwmpasu gyda darparwyr AGA, cael gafael ar wybodaeth a dogfennaeth berthnasol yn ymwneud â darpariaeth AGA a pharatoi dogfen werthuso gychwynnol
 - ymchwil desg a oedd yn cynnwys adolygiad manwl o bolisiâu a strategaethau Llywodraeth Cymru yn ogystal â data cyhoeddedig ar gyfranogiad mewn AGA cyfrwng Cymraeg
 - paratoi offerynnau ymchwil, a oedd yn cynnwys canllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio gydag ystod o gyfranwyr gan gynnwys athrawon presennol dan hyfforddiant, athrawon presennol a chydlynwyr hyfforddi athrawon a mentoriaid ysgolion
 - cynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb â 21 o randdeiliaid polisi a rhanddeiliaid strategol (gan gynnwys naw cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC), Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG), y Coleg Gymraeg Cenedlaethol a'r pedwar consortwm addysgol rhanbarthol)
 - cynnal cymysgedd o grwpiau ffocws a chyfweiliadau unigol gydag 14 (Heb gynnwys Prifysgol De Cymru. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 4 cyfrannwr o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 4 o Brifysgol Bangor, 2 o Brifysgol

Aberystwyth a 4 o Brifysgol Metropolitan Caerdydd) o gynrychiolwyr o bedwar darparwyr AGA o blith y pump sy'n gweithredu ar draws tair canolfan (gan gynnwys cynrychiolwyr sy'n gyfrifol am y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth), sef:

- Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru (CAAGCC), a ddarperir gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth
 - Canolfan Addysg Athrawon D-orllewin Cymru (CAADOC), a ddarperir gan Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant yn Abertawe a Chaerfyrddin
 - Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon (SEWCTET) a ddarperir gan Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd.
- cynnal saith grŵp ffocws gyda chyfanswm o 52 o athrawon dan hyfforddiant wedi'u nodi a'u dewis gan ddarparwyr AGA. O blith y rhain roedd 25 yn dilyn cwrs addysgu cynradd a 27 yn dilyn cwrs addysgu uwchradd. Cynhaliwyd cyfanswm o dri grŵp ffocws ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a oedd yn astudio yn CAAGCC, tri grŵp ffocws ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a oedd yn astudio yn CAADOC a dau grŵp ffocws ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a oedd yn astudio yn SEWCTET
 - cynnal cymysgedd o grwpiau ffocws a chyfweiliadau unigol gyda 73 o gynrychiolwyr mewn 18 ysgol (8 ysgol gynradd a 10 ysgol uwchradd). Roedd proffil yr ysgolion hyn fel a ganlyn:
 - roedd yr wyth ysgol gynradd oll yn ysgolion cyfrwng Cymraeg
 - roedd pum ysgol uwchradd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd pedair yn ddwyieithog (dwy ysgol Math A, un Math B ac un Math C) ac roedd un yn ysgol cyfrwng Saesneg (Caiff ysgolion [dwyieithog](#) Math A eu diffinio fel ysgolion lle mae o leiaf 80% o bynciau ar wahân i'r Gymraeg a Saesneg yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Addysgir un neu ddau o bynciau i rai disgyblion yn Saesneg neu yn y ddwy iaith. Diffinnir ysgolion dwyieithog Math B fel ysgolion lle mae o leiaf 80% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu haddysgu drwy

gyfrwng y Gymraeg ond hefyd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Caiff ysgolion dwyieithog Math C eu diffinio fel ysgolion lle mae 50% i 79% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd)

- o yn ddaearyddol, roedd chwech o'r ysgolion wedi'u lleoli yn y de-ddwyrain, chwech yn y canolbarth neu'r de-orllewin a'r chwech arall yn y gogledd
- o roedd y sampl yn cwmpasu gwaith y Canolfannau AGA yn ddigonol, gyda'r holl ysgolion uwchradd o fewn y sampl yn cydweithio ag o leiaf ddwy (ac yn aml tair) Canolfan AGA. Ar gyfartaledd, roedd ysgolion cynradd yn cydweithio â llai o Ganolfannau AGA, yn bennaf y rhai a oedd agosaf atynt yn ddaearyddol.

Nodir proffil y cyfranwyr o ysgolion yn Nhabl 2.1.

Tabl 2.1: Proffil y cyfranwyr o ysgolion

	Nifer
Cydlunydd AGA (neu uwch gynrychiolydd arall)	17
Mentor Iaith (Uwchradd yn unig)	6
Mentor AGA (Pwnc)	19
Athrawon newydd a wnaeth eu hyfforddiant AGA drwy gyfrwng y Gymraeg	27
Athrawon newydd a wnaeth eu hyfforddiant AGA drwy gyfrwng y Saesneg	4
Cyfanswm y rhai a gyfwelwyd	73

- trefnu sesiwn ôl-drafod ar gyfer pob ymchwilydd i nodi a thrafod themâu a chanfyddiadau gwerthuso allweddol, dadansoddi holl gofnodion y gwaith maes ansoddol a pharatoi adroddiad gwerthuso drafft
- ystyried dulliau a modelau posibl ar gyfer y dyfodol a llunio argymhellion ar ran yr opsiynau a ffeirir.

Budd i'r Gymuned

- 2.3 Cytunwyd, fel rhan o'r gwerthusiad hwn, y byddai'r tîm ymchwil yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr prifysgolion a oedd yn cyfrannu at y gwerthusiad i gymryd rhan yn yr ymchwil. Cynigiwyd i bob un o'r pum prifysgol anfon ychydig o'u myfyrwyr i arsylwi'r

gwaith maes naill ai yn eu prifysgol neu mewn ysgolion sy'n cymryd rhan. Fel y digwyddodd, roedd tri myfyriwr mewn un brifysgol yn awyddus i gael y profiad hwn. Arsylwodd dau ohonynt drafodaethau grwpiau ffocws gyda myfyrwyr AGA presennol ac arsylwodd un ymweliad ag ysgol gan nodi bod y profiad yn un cadarnhaol. Daeth yn amlwg fod costau teithio i ymweld ag ysgolion yn rhwystri i fyfyrwyr felly cytunwyd y byddai'r costau hyn yn cael eu had-dalu.

Ystyriaethau methodolegol

- 2.4 Roedd modd i ddwy o'r canolfannau AGA rannu cronfeydd data ar gyfer eu hysgolion partner gyda ni a defnyddiwyd y rhain yn sail ar gyfer dethol y sampl. Er na wnaed hyn gan y drydedd ganolfan, roedd yn amlwg o drafodaethau â'r darparwyr AGA bod gorgyffwrdd sylweddol ar draws yr ysgolion y maent yn cydweithio â hwy ac felly disgwyliwyd y byddai sampl o ysgolion i ymweld â hwy o'r ddwy gronfa ddata hyn yn caniatáu i ni gael adborth ar waith y tair Canolfan AGA.
- 2.5 Yn wreiddiol, dewiswyd sampl o 20 o ysgolion (10 ysgol gynradd a 10 ysgol uwchradd) a chysylltwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad hwn. O blith y 18 ysgol yr ymwelwyd â hwy, roedd pedair yn ysgolion wrth gefn. Er gwaethaf nodi a chysylltu ag ysgolion wrth gefn ar gyfer y ddwy arall, bu'n amhosibl gwneud trefniadau i ymweld â hwy fel rhan o'r gwerthusiad hwn am amryw o resymau gan gynnwys ymrwymadau addysgol eraill a digwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal o fewn ysgolion dros gyfnod yr ymchwil.
- 2.6 Ein bwriad gwreiddiol oedd cyfweld â chyfanswm o 60 o athrawon dan hyfforddiant drwy drafodaethau mewn grwpiau ffocws. Fodd bynnag, roedd y niferoedd a gymerodd ran (52) ychydig yn is na'r hyn a fwriadwyd gan na chynhaliwyd grŵp ffocws gydag un darparwr AGA. Er gwaethaf hyn, rydym o'r farn bod y sampl yn cynnig sylfaen gadarn a dibynadwy ar gyfer y gwerthusiad o ystyried natur gyson y themâu a gododd yn ystod y trafodaethau hyn, ond dylid cymryd peth gofal o gofio'r ffaith nad yw barn myfyrwyr presennol o un sefydliad yn cael ei adlewyrchu yn y gwerthusiad. O blith y rhai a gyfwelwyd, roedd 14 yn astudio yn SEWCTET, roedd 21 yn astudio yn CAAGCC ac roedd 17 yn astudio yn CAADOC.

- 2.7 Yn yr un modd, ein bwriad gwreiddiol oedd cyfweld â sampl o 40 o athrawon a oedd wedi cymryd rhan mewn darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol. Fel y digwyddodd, roedd y sampl gwerthuso yn cynnwys 27 o unigolion o'r fath gan mai dim ond un athro o'r fath a oedd ar gael i gwrdd â ni mewn nifer o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy (yn enwedig ysgolion cynradd).
- 2.8 Un her i'r gwerthusiad hwn oedd canfod athrawon newydd sy'n medru'r Gymraeg nad ydynt wedi cymryd rhan mewn unrhyw ddarpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg. Mae adborth gan ddarparwyr AGA yn awgrymu mai nifer cymharol fach o hyfforddeion sy'n medru'r Gymraeg sy'n dewis dilyn y cwrs AGA cyfrwng Saesneg. Yn wir, dim ond pedwar unigolyn o'r fath a ganfuwyd yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion (er bod ambell gyfrannwr arall megis mentoriaid AGA a oedd heb gymryd rhan mewn darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg ac mae eu safbwyntiau wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad). Gwnaed ymdrechion i gynyddu nifer y cyfranwyr hyn drwy gysylltu ag ysgolion penodol y gwyddys bod Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i gyflogi unigolion o'r fath, ond roeddent yn aflwyddiannus.

3. Y cyd-destun polisi a strategol

- 3.1 Mae'r adran hon yn trafod y cyd-destun polisi o ran y Gymraeg, diwygio addysg a diwygio hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Y Gymraeg

- 3.2 Ers datganoli, mae cyfres o strategaethau cenedlaethol, cynlluniau gweithredu a deddfwriaeth i gyd-fynd â'r rheini wedi cefnogi'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd [Iaith Pawb](#) (2003) yn cynnwys cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog, ac adeiladwyd ar hynny gan strategaethau cenedlaethol olynol, yn arbennig y [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg](#) (2010), Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 [Iaith Fyw: Iaith Byw](#) (2012) ac yn fwyaf diweddar, [Cymraeg 2050](#) (2017) a drafodir isod. Yn ogystal, rhoddodd [Mesur y Gymraeg](#) (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru gan greu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Cymraeg 2050 a'i Raglen Waith

- 3.3 Mae gan AGA cyfrwng Cymraeg rôl i'w chwarae o ran gwireddu targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 fel y nodir yn Cymraeg 2050 a'r Rhaglen Waith gysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi tri tharged allweddol mewn perthynas â nifer yr athrawon Cymraeg neu athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:
- cynyddu nifer yr athrawon cynradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900, i 3,100 erbyn 2021, i 3,900 erbyn 2031 ac i 5,200 erbyn 2050
 - cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu Cymraeg o 500 i 600 erbyn 2021, i 900 erbyn 2031 ac i 1,200 erbyn 2050
 - cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 ac i 4,200 erbyn 2050.
- 3.4 Mae cyflawni'r targedau hyn yn cyflwyno heriau sylweddol, yn enwedig yng nghyd-destun y sefyllfa bresennol o ran recriwtio athrawon i addysg cyfrwng Cymraeg.

Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

- 3.5 Pwysleisiodd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 bwysigrwydd sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n 'ddigon mawr ac yn ddigon da i ddiwallu anghenion cynyddol darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob sector'. Canfu gwerthusiad o'r Strategaeth, a gyhoeddwyd yn 2016:
- nad oedd gweithredu Strategaeth 2010-2015 wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol at fas critigol y gweithlu addysgu cyfrwng Cymraeg
 - bod llawer o benaethiaid yn teimlo nad yw'r cyflenwad o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn ddigonol, a
 - bod prinder ymarferwyr mewn rhai pynciau wedi arwain at anawsterau wrth lenwi swyddi gwag.
- 3.6 Roedd yr argymhellion a gyflwynwyd yn y Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn sail i Gynllun Gweithredu 2017-2021 y [Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru](#), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ymrwmo Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth â Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu dull cynhwysfawr a systematig o asesu'r cyflenwad o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn y sector, ynghyd â'r galw. Y camau gweithredu sy'n flaenoriaeth o ran cynllunio'r gweithlu a dysgu proffesiynol yw: datblygu darlun cliriach o sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; cynyddu nifer yr athrawon a staff cymorth Cymraeg a chyfrwng Cymraeg erbyn 2021; sicrhau bod rhaglenni AGA yn y dyfodol yn meithrin gwerthfawrogiad o'r Gymraeg ymysg athrawon dan hyfforddiant ac yn darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg.

Proses diwygio addysg Llywodraeth Cymru

Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl

- 3.7 Mae'r gwerthusiad hwn o addysg gychwynnol i athrawon cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod o ddiwygiadau sylweddol i addysg gychwynnol i athrawon

a threfniadau'r cwricwlwm ac asesu - diwygiadau sydd â goblygiadau i'r ffordd y caiff athrawon eu hyfforddi ac i safonau proffesiynol ar draws y gweithlu.

- 3.8 [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl](#) - Cynllun Gweithredu ar gyfer 2017-2021 yw'r ddogfen bolisi allweddol sy'n nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru yn symud ymlaen hyd 2021 i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu'n effeithiol. Mae'r Cynllun Gweithredu yn darparu gwybodaeth am yr ystod o gamau gweithredu sy'n cael eu datblygu yn genedlaethol a chan bartneriaid cyfryngol eraill. Cyfeiria at y diwygiadau a gynlluniwyd i'r system AGA ac mae'n nodi ystod o flaenoriaethau ar gyfer dysgu proffesiynol, gan gynnwys meithrin gallu i 'addysgu Cymraeg fel iaith fyw a sicrhau y gall niferoedd mwy weithio'n effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog'.

Diwygio Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

- 3.9 Mae'r ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru wedi bod yn destun nifer o adolygiadau a datblygiadau dros y deng mlynedd diwethaf a disgwylir i gynlluniau presennol Llywodraeth Cymru gael effaith sylfaenol ar y ddarpariaeth o fis Medi 2019 ymlaen.

Adolygiad o Ddarpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (2006)

- 3.10 Yn yr [Adolygiad o ddarpariaeth hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru](#) a gynhaliwyd gan yr Athro John Furlong yn 2006 gwnaed cyfres o argymhellion i wella'r ddarpariaeth hyfforddi athrawon ledled Cymru. Un argymhelliad allweddol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru oedd ad-drefnu hyfforddiant athrawon a chyflwyno tair Canolfan Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) ledled Cymru. Roedd yr adolygiad hefyd yn argymhell bod angen lleihau nifer y lleoedd HCA sydd ar gael ond gan ddiogelu, neu hyd yn oed gynyddu, nifer yr hyfforddeion Cymraeg.

Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (2013)

- 3.11 Mewn adolygiad diweddarach gan yr Athro Ralph Tabberer o ansawdd a chysondeb hyfforddiant athrawon yn 2013 ('[Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru](#)', Gorffennaf 2013) nodwyd, er y gwnaed gwelliannau i'r ddarpariaeth ers i adolygiad Furlong gael ei gyhoeddi, mai araf fu'r cynnydd ac ystyriwyd bod safonau

HCA yn ddigonol yn hytrach na da. Dywedodd yr adolygiad fod y Canolfannau newydd wedi bod yn araf 'o ran rhoi'r dull rheoli cryfach a mwy cydlynol ar waith, sef yr hyn sydd arnynt eu hangen er mwyn cyfnerthu arferion gorau HCA a sicrhau safonau uchel cyson.'

- 3.12 Er gwaethaf ei argymhellion eang, ni chynigiodd adolygiad yr Athro Tabberer unrhyw argymhellion penodol mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y ddarpariaeth hyfforddi athrawon. Fodd bynnag, gwnaeth nifer o argymhellion cysylltiedig, gan gynnwys yr angen i barhau i gynnig cymhellion hyfforddi athrawon hyblyg i 'annog yr ymgeiswyr gorau mewn meysydd penodol lle mae angen', yr angen i ddarparwyr 'adolygu eu modelau hyfforddi a'u modelau pedagogaid' a'r angen i ystyried gwneud 'mynd ati i benodi ar y cyd mewn pynciau â blaenoriaeth a mabwysiadu'r un dulliau o fynd ati i reoli perfformiad' ar gyfer staff.

Addysgu Athrawon Yfory (2015)

- 3.13 Ym mis Mawrth 2014, penodwyd yr Athro John Furlong gan Lywodraeth Cymru yn Gyngorydd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon am gyfnod o ddwy flynedd i helpu i godi safonau yn y sector. Yn ei adroddiad (['Addysgu Athrawon Yfory'](#), Mawrth 2015) mae'n ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector addysg cychwynnol athrawon ac yn cynnig nifer o argymhellion ar sut i wella ansawdd y ddarpariaeth, er nad yw'r un o'r rhain yn ymdrin yn benodol â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ei adolygiad, mae'r Athro Furlong yn ailadrodd ei bryderon ynghylch ansawdd y ddarpariaeth yng Nghymru yn ogystal â'r angen i'r ddarpariaeth gyd-fynd yn well ag anghenion addysg yn y ganrif hon ac i athrawon allu addysgu myfyrwyr i 'ddysgu sut i ddysgu'. Mae'n gwneud cyfres o argymhellion gan gynnwys adolygu'r Safonau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG), sefydlu proses achredu ddiwygiedig ar gyfer darparwyr, diddymu'r cwrs israddedig cynradd yn raddol a'i ddisodli â chwrs gradd pedair blynedd yn ogystal â monitro effaith cymhellion ariannol ar recriwtio i'r sector. Yn olaf, mae'r adolygiad hefyd yn ystyried pa mor fuddiol fyddai mabwysiadu tri model posibl ar gyfer darparu AGA yn y dyfodol, gan gynnwys: (i) parhau â'r pum

darparwr SAU presennol, (ii) datblygu un ganolfan brifysgol genedlaethol a (iii) cyfuno'r ddarpariaeth mewn tair prifysgol ranbarthol.

Y Grŵp Achredu Addysg Athrawon

- 3.14 Yn ystod hydref 2015 sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael ag argymhelliad yr Athro Furlong i sefydlu prosesau achredu diwygiedig ar gyfer darpariaeth AGA. Datblygwyd a chyhoeddwyd meini prawf achredu drafft i ymgynghori arnynt yn ystod hydref 2016.
- 3.15 Mewn [Datganiad Ysgrifenedig](#), cyhoeddodd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y meini prawf achredu terfynol y byddai gofyn i raglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru eu bodloni o fis Medi 2019 ymlaen. Mae'r ['Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru'](#) yn nodi'r gofynion sylfaenol y mae'n rhaid i ddarparwyr AGA eu dangos ar gyfer y dyfodol er mwyn gwella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth. Y pum gofyniad hyn yw:
- rôl fwy i ysgolion
 - rôl gliriach i brifysgolion
 - cydberchnogaeth o ran rhaglen addysg gychwynnol i athrawon
 - cyfleoedd strwythuredig i gysylltu dysgu ysgolion a phrifysgolion, a
 - rôl ganolog gwaith ymchwil.
- 3.16 Fel rhan o'r symudiad hwn tuag at achredu, penododd Llywodraeth Cymru Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i achredu rhaglenni AGA unigol, ac yn ei dro sefydlodd hwnnw y Bwrdd Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon (y 'Bwrdd'). Roedd yn ofynnol i bartneriaethau gyflwyno eu rhaglenni i'r Bwrdd CGA ar gyfer achrediad erbyn dechrau Rhagfyr 2017 a disgwylir y canlyniad ym mis Mehefin 2018. Disgwylir i'r rhaglenni AGA newydd gael eu marchnata i ddarpar fyfyrwyr o haf 2018 ymlaen.

Diwygio'r cwricwlwm

- 3.17 Ym mis Mawrth 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Graham Donaldson i gynnal Adolygiad sylfaenol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Roedd ei adroddiad 2015, '[Dyfodol Llwyddiannus](#): Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru', yn ystyried dibenion sylfaenol addysg ac yn argymhell y trefniadau cwricwlwm ac asesu sy'n gallu cyflawni'r dibenion hynny orau. Roedd yr adroddiad yn nodi pedwar pwrpas diben y cwricwlwm newydd, fan cychwyn ar gyfer pob penderfyniad sy'n ymwneud â dylunio a chynnwys y cwricwlwm newydd. Maent yn nodi'r weledigaeth y bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru:
- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
 - yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
 - yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
 - yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- 3.18 Gwnaeth adroddiad yr Athro Donaldson gyfres o argymhellion ynglŷn â newidiadau i strwythur y cwricwlwm a threfniadau asesu. Derbyniwyd yr holl argymhellion gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau ac ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '[Cymwys am Oes](#)', gan nodi cynlluniau ar gyfer datblygu a gweithredu cwricwlwm newydd. Roedd Cymwys am Oes hefyd yn tanlinellu'r angen i 'ddiwygio HCA fel bod athrawon newydd sy'n ymuno â'r proffesiwn yn meddu ar y cymwysterau gorau ac wedi cael yr hyfforddiant gorau' er mwyn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*
- 3.19 Fel y nodwyd uchod, daeth yr Athro John Furlong i'r casgliad yn ei adolygiad o addysg gychwynnol i athrawon yn 2015, fod y broses o ddiwygio'r cwricwlwm sy'n deillio o'r adroddiad Dyfodol Llwyddiannus 'yn mynnu cysyniadau sylfaenol newydd ar gyfer holl Safonau addysgu Cymru – o'r Safonau Statws Athro Cymwysedig drwodd i'r Safonau ar gyfer Penaethiaid'. Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu a threialu gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid o dan arweiniad yr Athro Mick Waters, roedd

cynigion ar gyfer safonau addysgu ac arweinyddiaeth newydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac fe'u cyhoeddwyd ym mis Medi 2017. Mae'n ofynnol i Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG) sy'n dechrau cyfnod cynefino ar neu ar ôl 1 Medi 2017 weithio yn unol â'r safonau newydd. Bydd yr holl athrawon ac arweinwyr eraill sydd mewn swydd yn newid i ddilyn y safonau newydd erbyn mis Medi 2018 i ganiatáu blwyddyn o gyfnod pontio wedi'i reoli. Mae'r safonau'n cynnwys disgrifiadau sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu sgiliau Cymraeg.

Adolygiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o ofynion mynediad HCA

- 3.20 Ym mis Ionawr 2013 ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn amlinellu'r gofynion mynediad newydd ar gyfer darparwyr HCA o 2013 ymlaen. Mae'r llythyr yn nodi y bydd gofyniad mynediad newydd yn dod i rym a fydd yn ei gwneud yn orfodol i bob darparwr HCA sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei asesu o ran sgiliau swyddogaethol personol mewn llythrennedd sy'n berthnasol i gyd-destun addysgu proffesiynol. Yn ei ohebiaeth â CCAUC, gofynnodd Llywodraeth Cymru i CCAUC, ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyflwyno adroddiad erbyn mis Gorffennaf 2013 ar weithredu gofyniad mynediad cyfrwng Cymraeg penodol a goblygiadau posibl hynny i ansawdd a chyflenwad yr ymgeiswyr a oedd yn derbyn lleoedd HCA cyfrwng Cymraeg pe bai gofyniad statudol yn cael ei gyflwyno.
- 3.21 Yn ei Gyngor Interim ar Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon i Lywodraeth Cymru, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Gorffennaf 2013) Cyngor Interim ar Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon) yn nodi nad oes diffiniad y cytunwyd arno o'r hyn sy'n cyfateb i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector a bod darparwyr yn honni bod y cwrs ar gael yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg er bod cyfran sylweddol o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r adolygiad yn argymhell bod unrhyw ddiffiniad o ddarpariaeth HCA cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar brofiad myfyrwyr o'r ddarpariaeth honno, yn hytrach nag ar gymhwysedd myfyriwr sydd wedi dilyn yr opsiwn i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n argymhell y dylid diffinio'r ddarpariaeth HCA cyfrwng Cymraeg gan y trothwyon lleiaf posibl a ganlyn lle'r oedd myfyrwyr wedi:

- cwblhau ymarfer dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog
- paratoi deunyddiau yn Gymraeg
- cyflwyno pob gwaith ysgrifenedig (lle bo hynny'n berthnasol) drwy gyfrwng y Gymraeg, a
- dilyn o leiaf dwy ran o dair o'r rhaglen a gynhelir yn y sefydliad drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 3.22 Mae'r ail faes allweddol a gwmpesir gan y Cyngor Dros Dro yn ymwneud â'r bwriad i gyflwyno Tystysgrifau Cymhwysedd i fynd i'r afael â'r farn bresennol bod y trefniadau ar gyfer ardystio a yw athrawon newydd gymhwyso yn meddu ar y cymwysterau priodol neu'n gymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywiol. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydnabod y bu trafodaethau ar y gweill am y syniad hwn ers peth amser ond nad oedd y mater wedi symud ymlaen. Mae'r Cyngor Dros Dro yn argymhell y dylid datblygu Tystysgrif Cymhwysedd Cymru Gyfan o fewn dwy flynedd, gyda'r broses yn cael ei hwyluso a'i chefnogi gan y Coleg. Byddai'r Dystysgrif ar gael i unrhyw fyfyrwr AGA ac nid o reidrwydd y rhai a oedd wedi astudio rhaglen cyfrwng Cymraeg.
- 3.23 Mae trydydd maes trafod y Cyngor Dros Dro yn ymwneud â goblygiadau penderfyniad Llywodraeth Cymru, yn dilyn Adolygiad Tabberer, i gyflwyno gradd B TGAU mewn Saesneg Iaith a Mathemateg fel gofyniad mynediad ar gyfer ymgeiswyr HCA o 2014/15 ymlaen. Argymhellodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y dylid mabwysiadu dull tebyg ar gyfer y Gymraeg ar yr amod y rhoddir ystyriaeth fanwl i oblygiadau hynny ac y cynigir amser paratoi priodol i sicrhau bod darpar ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gofyniad newydd.
- 3.24 Mae'r pedwerydd maes a'r maes olaf a drafodir yn y Cyngor Dros Dro yn ymwneud â'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Argymhellodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol y dylid parhau â'r cynllun a'i wella er mwyn sicrhau bod cymaint o fyfyrwr â phosibl yn cael budd ohono. Roedd hefyd yn argymhell bod pob myfyriwr sy'n derbyn yr Atodiad Cymhelliant CGCG, fel un o amodau eu dyfarniad, yn cyrraedd y lefelau hyfedredd sydd eu hangen i gael y Dystysgrif Cymhwysedd'.

Arolygiadau Estyn o AGA

3.25 Mae'n werth ystyried canfyddiadau adolygiadau diweddaraf Estyn o Ganolfannau AGA, a gynhaliwyd rhwng 2012 a 2015, sy'n cyfleu darlun cymharol anfoddhaol o'r ddarpariaeth, er bod ymweliadau dilynol yn awgrymu bod y tair canolfan wedi llwyddo i wneud digon o gynnydd wedi hynny:

- Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru ([Mai 2015](#)): Canfu Estyn fod y perfformiad a'r rhagolygon gwella presennol yn anfoddhaol. Un argymhelliad a wnaed oedd yr angen i 'wella gallu hyfforddeion i ddatblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh a Chymraeg'. Roedd yr ymweliad dilynol (Adroddiad Monitro [Mehefin 2017](#)) o'r farn bod y Ganolfan wedi gwneud cynnydd digonol ers yr arolygiad craidd
- Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon ([Mai 2013](#)): Canfu arolygiad Estyn fod perfformiad presennol y ganolfan yn ddigonol a'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol. Roedd yr ymweliad dilynol (Adroddiad Monitro [Gorffennaf 2014](#)) o'r farn bod y Ganolfan wedi gwneud cynnydd digonol ers yr arolygiad craidd
- Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru ([Mai 2012](#)): Canfu arolygiad Estyn fod perfformiad presennol y darparwr yn ddigonol a'r rhagolygon gwella yn dda. Un argymhelliad allweddol oedd 'gwella gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'r iaith Gymraeg'. Roedd yr ymweliad dilynol (Adroddiad Monitro Gorffennaf 2014) o'r farn bod y Ganolfan wedi gwneud cynnydd digonol ers yr arolygiad craidd ym mis Mai 2012.

4. Trosolwg o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn AGA

- 4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau sy'n ategu'r ddarpariaeth AGA yng Nghymru, gan gynnwys y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon a Chynllun Colegau Cymru. Mae'n tynnu, fel yn briodol, ar ganfyddiadau a thystiolaeth a gyflwynir mewn adolygiadau eraill o'r cynlluniau hyn.

Y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

- 4.2 Sefydlwyd y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn wreiddiol ym 1988 fel Cynllun Atodiad Cymhelliant Cyfrwng Cymraeg i hyfforddeion AGA uwchradd. Ym 1990, cafodd y cynllun ei ymestyn i hyfforddeion y sector cynradd ond tynnwyd y cymorth i'r garfan hon yn ôl yn 1992.

Adolygiad o'r Cynllun Atodiad Cymhelliant Cyfrwng Cymraeg

- 4.3 Mae'r adolygiad hwn (Martin Rolph (15 Tachwedd 2004) 'Review of Welsh-Medium Incentive Supplement Scheme' (Llywodraeth Cynulliad Cymru) heb ei gyhoeddi), a gynhaliwyd yn 2004, yn ymchwilio i sut y cafodd Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ei hyrwyddo a'i gyflwyno ar yr adeg honno ac mae'n cynnig asesiad o'i effeithiolrwydd wrth ddenu mwy o fyfyrwyr i hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r adolygiad hefyd yn cynnig argymhellion ar gyfer dyfodol y cynllun. Canfu ar y pryd:

- fod taliad o £1,200 ar gael i fyfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) sy'n ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol athrawon ar lefel uwchradd a oedd yn bwriadu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Canfu'r adolygiad fod y ffi hon yn annigonol (gan fod y swm wedi aros yn ddigyfnawid ers sefydlu'r cynllun ym 1988) ac argymhellodd y dylid ei chynyddu rywfaint (i rhwng £1,500 a £2,000). At hynny, argymhellodd yr adolygiad y dylai'r cymhelliad ar gyfer y rhai sy'n astudio cyrsiau TAR mewn mathemateg a gwyddoniaeth fod ar gyfradd uwch na phynciau eraill
- fod yn rhaid i ymgeiswyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg astudio cwrs TAR yr addysgwyd swm sylweddol ohono drwy gyfrwng y Gymraeg ond dim ond ar gyfer nifer cyfyngedig o gyrsiau TAR yr oedd y cymhelliad ar gael ar y

pryd. Argymhellodd yr adolygiad y dylid adolygu'r cymhwysedd ar gyfer y cymhelliad a'i gyhoeddi'n ffurfiol ac y dylai fod ar gael ar gyfer unrhyw gyrsiau TAR hyfforddiant cychwynnol athrawon ar lefel uwchradd a ddarparwyd gan ddarparwyr AU a oedd yn bodloni'r canllawiau cymhwysedd sylfaenol hyn

- gwnaethpwyd penderfyniadau ar gymhwysedd myfyrwyr unigol gan y sefydliadau a oedd yn rhedeg cyrsiau, gyda'r taliadau'n cael eu gwneud i fyfyrwyr mewn dwy ran (ar ddechrau'r ail dymor ac yn ystod eu trydydd tymor a'r tymor olaf)
- roedd disgwyl i bob sefydliad ddarparu 30 awr o ddarpariaeth gwella iaith gyffredin er mwyn gwella sgiliau iaith ar gyfer meysydd pwnc penodol. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad, yn ymarferol, mae'n debyg mai dim ond Prifysgol Aberystwyth a oedd yn llwyddo i ddarparu'r 30 awr lawn ar y pryd, gyda'r lleill yn darparu dipyn yn llai
- roedd disgwyl i fyfyrwyr ddod at ei gilydd am dair sesiwn penwythnos a oedd yn dod i gyfanswm o 18 awr
- roedd nifer y cyfranogwyr yn y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn amrywio o 50 i 80 (65 yn 2000/01, 79 yn 2001/02, 72 yn 2002/03 a 54 yn 2003/04)
- daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd unrhyw wybodaeth wrthrychol bendant am y gwahaniaeth y mae'r cynllun yn ei wneud o'i gymharu â dim ymyrraeth o gwbl
- er gwaetha'r casgliad hwn, nododd yr adolygiad farn oddrychol y darparwyr ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a ddywedodd:
 - ei fod yn cyfrannu at annog athrawon dan hyfforddiant i gofrestru ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg, pan na fyddent wedi gwneud hynny fel arall
 - ei fod wedi gwella hyder athrawon dan hyfforddiant i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
 - nad oedd yn darparu digon o gymhelliad ariannol ychwanegol i adlewyrchu'r gwaith ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag ef, a oedd yn

golygu bod nifer o athrawon dan hyfforddiant wedi penderfynu peidio â dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

- ei fod wedi creu gwerthusiadau cadarnhaol iawn o gyrsiau a gwblhawyd gan hyfforddeion ac roedd y gwaith ychwanegol wedi bod yn werthfawr i hyfforddeion.

- 4.4 Daeth yr adolygiad i'r casgliad ei bod yn annhebygol bod y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn ffactor o bwys, neu y gallai fod yn ffactor o bwys, o ran cynyddu'r niferoedd ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon cyfrwng Cymraeg. Dywedodd hefyd mai un o ganlyniadau mwy arwyddocaol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg oedd iddo diwallu'r angen i helpu i wella cymhwysedd a hyder athrawon dan hyfforddiant i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trefniadau presennol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

- 4.5 Ers cynnal yr adolygiad o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn 2004 mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r cynllun. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r model gweithredu presennol.
- 4.6 Cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ac mae ar gael i raddedigion sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd. Ar hyn o bryd mae'n darparu ar gyfer y rhai sydd eisiau addysgu pynciau heblaw'r Gymraeg. Mae'r holl gyfranogwyr yn cael cymhelliad ariannol o £1,600 i gymryd rhan ynddo a dyfernir £2,000 i'r rhai sy'n hyfforddi i addysgu Mathemateg, Ffiseg a Chemeg.
- 4.7 Rheolir y cynllun gan Brifysgol Aberystwyth sy'n cyflogi cydlynnydd cenedlaethol i oruchwylio'r ddarpariaeth. Mae Prifysgol Aberystwyth yn darparu cyllid gan Lywodraeth Cymru i bob Canolfan AGA (£6,000 yr un yn 2017/18) er mwyn cyflogi neu gcontractio tiwtor iaith i gyflwyno'r ddarpariaeth a chefnogi gwaith yr hyfforddeion.
- 4.8 Fel rhan o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, disgwylir i hyfforddeion ymgymryd ag o leiaf 25 awr o wersi sgiliau Cymraeg yn ystod eu cwrs AGA.
- 4.9 Mae'r adroddiadau blynyddol diweddaraf ar gyfer 2016/17 a baratowyd gan Ganolfannau AGA unigol yn awgrymu:

- bod hyfforddeion y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn tueddu i wneud cynnydd da o ran eu sgiliau Cymraeg dros y flwyddyn academaidd er nad yw'r radd a ddyfernir i gyfran fach o hyfforddeion yn newid yn ystod y flwyddyn
- yr ystyrir bod y cymorth a ddarperir gan fentoriaid iaith ar draws ysgolion partner yn agwedd bwysig iawn ar y ddarpariaeth i hyfforddeion
- nad yw hyfforddeion nad ydynt yn cael profaidau dysgu mewn ysgolion uwchradd lle mae cyfle i addysgu eu pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwneud cymaint o gynnydd â'r rhai sy'n cael y cyfle hwn. Yn yr un modd, gall diffyg arweinyddiaeth mewn adrannau penodol mewn ysgolion hefyd effeithio ar gynnydd hyfforddeion. Yn gyffredinol, mae'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr AGA sy'n astudio eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei gwneud yn llai o her i Ganolfannau ddod o hyd i'r cyfleoedd profiad dysgu hyn ond mae'r duedd honno'n bryder ynddi'i hun
- bod rhywfaint o dystiolaeth bod hyfforddeion y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn cael targedau a darpariaeth sgiliau Cymraeg gwahaniaethol ond nid yw hyn yn digwydd yn gyson
- bod y ffocws o ran datblygu sgiliau Cymraeg o fewn y ddarpariaeth AGA ar ddrilio ac atgyfnerthu terminoleg pynciau.

4.10 Mae un adroddiad blynyddol a ddarparwyd gan Ganolfan AGA ar gyfer 2016/17 yn nodi bod y cynllun yn broblematig oherwydd bod yn rhaid i'r rhai sy'n dymuno addysgu pwnc heblaw'r Cymraeg ond sydd â gradd gyfun (lle mae'r Gymraeg yn un o'u pynciau gradd) yn gorfod ymuno â'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg (ond nad oes angen y cymorth hwn arnynt o reidrwydd). Mae'r adroddiad yn galw am ddiwygio'r gofynion mynediad ar gyfer y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar anghenion hyfforddeion, yn hytrach na'u cymwysterau blaenorol neu eu pwnc. Yn benodol, mae'r adroddiad yn dadlau bod angen cydnabod na fydd nifer o hyfforddeion wedi astudio eu pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol ac efallai na fydd eu cymhwyster TGAU iaith Gymraeg yn adlewyrchu eu sgiliau ieithyddol presennol, o gofio y byddent wedi

cyflawni hwnnw o leiaf bum mlynedd cyn ymuno â'r cynllun Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg.

Y trefniadau ar gyfer y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol

- 4.11 Yn ystod y gwerthusiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i wella'r cymhelliad ariannol cyfrwng Cymraeg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen. Bydd cymhelliad ariannol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg o £2,000 yn parhau i fod ar gael i gyfranogwyr ond hefyd, bydd sefydlu Cynllun Cymhelliant newydd iaith Athrawon Yfory yn rhoi cymhelliad ariannol pellach o £3,000 i fyfyrwyr. Bydd y taliad cyntaf o £500 i unigolion cymwys yn cael ei wneud ar ôl cwblhau rhaglen uwchradd AGA ôl-raddedig gymwys yng Nghymru sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC). Telir y rhan helaethaf o'r taliad, sef £2,500, ar ôl cwblhau'n llwyddiannus gyfnod sefydlu mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a gynhelir neu addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

Cyfranogiad ysgolion

- 4.12 Yn ystod 2016/17, cafodd 34 o ysgolion uwchradd eu contractio i gymryd rhan yn y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, h.y. mae 72 y cant o'r 47 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru yn cymryd rhan yn y cynllun. Mae adroddiad cynnydd ar gyfer 2016/17 yn nodi bod ymdrechion i dargedu ysgolion eraill 'er mwyn eu denu i fod yn rhan o'r cynllun' (Prifysgol Aberystwyth (Gorffennaf 2017) Adroddiad 'Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg' t.5
- 4.13) yn parhau, gan awgrymu ei fod wedi bod yn heriol sicrhau cyfranogiad yr ysgolion sy'n weddill.
- 4.14 Mae'n ofynnol i bob ysgol sy'n cymryd rhan lofnodi contract gyda Phrifysgol Aberystwyth sy'n gofyn iddynt (Wedi'i addasu o Gynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg Pecyn Ysgolion 2017-18 Prifysgol Aberystwyth):
- ddyrannu mentor iaith a fydd yn gyfrifol am y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn eu hysgol

- darparu wyth awr o seminarau iaith yn ystod pob profiad dysgu mewn ysgol i gyfranogwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ac adrodd ar bresenoldeb i Brifysgol Aberystwyth
- arsylwi dwy wers ar gyfer pob hyfforddai ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a rhoi adroddiad i'r cydlynnydd cenedlaethol o fewn pum niwrnod o'r arsylwi i gynnwys graddau ar gyfer yr hyfforddai yn seiliedig ar feini prawf y cynllun
- paratoi adroddiad byr ar gyfer hyfforddeion sy'n crynhoi eu safonau llythrennedd a'u gallu i ddatblygu sgiliau llythrennedd disgyblion
- mynychu hyfforddiant cenedlaethol blynyddol i fentoriaid iaith a gynhelir yn yr hydref.

4.15 Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan yn cael taliad ariannol o £400 am fentora hyd at ddau hyfforddai ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn ystod un pofiad dysgu, £600 ar gyfer mentora rhwng tri a phump hyfforddai a £750 ar gyfer mentora mwy na phump hyfforddai. Caiff y taliad ei wneud i ysgolion ym mis Ionawr a/neu fis Mehefin fel y bo'n briodol.

4.16 Disgwylir i Brifysgol Aberystwyth gynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer Mentoriaid iaith ysgolion ac yn ystod 2016/17, cynhaliwyd chwe sesiwn hyfforddi ar gyfer y staff hyn.

Cyrsiau undydd cenedlaethol

4.17 Cynhelir dau gwrs cenedlaethol ar gyfer cyfranogwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth ym mhob blwyddyn academiaidd. Disgwylir i gyfranogwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg fynychu'r rhain ac os byddant yn absennol, caiff £200 ei dynnu o grantiau'r hyfforddeion am bob cwrs a gollwyd. Mae lefelau presenoldeb felly'n dda gyda 97 y cant o hyfforddeion yn mynychu'r cwrs cyntaf ac 88 y cant o hyfforddeion yn mynychu'r ail gwrs yn 2016/17. Nod y cyrsiau yw adeiladu ar y ddarpariaeth sydd ar gael ym mhob Canolfan AGA - yn enwedig datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth a'r broses safoni ar gyfer y Dystysgrif Cymhwysedd. Roedd strwythur cwrs mis Hydref 2016 yn cynnwys sesiynau ar wahaniaethu rhwng ieithoedd, meithrin sgiliau llafaredd, ysgogi disgyblion i ddysgu a'r adnodd 'Gair yn Gymorth'. Mae gwybodaeth a gafwyd o

ffurflenni adborth y digwyddiad yn awgrymu bod gan y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau farn gadarnhaol amdanynt - roedd o leiaf 80 y cant o'r rhai a fynychodd yn ystyried bod y cyflwyniadau yn ystod digwyddiad mis Hydref 2016 naill ai'n dda neu'n rhagorol.

Cyfranogwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

- 4.18 Yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf (2016/17), roedd cyfanswm o 71 o hyfforddeion wedi cofrestru ar y cynllun Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a oedd yn is na'r 90 a gofrestrodd yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol (2015/16) (Prifysgol Aberystwyth (Gorffennaf 2017) Adroddiad ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg' t.5). Yn ystod 2016/17 gadawodd cyfanswm o ddeg hyfforddai y cynllun, a gadawodd y mwyafrif o'r rheini AGA yn llwyr, gan nodi pwysau gwaith fel y prif reswm dros wneud hynny. Ailymunodd un hyfforddai a adawodd y cynllun yn 2015/16 yn ystod ail gam y flwyddyn academiaidd 2016/17. Dangosir nifer yr hyfforddeion a gofrestrodd ar gyfer y cynllun ac a'i cwblhaodd yn Nhabl 4.1.

Tabl 4.1: Hyfforddeion y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg 2016/17

	Cofrestrwyd Medi 2016	Wedi Cwblhau'r tymor cyntaf 2016/17	Wedi Cwblhau'r ail dymor 2016/17
Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru (Prifysgol Bangor)	18	17	16
Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru (Prifysgol Aberystwyth)	12	11	11
Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, campws Abertawe)	20	17	*16
Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg Athrawon (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)	21	20	19
Cyfanswm	71	65	62

Ffynhonnell: Cronfa ddata y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg (carfan 2016/17)

* Gan gynnwys un hyfforddai a ymunodd â'r cynllun yn 2016/17 ar ôl gadael yn flaenorol yn 2015/16

- 4.19 Pan fyddant yn ymuno â'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg mae'n ofynnol i bob cyfranogwr ymgymryd ag asesiad iaith cychwynnol a dyfernir gradd rhwng 1 (yr uchaf) a 4 (yr isaf) iddynt am eu sgiliau. Mae dadansoddiad o'r data sydd ar gael ar gyfer 70 o gyfranogwyr o garfan 2016/17 yn dangos bod 9 (13 y cant) wedi ennill y radd isaf, 23 (33 y cant) wedi ennill gradd 3, 25 (36 y cant) wedi ennill gradd 2 ac 13 (19 y cant) wedi ennill y radd uchaf. Er mwyn hwyluso dadansoddi, cafodd amrywiadau o fewn pob lefel gradd eu cyfuno h.y. mae'r rhai a gyflawnodd raddau 2-, 2 a 2+ wedi cael eu grwpio fel gradd lefel 2. Mae gwahaniaethau nodedig yn y graddau asesu cychwynnol a ddyfarnwyd i gyfranogwyr gan y Ganolfan, gyda graddau'r rhai sy'n astudio eu cwrs AGA yn SEWCTE yn enwedig yn is na graddau'r rhai yn CAAGCC (Yn cynnwys dau sefydliad) a CAADOC.

Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon

- 4.20 Pwrpas y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon yw cydnabod lefelau sgiliau ieithyddol (llafar ac ysgrifenedig) hyfforddeion AGA wrth gwblhau eu cwrs a dangos eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.21 Fe'i cyflwynwyd gyntaf yn 2015/16 fel cynllun peilot, wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd wedi parhau i weinyddu'r cynllun ers hynny. Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn ei drydedd flwyddyn. Fe'i cynigir i hyfforddeion TAR Cynradd sy'n dilyn eu cwrs AGA drwy gyfrwng y Gymraeg ac i hyfforddeion TAR Uwchradd sydd wedi'u cofrestru ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Ers iddi gael ei chyflwyno, mae'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith hefyd wedi cael ei hymestyn i gynnwys hyfforddeion TAR Uwchradd sy'n ymgymryd â'u cwrs AGA drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt wedi'u cofrestru ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn ystyried ymestyn y Dystysgrif i hyfforddeion AGA israddedig.
- 4.22 Mae dwy elfen i'r dystysgrif. Mae'r elfen gyntaf yn asesu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yr hyfforddeion drwy gyfrwng arholiad ysgrifenedig ac mae hyn yn cyfrif am 40 y cant o'r marc. Mae'r ail ran yn asesu gallu ymarferol hyfforddeion i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n cyfrif am y 60 y cant sy'n weddill. Mae'r asesiad ymarferol yn ystyried safon llythrennedd personol yr hyfforddeion yn ogystal â'u

gallu i gymhwyso a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr. Ar gyfer cyfranogwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, mae'r asesiadau hyn yn cynnwys paratoi adnoddau addysgu a dysgu yn ystod eu hail brofiad dysgu mewn ysgol, sydd wedyn yn cael eu hasesu gan fentoriaid iaith yr ysgol. Er mwyn ennill y dystysgrif, rhaid pasio'r ddwy ran.

- 4.23 Yn ystod ei blwyddyn beilot (2014/15) gwnaeth cyfanswm o 145 o unigolion ar draws TAR cynradd ac uwchradd gais am y Dystysgrif ac yn ystod 2015/16 cafwyd o 178 o ymgeiswyr.
- 4.24 Bwriad y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yw cefnogi hyfforddeion AGA i ennill y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith ac yn hyn o beth ystyrir y Dystysgrif yn 'ddilyniant naturiol' ('dilyniant naturiol' Prifysgol Aberystwyth Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg Pecyn Ysgolion) i gyfranogwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg.
- 4.25 Mae Tabl 4.2 yn dangos canlyniadau 2016/17 ar gyfer 62 o hyfforddeion y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a roddodd gynnig ar y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith yn ôl Canolfan AGA. At ei gilydd, dyfarnwyd canlyniad boddhaol neu uwch i 90 y cant (56 o hyfforddeion). Dyfarnwyd canlyniad ardderchog i 23 y cant (14 hyfforddai) a dyfarnwyd canlyniad da i 25 y cant (22 o hyfforddeion). Aseswyd bod lefel sgiliau 10 y cant (6 hyfforddai) o safon anfoddhaol i gyflawni'r dystysgrif. O gymharu'r cyflawniadau hyn â'r graddau asesu cychwynnol a gyflwynir yn adran 4.16, mae'n amlwg bod cyfran y gwelliannau o un lefel i'r llall yn gymharol fach e.e. byddai safon 87 y cant o'r hyfforddeion yn cael ei ystyried yn foddhaol neu'n well ar ddechrau'r cwrs. Mae hyn yn dangos yr heriau sy'n gysylltiedig â dangos tystiolaeth o'r gwelliannau a wneir gan hyfforddeion drwy'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith o fewn yr amserlenni byr a osodir gan gyrsiau AGA.

Tabl 4.2: Canlyniadau Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon 2017

	Anfoddhaol	Boddhaol	Da	Rhagorol	Cyfanswm
Canolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru (Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth)	0	4	14	9	9
Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, campws Abertawe)	3	9	1	3	16
Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg Athrawon (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)	3	7	7	2	19
Cyfanswm	6	20	22	14	62

Ffynhonnell: Cronfa ddata y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg (carfan 2016/17)

Noder y byddai cyflawniad rhagorol yn cyfateb i asesiad cychwynnol gradd 1 a chanlyniad anfoddhaol sy'n cyfateb i asesiad cychwynnol gradd 4

Adolygiad o'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon

- 4.26 Comisiynodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol un o'i Gyfarwyddwyr, W Gwyn Lewis, i gynnal adolygiad ((Mawrth 2017) 'Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon - Adroddiad Adolygu'r Fanyleb' ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (heb ei gyhoeddi)) o'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon gyda'r bwriad o archwilio sut y gellid datblygu'r cynllun ymhellach i gefnogi nodau ac amcanion Cymraeg 2050 a'r gofynion AGA diwygiedig ledled Cymru. Ymchwiliodd yr adolygiad i sut yr oedd y cynllun wedi gweithredu dros gyfnod o ddwy flynedd ers iddo gael ei gyflwyno yn 2015/16.
- 4.27 Mae'r adolygiad yn nodi prif gryfderau'r Dystysgrif fel a ganlyn:
- arf effeithiol i ddatblygu sgiliau Cymraeg yr hyfforddeion a sut y gallant ddatblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion y byddant yn eu dysgu
 - cynllun sy'n cael ei ddarparu mewn dull cyson gan bob un o'r Canolfannau AGA
 - tystysgrif genedlaethol gredadwy o ganlyniad i gael ei chyflwyno dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

- cynllun sy'n adeiladu ar weithdrefnau cydnabyddedig a chadarn y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ar gyfer hyfforddeion AGA uwchradd.

4.28 Codwyd nifer fawr o faterion yn yr adroddiad, gan gynnwys:

- gwahaniaethau o ran y modd y mae'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith yn cael ei defnyddio ar gyfer hyfforddeion AGA cynradd ac uwchradd (gan gynnwys y ffaith nad oes mentor iaith dynodedig ar gael i hyfforddeion cynradd ac mai dim ond i i'r hyfforddeion AGA uwchradd hynny sydd wedi'u cofrestru ar y cynllun Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg y mae'r cymhelliad ariannol ar gael)
- diffyg cymorth ieithyddol parhaus neu bellach i hyfforddeion AGA ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs ac yn ystod eu blynyddoedd cyntaf o addysgu
- yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith ymhlith penaeithiaid ysgolion
- yr angen i fynd i'r afael â'r ffaith y gall hyfforddeion AGA lwyddo yn eu cwrs TAR cyfrwng Cymraeg ac ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC), ond methu'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith
- yr angen i ymchwilio i'r dilyniant a'r continwmm ieithyddol rhwng y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith a Chynllun Colegau Cymru. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru a gyfrannodd at y gwerthusiad fod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cysyniad continwmm Cymraeg a fyddai'n caniatáu i sgiliau iaith Gymraeg unigolion gael eu mapio yn erbyn continwmm, gan ddechrau fel dysgwr a datblygu i fod yn hyfedr

4.29 At hynny, mae'r adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith mai'r dyfarniad terfynol ar gyfer hyfforddeion yw 'pasio' neu 'methu' er gwaethaf y ffaith bod lefel sgiliau hyfforddeion wedi'u graddio'n bedair gradd (sef Rhagorol, Da, Digonol neu Anfoddhaol). Mae'r adolygiad yn cydnabod y gallai fod angen ymchwilio i'r posibilrwydd o ailenwi'r categori 'methu' a rhoi ystyriaeth briodol i gysyniad Llywodraeth Cymru o 'gontinwmm iaith Gymraeg'. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru a gyfrannodd at y gwerthusiad fod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cysyniad

continwrm Cymraeg a fyddai'n caniatáu i sgiliau iaith Gymraeg unigolion gael eu mapio yn erbyn continwrm, gan ddechrau fel dysgwr a datblygu i fod yn hyfedr.

- 4.30 Mae pwynt terfynol a godir yn yr adolygiad yn ymwneud â chyflwyno safonau addysgu proffesiynol newydd gan Lywodraeth Cymru y gellid ystyried eu bod yn gwneud y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith yn ddiangen oherwydd byddai'r SAC yn gwneud safonau uchel yn y Gymraeg (a'r Saesneg) yn amod gorfodol (W Gwyn Lewis (Mawrth 2017) 'Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon - Adroddiad Adolygu'r Fanyleb' ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (heb ei gyhoeddi) t.11).

Adroddiadau Canolfannau AGA

- 4.31 Mae'r adroddiadau blynyddol diweddaraf ar gyfer 2016/17 a baratowyd gan Ganolfannau AGA unigol yn awgrymu:
- bod arholiad y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith yn heriol i ymgeiswyr y dyfarnwyd gradd 3 neu is iddynt
 - mai un o'r prif heriau i hyfforddeion yw datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr a'u hannog i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Ystyriwyd mai diffyg gwelliant ar draws y maes hwn oedd un o'r prif resymau pam na wnaeth hyfforddeion cymaint o gynnydd â'r disgwyl
 - roedd hyd yn oed yr hyfforddeion hynny a enillodd o leiaf 2+ neu lai angen cymorth pellach i wella eu sgiliau Cymraeg ar ôl cwblhau eu cwrs AGA. Byddai angen i'r cymorth angenrheidiol gynnwys sgiliau ysgrifenedig.

Cynllun Colegau Cymru

- 4.32 Fframwaith i addysgu Cymraeg neu wella sgiliau Cymraeg hyfforddeion cynradd sy'n astudio cyrsiau AGA sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) yng Nghymru yw Cynllun Colegau Cymru. Fe'i cyflwynwyd yn wreiddiol ym 1998 ac ers hynny mae wedi esblygu mewn ymateb i ddatblygiadau allweddol megis adolygiad o'r cynllun (yn 2001) a newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol (yn 2009). Yn 2013, daeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am arholiad allanol y Cynllun ac mae Canolfannau AGA unigol yn gyfrifol am ei gyflwyno.

- 4.33 Mae'r cynllun ar gael i hyfforddeion AGA ar gyrsiau BA a TAR y sector cynradd nad Cymraeg yw eu hiaith gyntaf.

Adolygiad o Gynllun Colegau Cymru

- 4.34 Ym mis Mai 2017, paratowyd Adolygiad o Gynllun Colegau Cymru (Ymgynghoriaeth Sbectrwm 'Adolygiad o Gynllun Colegau Cymru' Mai 2017) ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sgil y ffaith bod angen addasu'r cynllun, a oedd wedi bodoli ers 1998, er mwyn ymateb i nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Seiliwyd yr adolygiad ar ymchwil desg ac ymchwil sylfaenol gyda rhanddeiliaid, ysgolion a hyfforddeion. Canfu fod rhwng 450-550 o hyfforddeion yn cymryd rhan yn y cynllun bob blwyddyn (451 yn ystod 2016, 529 yn ystod 2015 a 518 yn ystod 2014) gyda'r mwyafrif o'r rhain yn astudio cwrs TAR. Canfu'r adolygiad hefyd fod strwythur y cynllun yn cynnwys:

- asesiad o lefel sgiliau Cymraeg darpar athrawon drwy nifer o asesiadau penodol yn ystod y cyfnod hyfforddi
- disgwylir i'r myfyrwyr gadw portffolio o'u hasesiadau fel meincnod o'u gallu yn y Gymraeg
- ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi, dyfernir tystysgrif i fyfyrwyr sy'n nodi lefel eu cyrhaeddiad naill ai ar Gam 1 (yr isaf), Cam 2 neu Gam 3 (yr uchaf)
- caiff myfyrwyr eu hasesu'n flynyddol o fewn eu sefydliad cartref a chaiff y broses hon ei chymedroli gan gymedrolydd annibynnol a gymeradwyir gan Grŵp Llywio Cynllun Colegau Cymru
- y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n gyfrifol am benodi'r cymedrolydd. Mae'n ofynnol i'r Cymedrolwr ymweld â phob canolfan i archwilio holl elfennau'r Cynllun, paratoi adroddiad ysgrifenedig i'r Coleg, cyflwyno'r adroddiad i'r Grŵp Llywio mewn cyfarfod blynyddol ynghyd â gweithio ar dasgau eraill yn gysylltiedig â datblygiad y Cynllun yn ôl y galw.'

- 4.35 Mae'r prif ganfyddiadau ac argymhellion a gynigir gan yr adolygiad fel a ganlyn:

- ailfrandio'r cynllun gan gynnwys newid yr enw a hyrwyddo'r cynllun newydd ymhlith cynulleidfa ehangach

- datblygu 'cwrs cenedlaethol' i ategu'r cynllun, yn enwedig ar lefel dechreuwyr, er mwyn darparu mwy o gysondeb ar draws y Canolfannau
- nid yw lefel yr oriau cyswllt a ddarperir gan Ganolfannau yn ddigonol i 'sicrhau'r lefel o ruglder sydd ei hangen i wneud gwahaniaeth sylfaenol i'r modd yr addysgir y Gymraeg' mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac y byddai'n werth ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn y flwyddyn academiaidd i fis Gorffennaf o 2019 ymlaen ar gyfer cyrsiau BA a TAR er mwyn cynyddu'r oriau cyswllt Cymraeg ar gyfer hyfforddeion. Byddai hyn yn sicrhau y byddai mwy o hyfforddeion yn cyrraedd Cam 3 (y lefel uchaf o ran rhuglder a chywirdeb iaith) erbyn iddynt gwblhau eu cwrs - ar hyn o bryd dim ond 17 y cant o hyfforddeion BA ac 11 y cant o hyfforddeion TAR sy'n cyrraedd Cam 3
- caniatáu lle o fewn amserlenni Canolfannau AGA i ffrydio hyfforddeion yn ôl eu cefndir ieithyddol gan fod cefndir ieithyddol y myfyrwyr mor amrywiol
- roedd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cynllun mewn ysgolion ac argymhellodd yr adolygiad y dylid penodi cydlynnydd cenedlaethol ar gyfer y cynllun i hyrwyddo'r gwaith, darparu cymorth ieithyddol i hyfforddeion a gweithio gydag ysgolion partner y canolfannau AGA i sicrhau bod yr hyfforddeion yn cael cyfleoedd priodol tra byddant ar gyfnodau profiad dysgu.
- ymchwilio i sut y gall athrawon newydd gymhwyso barhau i gael cymorth a datblygu eu sgiliau iaith, yn ystod eu blwyddyn sefydlu a thu hwnt yng ngoleuni'r diffyg cynllun ôl-ofal ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso
- yr angen i ddatblygu mwy o adnoddau ar-lein a hyrwyddo adnoddau presennol, megis drwy lwyfan digidol Y Porth, i hyfforddeion ac ysgolion. [Y Porth](#) yw'r prif lwyfan ar gyfer cyflwyno a rheoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer myfyrwyr sy'n aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n astudio mewn prifysgolion ledled Cymru.

5. Trosolwg o ddata a thueddiadau sy'n ymwneud ag AGA cyfrwng Cymraeg a phroffil iaith y gweithlu addysgu

- 5.1 Mae'r adran hon yn cynnwys data sy'n ymwneud â phroffil presennol y gweithlu addysgu yng Nghymru, sy'n crynhoi proffil iaith y gweithlu. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o ddata ar sgiliau Cymraeg athrawon dan hyfforddiant.

Proffil iaith y gweithlu addysgu

Y gweithlu addysgu mewn ysgolion yng Nghymru - Cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg

- 5.2 Mae'r data a gyflwynir yn yr adran hon yn defnyddio Crynodeb Blynyddol 2017 Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Mae'n seiliedig ar ddata a gesglir drwy Gofrestr Ymarferwyr Addysg y CGA. Daw'r data o'r gofrestr CGA ar 1 Mawrth 2017:
- roedd **36,182** o athrawon ysgol wedi'u cofrestru gyda'r CGA. Mae nifer yr athrawon cofrestredig wedi lleihau'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ffigur 2017 yn cynrychioli gostyngiad o 4.4 y cant ers 2013
 - roedd **12,036** (33.3 y cant) o athrawon wedi'u cofrestru fel siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru
 - roedd **9,928** (27.4 y cant) o athrawon cofrestredig yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru. Mae canran yr athrawon cofrestredig sy'n siarad Cymraeg a chanran yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu ychydig dros y pum mlynedd diwethaf.

Y gweithlu addysgu mewn ysgolion yng Nghymru - data CYBLD

- Mae'r data hyn yn tynnu ar ddata Llywodraeth Cymru a gesglir drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae data CYBLD yn rhoi dadansoddiad o athrawon sy'n addysgu Cymraeg fel pwnc ac sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Tabl 5.1 isod yn rhoi trosolwg o'r data (ysgolion cynradd, uwchradd a chanol) dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r data hefyd yn datgelu yn 2016/17:

- bod **3,294** o athrawon yn addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf a bod **2,065** arall yn addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn gwneud cyfanswm o **5,359**, sy'n cyfrif am ychydig dros hanner (54 y cant) yr holl athrawon sydd wedi cofrestru gyda CGA sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- roedd **808** o athrawon cymwys yn gallu addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad oeddent yn gwneud hynny.

Tabl 5.1: Addysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd yn ôl categori, 2012/13 i 2016/17

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Athrawon cymwys sy'n addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf	3,276 12.8%	3,393 13.3%	3,251 12.9%	3,380 13.6%	3,294 13.4%
Athrawon cymwys sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith yn unig *	9,812 38.5%	9,923 38.9%	9,942 39.5%	9,831 39.5%	9,949 40.4%
Athrawon cymwys sy'n addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg	2,158 8.5%	2,108 8.3%	2,120 8.3%	2,045 20.2%	2,065 17.4%
Athrawon cymwys sy'n gallu addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny.	918 3.6%	824 3.2%	883 3.5%	680 2.7%	808 3.3%
Athrawon nad ydynt yn gymwys i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg.	9,349 36.6%	9,235 36.2%	8,995 35.7%	8,938 35.9%	8,513 34.6%
Cyfanswm	25,513	25,483	25,191	24,874	24,629

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Llywodraeth Cymru

Noder: * Mae'r rhain yn athrawon sy'n addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Nid yw'r data yn dangos athrawon â sgiliau Cymraeg neu athrawon sy'n gymwys i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond sydd ar hyn o bryd yn addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, ond gall y data gynnwys yr athrawon hyn

5.3 Mae allosod y data ar weithlu athrawon ysgolion uwchradd (Tabl 5.2) hefyd yn cyflwyno nifer o bwyntiau diddorol. Mae'r data hyn yn datgelu:

- bod nifer yr athrawon cymwys sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion uwchradd wedi amrywio yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a bod **378** o athrawon Cymraeg iaith gyntaf mewn ysgolion uwchradd yn 2016/17

- bod nifer yr athrawon cymwys sy'n addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg wedi lleihau yn raddol dros y pum mlynedd diwethaf o **1,870** (yn 2012/13) i **1,664** (yn 2016/17). Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o 2,200 erbyn 2021 a 3,200 erbyn 2031
- yn 2016/17 roedd **410** o athrawon cymwys yn gallu addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad oeddent yn gwneud hynny.

Tabl 5.2: Addysgu Cymraeg mewn ysgolion uwchradd yn ôl categori, 2012/13 i 2016/17

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Athrawon cymwys sy'n addysgu Cymraeg fel iaith gyntaf	388 3.1%	444 3.6%	337 2.8%	484 4.1%	378 3.3%
Athrawon cymwys sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith yn unig	617 4.9%	593 4.8%	698 5.8%	626 5.4%	659 5.8%
Athrawon cymwys sy'n addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg	1,870 15.0%	1,851 15.0%	1,751 14.6%	1,659 14.2%	1,664 14.7%
Athrawon cymwys sy'n gallu addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny.	525 4.2%	430 3.5%	471 3.9%	317 2.7%	410 3.6%
Athrawon nad ydynt yn gymwys i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg.	9,079 72.8%	9,016 73.1%	8,744 72.9%	8,604 73.6%	8,202 72.5%
Cyfanswm	12,479	12,334	12,001	11,690	11,313

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Llywodraeth Cymru

Nid yw'r data'n cynnwys athrawon mewn ysgolion canol

Proffil iaith hyfforddeion AGA

Y cyd-destun

5.4 Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu bwletin ystadegol blynyddol sy'n darparu gwybodaeth am hyfforddiant myfyrwyr i ddod yn athrawon ar gyrsiau AGA sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC). Mae'n cynnwys myfyrwyr sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a hefyd myfyrwyr o Gymru sy'n astudio ledled y DU. Mae rhai o'r pwyntiau cyffredinol a gynhwyswyd yn y bwletin cyhoeddus diweddaraf (Mai 2018) wedi'u nodi isod:

- Mae nifer y myfyrwyr AGA ysgol uwchradd wedi bod yn lleihau'n sylweddol ers rhai blynyddoedd. Yn 2016/17, roedd **545** o fyfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf ar gyrsiau lefel uwchradd, sef **326** (37 y cant) yn brin o'r targed.
- Roedd nifer y myfyrwyr AGA ysgolion cynradd wedi bod yn weddol gyson am 5 mlynedd ond gwelwyd lleihad yn ystod 2015/16. Yn 2016/17 roedd **700** o fyfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf ar gyrsiau lefel cynradd, sef **50** (7 y cant) yn brin o'r targed.

AGA cyfrwng Gymraeg

5.5 Mae'r bwletin ystadegol blynyddol yn cynnwys data ar fyfyrwyr sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr sydd naill ai'n cwblhau cwrs sy'n arwain at dystysgrif ar gyfer addysg ddwyieithog neu gwrs sydd wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi parhau'n weddol gyson dros y 10 mlynedd diwethaf, ar adeg pan fo nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu yn Saesneg yn unig wedi lleihau'n sylweddol. Mae bwletin ystadegol 2016/17 yn nodi: 'roedd 10% yn fwy o fyfyrwyr yn hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg yn 2016/17 nac yn 2007/08, ond mae'r nifer wedi gostwng ychydig yn ystod y 3 blynedd diwethaf' (Llywodraeth Cymru ([Mai 2018](#)) 'Bwletin Ystadegol - Addysg Gychwynnol i Athrawon Cymru, 2016/17'). Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu ar lefel uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn lleihau, sy'n destun pryder (gweler Tabl 5.3).

Tabl 5.3: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi myfyrwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ysgol

	Lefel ysgol	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Wedi'u galluogi i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	Ysgol gynradd	145	195	180	135	150	145
	Ysgol uwchradd	120	105	140	120	95	90
	Pob un	265	305	320	255	245	235
Heb eu galluogi i ddysgu yn Gymraeg	Pob un	1,495	1,440	1,330	1,245	1,065	1,010

Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Noder: Mae'r *blynyddoedd cyntaf* yn cyfeirio at fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar eu blwyddyn gyntaf ar gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) a ddarperir drwy SAU Cymru. Mae hyn yn cynnwys athrawon sy'n hyfforddi i ennill SAC drwy ddilyn cwrs gradd gyntaf sy'n cyfuno gradd - BEd, BA neu BSc fel arfer - gyda SAC neu gwrs TAR sy'n arwain at SAC. Mae llwybrau eraill yn seiliedig ar gyflogaeth ar gael er mwyn cyflawni SAC ond nid yw'r rhain yn cael eu cynnwys yn y data hyn.

Mae'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu beidio wedi'i seilio ar [ddiffiniad HESA](#) o ran a yw'r cwrs HCA yn ddwyieithog ai peidio. Mae unigolion a nodwyd fel rhai sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys y rhai sydd wedi dilyn cyrsiau sy'n arwain at dystysgrif addysg ddwyieithog ffurfiol a chysiau nad ydynt yn arwain at dystysgrif addysg ddwyieithog ffurfiol ond sydd wedi'u cynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu'n ddwyieithog.

Pynciau astudio myfyrwyr uwchradd sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

- 5.6 Mae Tabl 5.4 yn dangos pynciau astudio myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar eu blwyddyn gyntaf o gyrsiau AGA uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'n datgelu lleihad sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf yn niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio i addysgu Cymraeg fel pwnc ac leithoedd Modern. Mae yna hefyd nifer cymharol fach o athrawon sy'n hyfforddi i addysgu pynciau Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl 5.4: Pwnc astudio y rhai ym mlwyddyn gyntaf cyrsiau AGA uwchradd cyfrwng Cymraeg, 2011/12 i 2016/17

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Gwyddoniaeth						
Gyffredinol	*	*	*	*	*	*
Bioleg	5	5	10	*	5	5
Cemeg	5	5	5	5	5	5
Ffiseg	5	5	5	*	5	*
Mathemateg	5	5	5	10	5	5
Dylunio a Thechnoleg	15	5	10	5	5	*
TG	*	*	*	*	5	*
Celf	5	5	5	5	*	*
Busnes	*	*	*	*	*	*
Drama	*	*	*	5	*	5
Saesneg	*	5	*	10	*	*
Daearyddiaeth	5	5	5	*	5	5
Hanes	5	5	5	10	5	5
Ieithoedd Modern	*	5	35	20	10	15
Cerddoriaeth	5	*	*	5	*	*
Addysg Gorfforol	5	*	10	10	15	10
Addysg Grefyddol	5	*	*	*	*	*
Cymraeg	60	50	45	35	25	35
Pob un	120	105	140	120	95	90

Ffynhonnell: Data Cofnodion Myfyrwyr HESA

Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae 0, 1 a 2 wedi'u talgrynnu i 0 ac wedi'u dynodi gan * yn y tabl.

Data sy'n ymwneud â myfyrwyr sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

- 5.7 Mae Tabl 5.5 yn dangos o blith y 71 o hyfforddeion ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a gofrestrwyd ar y cynllun ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2016/17, roedd yr hyfforddeion yn astudio ar draws cyfanswm o 17 o feysydd pwnc. Y pynciau mwyaf cyffredin a astudiwyd oedd Addysg Gorfforol, ac yna Hanes a Mathemateg. Mae'n nodedig wrth gymharu'r data gyda Thabl 5.4, mai ychydig iawn o fyfyrwyr ieithoedd modern sy'n dilyn eu cwrs TAR AGA drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cymryd rhan yn y cynllun Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg.

Tabl 5.5: Meysydd pwnc myfyrwyr TAR uwchradd sy'n derbyn arian drwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg (2016/17)

Celf a Dylunio	3
Bioleg	5
Busnes	1
Cemeg	4
Drama	4
Dylunio a Thechnoleg	4
Saesneg	1
Daearyddiaeth	5
Hanes	9
TG	1
Mathemateg	9
Ieithoedd Modern	4
Cerddoriaeth	2
Addysg Gorfforol	11
Ffiseg	5
Addysg Grefyddol	3
Cyfanswm	71

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Llywodraeth Cymru (Ionawr 2018)

- 5.8 Darparwyd gwybodaeth am y profiad dysgu cyntaf ar gyfer carfan hyfforddeion 2016/17 y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg mewn 61 o achosion. Cynigiwyd cyfleoedd profiad dysgu ar draws 29 o ysgolion uwchradd i gyd ac roedd nifer yr unigolion ar brofiad dysgu yn amrywio o un i uchafswm o chwech fesul ysgol.

TAR cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun targedau derbyn a'r niferoedd gwirioneddol 2016/17

- 5.9 Mae'n ddiddorol ystyried y data a nodir yn y ddau dabl blaenorol yng nghyd-destun cyfanswm nifer y myfyrwyr ar gyrsiau TAR yng Nghymru a thargedau derbyn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ni chynhwysir targedau cyfrwng Cymraeg ar wahân yn y cylchlythyr blynyddol ar gyfer derbyn targedau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a gyhoeddwyd gan CCAUC. Mae data ar gyfer 2016/17 yn datgelu bod y niferoedd ar gyrsiau TAR (gyrsiau Saesneg a Chymraeg cyfunol ac ar draws y tair canolfan AGA) yn is na'r targedau a osodwyd ar gyfer mwyafrif y pynciau uwchradd. Roedd y niferoedd yn is na'r targed mewn 15 o blith 18 o bynciau uwchradd. Roedd

y niferoedd ar gyrsiau TAR cynradd 2016/17 hefyd yn is na'r targed. Mae hyn yn dangos yr anawsterau recriwtio parhaus a wynebwr gan Ganolfannau AGA.

- 5.10 Mae'r data hefyd yn tynnu sylw at y cyfrannau amrywiol o fyfyrwyr TAR cyfrwng Cymraeg ar draws meysydd pwnc gwahanol. Yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr a gefnogir gan y Cynllun Gwellu Cyfrwng Cymraeg yn Nhabl 5.5 uchod (sy'n fwy manwl na'r data sydd ar gael drwy gofnod myfyrwyr HESA yn Nhabl 5.4) mae'r gyfran yn amrywio o 30 y cant o fyfyrwyr Celf a Dylunio sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg i 5 y cant mewn TG. Yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc, mae cyfrannau'r myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer TAR uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn is na 20 y cant. Mae'n werth ystyried y data hyn yng nghyd-destun y targedau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg 2017-21 Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gyfran o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac i gynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl 5.6: Targed TAR, niferoedd gwirioneddol a chyfran myfyrwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg fesul pwnc, 2016/17

Pwnc Ôl-raddedig	Targed o ran niferoedd	Cyfanswm y myfyrwyr ar gyrsiau TAR	% y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg fesul pwnc uwchradd (yn seiliedig ar ddata Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg 2016/17)
Cynradd	450	425	Dd/b
Mathemateg	77	60	15%
Cemeg	43	30	13%
Ffiseg	31	20	25%
Ieithoedd Modern	74	35	11%
Cymraeg	48	35	Dd/b
TG	40	20	5%
Celf a Dylunio	45	10	30%
Bioleg a Gwyddoniaeth Integredig	68	35	14%
Drama	22	15	26%
Astudiaethau Busnes	13	15	7%
Dylunio a Thechnoleg	52	30	13%
Saesneg	81	65	8%
Daearyddiaeth	32	25	20%
Hanes	42	50	18%
Cerddoriaeth	27	10	20%
Gweithgareddau Awyr Agored	5		Dd/b
Addysg Gorfforol	53	60	18%
Addysg Grefyddol	32	25	12%
Cyfanswm uwchradd	785	530	-
Cyfanswm	1235	955	-

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA a Data Llywodraeth Cymru

6. Proffil o hyfforddeion AGA cyfrwng Cymraeg

- 6.1 Mae'r bennod hon yn cynnig trosolwg o nifer a phroffil yr hyfforddeion sy'n cofrestru ar gyfer darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg a'u cymhellion dros wneud hynny.

Tueddiadau o ran y niferoedd sy'n cyfranogi

- 6.2 Mae'r gwaith maes gyda darparwyr AGA, hyfforddeion, athrawon a chynrychiolwyr ysgol eraill yn ategu'r tueddiadau a amlinellir ym mhennod 5 sy'n dangos bod gostyngiad cyffredinol wedi bod yn nifer yr hyfforddeion sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth AGA uwchradd cyfrwng Cymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf tra bod niferoedd y cyfranogwyr AGA cynradd cyfrwng Cymraeg wedi aros yn weddol gyson.
- 6.3 Nodir isod y data a gasglwyd gan ddarparwyr AGA fel rhan o'r gwaith maes am nifer y cyfranogwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg yn ystod 2017/18:

CAAGCC	
Prifysgol Bangor:	- Mae cyfanswm o 41 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar y cwrs TAR cyfrwng Cymraeg yn ystod 2017/18, sy'n debyg i'r nifer a gofrestrodd yn y blynyddoedd diwethaf (rhwng 40 a 50) - Fel rheol, mae tua 20 i 30 o gyfranogwyr yn cofrestru'n flynyddol ar gyfer cwrs BA Addysg Gynradd cyfrwng Cymraeg gyda SAC - Mae cyfanswm o 17 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar y cwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod 2017/18 (o blith cyfanswm o tua 60 o gyfranogwyr sydd wedi cofrestru ar y cwrs TAR Uwchradd yn gyfan gwbl)
Prifysgol Aberystwyth	Mae cyfanswm o 12 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar y cwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod 2017/18 (o blith cyfanswm o tua 60 o gyfranogwyr sydd wedi cofrestru ar y cwrs TAR Uwchradd)
SEWCTET	
Prifysgol Metropolitan	Mae hyn yn cymharu ag 30 o gyfranogwyr a gofrestrodd ar gwrs uwchradd TAR cyfrwng Cymraeg yn ystod 2017/18

Caerdydd:	Mae cyfanswm o 24 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar y cwrs TAR cynradd cyfrwng Cymraeg yn ystod 2017/18. O blith y rhain mae 22 yn dal i fynychu. Mae'r ffigur hwn yn debyg i flynyddoedd blaenorol (e.e. cwblhaodd 25 o gyfranogwyr y cwrs yn 2016/17 a 23 yn 2015/16)
CAADOC	
Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant	- Mae 19 o gyfranogwyr wedi cofrestru ar gwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ystod 2017/18 ac mae pum cyfranogwr arall yn dilyn cwrs TAR uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cymharu ag 20 o gyfranogwyr a gofrestrodd ar gwrs uwchradd TAR cyfrwng Cymraeg yn ystod 2016/17 - Cofrestrodd 21 o gyfranogwyr ar y cwrs BA Addysg Cynradd Cyfrwng Cymraeg gyda SAC yn ystod 2017/18, o'i gymharu â 38 yn 2016/17 a 29 yn 2015/16 - Cofrestrodd 28 o gyfranogwyr ar y cwrs TAR Cynradd Cyfrwng Cymraeg gyda SAC yn ystod 2017/18, o'i gymharu â 33 yn 2016/17 a 29 yn 2015/16

6.4 Priodolwyd y lleihad yn nifer y cyfranogwyr ar y cwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg i nifer o ffactorau, ac roedd nifer o'r ffactorau hyn hefyd yn gyffredin i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Awgrymodd cynrychiolwyr AGA a chynrychiolwyr ysgol:

- nad yw addysgu yn cael ei ystyried yn yrfa ddeniadol mwyach gan y cyhoedd a'i fod wedi dioddef yn sgil sylw negyddol sylweddol yn y wasg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda darpar hyfforddeion yn cael eu hatal rhag ei ddilyn oherwydd y llwyth gwaith uchel. Er bod rhai cyfranwyr wedi rhoi tystiolaeth a oedd yn dangos bod hyn yn dechrau newid, roedd sawl cynrychiolydd ysgol yn cydnabod bod darpar hyfforddeion cyfrwng Cymraeg yn cael eu rhwystro ymhellach gan y baich gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â pharatoi deunyddiau addysgu Cymraeg
- erbyn hyn mae llawer mwy o gystadleuaeth am sgiliau Cymraeg ymhlith darpar gyflogaion ar draws ystod ehangach o yrfaedd a sectorau. Ystyriwyd bod cyflwyno'r Safonau newydd yn ymwneud â'r Gymraeg, yn arbennig, wedi

creu galw am unigolion â sgiliau Cymraeg proffesiynol ar draws ystod eang o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. O ganlyniad, mae'n fwy o her i'r sector addysg recriwtio o'i farchnad draddodiadol

- mae cyflwyno polisi Llywodraeth Cymru sy'n mynnu bod hyfforddeion AGA yn meddu ar radd B TGAU mewn Saesneg a Mathemateg wedi lleihau cronfa recriwtio'r sector ymhellach. O gymharu, roedd peth tystiolaeth bod darpar ymgeiswyr AGA nad oeddent yn bodloni'r gofynion newydd hyn yn edrych ar opsiynau astudio y tu allan i Gymru, lle mae'r gofynion mynediad yn is weithiau. Mae'n werth nodi y bydd y gofynion [mynediad](#) newydd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant o fis Medi 2018 ymlaen yn mynnu eu bod wedi cyrraedd safon sy'n cyfateb i radd B TGAU mewn Saesneg a/neu Gymraeg ac mewn mathemateg fel y nodir yn y Meini Prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru.
- bu lleihad yn nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â lleihad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch, gan leihau'r gronfa recriwtio bosibl. Mae [data](#) a gyhoeddwyd yn dangos bod nifer y myfyrwyr sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf fel pwnc Safon Uwch wedi lleihau o 281 yn 2008/09 i 218 erbyn 2016/17, yn unol â lleihad cyffredinol yn nifer y myfyrwyr Safon Uwch dros y cyfnod hwn ond nid oes data ar gael i gadarnhau'r honiad bod nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi lleihau
- credir bod y canfyddiad bod y cymhellion ariannol yn Lloegr yn fwy hael nag yng Nghymru yn llesteirio gallu'r Canolfannau i recriwtio ymhlith y rhai sydd heb benderfynu ar eu lleoliad astudio. Mewn gwirionedd mae'r sefyllfa ychydig yn fwy cymhleth yn dibynnu ar bwnc yr ymgeisydd a'i gyflawniad mewn addysg uwch ond ar ben uchaf y raddfa mae'r canfyddiad hwn yn wir: bydd athrawon dan hyfforddiant (Mae modd i hyfforddeion sydd wedi ennill gradd Dosbarth 1^{af}, 2: 1, 2: 2, PhD neu gymhwyster ar lefel Meistr mewn Mathemateg gael ysgoloriaeth o hyd at £22,000 a thaliad gyrfa gynnar o £10,000 o 2018/19 ymlaen) yn gallu sicrhau cyllid o hyd at £32,000 os byddant yn hyfforddi yn [Lloegr](#) o'i gymharu â hyd at £25,000 yng Nghymru.

Mae modd i hyfforddeion sydd wedi ennill gradd Dosbarth 1^{af}, PhD neu gymhwyster Meistr mewn Mathemateg, Ffiseg, Cemeg, Cymraeg neu Gyfrifiadureg gael cyllid o £20,000 yn ogystal â hyd at £5,000 drwy gynllun Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg o 2018/19 ymlaen

- 6.5 Mae'r gwaith maes gyda Chanolfannau AGA yn awgrymu bod staff y cwrs yn gwneud ymdrechion mawr i adnabod, annog a darbwyllo siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am gyrsiau AGA cyfrwng Cymraeg a'u dilyn:
- 'Dwi'n sbotio nhw pan ma nhw'n dod mewn ar ddiwrnod cyfweiliad ... dwi'n nabod yr ysgolion'.
- 6.6 Ategwyd hyn gan hyfforddeion a gyfrannodd at y grwpiau ffocws: dywedodd dau unigolyn o'r fath eu bod naill ai wedi ystyried ymgeisio neu wedi ymgeisio am y cwrs cyfrwng Saesneg ond bod y staff yn eu sefydliadau wedi eu darbwyllo i ddilyn eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd un o'r cyfranwyr hyn wedi siarad Cymraeg yn rheolaidd ers gadael yr ysgol ac roedd yn pryderu am safon ei Gymraeg. Fodd bynnag, roedd ei asesiad iaith Gymraeg a gwblhawyd ar ddechrau'r tymor yn awgrymu bod ganddo'r gallu i ddilyn y cwrs cyfrwng Cymraeg ac felly newidiodd yr hyfforddai ei gwrs yn ystod wythnos gyntaf y tymor.
- 6.7 Deallir bod nifer mwy o hyfforddeion TAR yn hunan-adrodd eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ar ddechrau eu cwrs na'r rhai sy'n dewis dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data [HESA](#) yn dangos a yw'r myfyriwr yn barnu ei fod yn medru'r Gymraeg. Mae myfyrwyr yn diffinio eu hunain fel un o bedwar categori - yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, yn gallu siarad Cymraeg ond nid yn rhugl, ddim yn gallu siarad Cymraeg neu ddim yn hysbys. Fodd bynnag, dadleuodd cynrychiolwyr o Ganolfannau AGA ac, i ryw raddau, hyfforddeion yn gryf nad oes tystiolaeth o gronfa heb ei chyffwrdd o siaradwyr Cymraeg a fyddai'n gallu cymryd rhan yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ond sydd wedi dewis peidio â gwneud hynny. Yn wir, o blith y 52 o athrawon dan hyfforddiant a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yn ystod y gwerthusiad, dim ond un a oedd yn astudio TAR Uwchradd drwy gyfrwng y Saesneg. Yn hytrach, roedd y Canolfannau'n awgrymu bod ganddynt hyfforddeion sydd â rhywfaint o afael ar y Gymraeg ond na fyddent mewn sefyllfa i ymdopi â dilyn eu cwrs AGA drwy gyfrwng y Gymraeg: roedd hyfforddeion yn aml yn cyfeirio

at yr unigolion hyn fel rhai a allai gynnal sgwrs fer, anffurfiol yn Gymraeg ond a oedd wedi colli hyder ers gadael yr ysgol neu bod ganddynt sgiliau ysgrifenedig cyfyngedig iawn.

- 6.8 Yn aml, roedd Canolfannau AGA a hyfforddeion (yn enwedig y rhai hynny sy'n hyfforddi yn y de-ddwyrain) yn cyfeirio at y diffyg hyder ymhlith y rhai a oedd yn ansicr ynghylch astudio eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyriwyd bod hyn yn broblem gyffredin ymysg hyfforddeion nad oeddent wedi astudio eu cyrsiau Safon Uwch neu gyrsiau gradd gyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r rhai sy'n astudio pynciau gwyddoniaeth a thechnoleg. Ystyriwyd bod darpariaeth ddwyieithog AGA (lle roedd cyfran lai o ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg fel yn achos rhai meysydd pwnc uwchradd) yn apelio'n fawr at y grŵp targed hwn, gan ei bod yn cynnig mwy o sicrwydd i hyfforddeion y byddent yn gallu gwneud yn dda ar y cwrs.

Proffil o hyfforddeion AGA cyfrwng Cymraeg

- 6.9 Datgelodd y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda hyfforddeion fod y mwyafrif wedi cael addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Roedd yn werth nodi bod y mwyafrif o hyfforddeion TAR wedi astudio eu gradd israddedig drwy gyfrwng y Saesneg ac felly'n cydnabod yr angen i ymgyswrtu (neu ailymgyswrtu) â theminoleg Gymraeg y pwnc.
- 6.10 O ran eu cefndir ieithyddol, roedd nifer fawr o'r rhai a gyfrannodd at y grŵp ffocws yn dod o deuluoedd Cymraeg eu hiaith neu deuluoedd lle roedd o leiaf un rhiant yn medru'r Gymraeg ac roedd y rhain fel arfer yn ystyried eu hunain yn hyderus iawn yn yr iaith: yn wir, roedd nifer bach yn cyfaddef bod ganddynt ddiffyg hyder yn eu sgiliau Saesneg. Yn gyffredinol, roedd llai yn dod o gefndiroedd di-Gymraeg ac roedd y cyfranwyr hyn yn fwy tebygol o fod yn astudio gyda darparwr AGA yn y de-ddwyrain ac roedd ganddynt bryderon ynghylch a oedd eu Cymraeg yn ddigon da ar gyfer y cwrs. Nid oedd yn anghyffredin clywed nad oedd hyfforddeion a gyfrannodd at drafodaethau grŵp ffocws wedi siarad Cymraeg ers gadael yr ysgol, ac roedd llond llaw o gyfranwyr wedi byw y tu allan i Gymru ers peth amser cyn cofrestru ar y cwrs. Nododd un cyfrannwr o'r fath:

'Fi'n poeni am fy Nghymraeg achos ma rhai pobl yma jyst yn 'wow' ond dwi yn trio fy ngorau'.

Cymhelliant i gofrestru ar ddarpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg

- 6.11 Canfu'r gwaith maes fod mwyafrif yr athrawon dan hyfforddiant a'r athrawon newydd a gyfrannodd at y gwerthusiad eisoes wedi penderfynu dilyn cwrs AGA cyfrwng Cymraeg cyn cofrestru. Un o'r prif sbardunau o ran penderfynu gwneud hynny oedd y canfyddiad ei fod yn cynnig mwy o gyfleoedd i sicrhau swyddi addysgu, yn enwedig mewn rhannau o Gymru lle mae'r mwyafrif o ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Sbardun pwysig arall oedd ei fod yn cael ei ystyried yn ddilyniant naturiol i hyfforddeion (yn enwedig pe baent wedi cael eu haddysg yn yr ysgol neu eu haddysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn dod o deulu Cymraeg) ac nad oeddent wedi ystyried unrhyw ddewis arall arall. Roedd eraill yn dueddol o ategu'r farn eu bod 'eisiau rhoi rhywbeth yn ôl' i'w cymuned ac roeddent yn teimlo dyletswydd i sicrhau 'bod yr iaith yn ffynnu'.
- 6.12 Roedd rhai o'r hyfforddeion hyn, er eu bod wedi ymrwymo o'r cychwyn i ddilyn cwrs TAR cyfrwng Cymraeg, yn pryderu am eu gallu i ymdopi â'r iaith, yn enwedig o ran cwblhau aseiniadau Cymraeg.

7. Argaeledd a natur darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg

- 7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried natur darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys i ba raddau y mae darpariaeth AGA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â darpariaeth sgiliau Cymraeg a chyfnodau profiad dysgu mewn ysgolion.

Darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg

- 7.2 Canfu'r gwaith maes bod y graddau y cyflwynir darpariaeth AGA drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio rhwng darparwyr AGA. Ar y naill law, cyflwynir rhywfaint o'r ddarpariaeth yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg (heblaw ambell ddarlith neu seminar arbenigol) ac mewn achosion eraill, yr unig agwedd Gymraeg ar y ddarpariaeth yw sesiynau 'gloywi iaith' a'r cyfnodau profiad dysgu mewn ysgolion. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos yr amrywiad hwn:

- mae'r mwyafrif helaeth o'r cwrs BA Addysg Gynradd cyfrwng Cymraeg yn CAADOC a CAAGCC yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ac eithrio ambell fodiwl arbenigol sydd ar gael yn Saesneg
- mae pob athro dan hyfforddiant yn SWWCTE sy'n dilyn y cwrs TAR uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael darpariaeth Gymraeg bob wythnos pan fyddant yn y brifysgol. Ar gyfer oddeutu hanner y pynciau uwchradd ceir tiwtoriaid sy'n medru'r Gymraeg sy'n darparu cymorth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn eu meysydd pwnc arbenigol
- yn CAAGCC, mae hyfforddeion TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn cael eu darpariaeth astudiaeth broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg a cheir darpariaeth ddwyieithog ar gyfer pynciau penodol
- yn CAAGCC, mae hyfforddeion TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn mynychu darlithoedd generig a gyflwynir yn Saesneg ond yn defnyddio deunyddiau ategol dwyieithog. Mae gan bob pwnc uwchradd heblaw un diwtor sy'n medru'r Gymraeg sy'n darparu cymorth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn eu meysydd pwnc arbenigol
- yn SEWCTET, mae hyfforddeion TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn mynychu darlithoedd Saesneg ond yn

cael sesiynau Datblygiad Proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ambell diwtor pwnc yn medru'r Gymraeg ond mae darpariaeth pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn dibynnu ar nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi'u cofrestru'n flynyddol ar gyfer pob pwnc

- yn SEWCTET, mae dau aelod o blith y saith yn y tîm AGA cynradd yn medru'r Gymraeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac felly mae'r myfyrwyr wedi'u rhannu'n grwpiau Cymraeg a di-Gymraeg. Dywedodd athrawon dan hyfforddiant fod y darlithoedd darpariaeth graidd (iaith, mathemateg a gwyddoniaeth) ar gael yn Gymraeg ond bod y gweddill (e.e. celf, cerddoriaeth a Saesneg) yn cael eu cyflwyno yn Saesneg.

7.3 Awgrymodd rhai cyfranwyr fod hyrwyddo cwrs fel 'cwrs cyfrwng Cymraeg' mewn gwirionedd yn 'gamarweiniol' mewn achosion lle mae'r rhan fwyaf o'r darlithoedd neu bob darlith yn cael eu cyflwyno yn Saesneg a lle mai'r unig elfen sylweddol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yw profiad dysgu mewn ysgol a chymorth gyda'r Gymraeg drwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn arbennig o wir am gyrsiau TAR uwchradd ar draws SEWCTET a CAADOC lle nad oedd y tiwtor pwnc yn medru'r Gymraeg:

Roedd Athro L yn ei flwyddyn gyntaf o addysgu mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar ôl cwblhau TAR cyfrwng Cymraeg mewn Hanes ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Cyn hynny, bu'n astudio ar gyfer gradd israddedig mewn Hanes a Chymraeg, gydag agweddau ar y flwyddyn gyntaf yn cael eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ystyried ei fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg ac mae'n dod o gefndir Cymraeg. Nid oedd yn sylweddoli na fyddai unrhyw ran o'i gwrs TAR ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar y cychwyn ac roedd yn synnu o ddarganfod mai dim ond yn Saesneg yr oedd yr holl ddarlithoedd a'r deunyddiau ar gael. Nid oedd ei fentor pwnc yn medru'r Gymraeg ac nid oedd yn gallu asesu ei addysgu yn ystod ei brofiad dysgu mewn ysgol yn iawn. Cynigiwyd y cyfle iddo gwblhau ei aseiniadau yn Gymraeg ond dewisodd beidio â gwneud hynny gan y byddai'r rhain wedi cael eu cyfieithu i'r Saesneg at ddibenion asesu.

- 7.4 Fodd bynnag, roedd rhai cynrychiolwyr darparwyr AGA yn teimlo ei bwysig bod y model hwn o ddarpariaeth ar gael oherwydd bod ei hyblygrwydd yn denu carfan benodol o hyfforddeion nad oedd ganddynt hyder i ddilyn cwrs AGA llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.5 Ystyrir bod dwy brif broblem o ran cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg (yn enwedig yn y sector uwchradd). Yn gyntaf, mae'r nifer isel o fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau AU unigol yn golygu ei bod yn her, o safbwynt ariannol a logistaidd, cynnig darpariaeth yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn achos CAAGCC er enghraifft, o blith y chwe hyfforddai sy'n astudio TAR Uwchradd mewn Mathemateg ym Mhrifysgol Bangor, dim ond dau sy'n dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.6 Yn ail, yn y sector uwchradd mae prinder sgiliau Cymraeg ymhlith staff y brifysgol yn ei gwneud yn anodd darparu rhai pynciau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd nifer o hyfforddeion cyfrwng Cymraeg a gymerodd ran mewn trafodaethau grwpiau ffocws wrthym mai yn Saesneg y mae eu seminarau neu sesiynau tiwtorial pwnc, a hynny oherwydd nad yw'r arbenigwyr yn eu SAU yn medru'r Gymraeg neu'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn broblem wirioneddol o ran asesu addysgu yn ystod cyfnodau profiad dysgu mewn ysgolion - cyfeiriwyd at enghreifftiau o diwtoriaid di-Gymraeg yn arsylwi gwersi cyfrwng Cymraeg ac eraill nad oeddent yn arbenigwyr pwnc neu diwtoriaid ar gontract yn ymgymryd â'r asesiadau. Dywedodd rhai penaethiaid fod hyn yn codi cwestiynau ynghylch cydraddoldeb o ran y cymorth a ddarperir i hyfforddeion cyfrwng Cymraeg o gymharu â'u cymheiriaid sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg.
- 7.7 Datgelodd y gwaith maes fod rhywfaint o ddarpariaeth AGA yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog. Yn y sector uwchradd, mae hyn fel rheol yn cynnwys darparu darlithoedd datblygiad proffesiynol yn Saesneg gyda sleidiau a deunyddiau cysylltiedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dim ond un enghraifft a nodwyd o ddarparwr AGA yn defnyddio cyfieithu ar y pryd i sicrhau bod y darlithoedd hyn yn cael eu darparu'n ddwyieithog er budd hyfforddeion cyfrwng Cymraeg. Roedd y darparwr hwn hefyd yn gwneud trefniadau i gyfieithu unrhyw gyflwyniadau Cymraeg gan

hyfforddeion er budd y grŵp cyfan (er nad oedd hyn yn cael ei groesawu bob tro gan yr hyfforddeion oherwydd eu bod yn credu ei fod yn lletchwith ac yn feichus).

- 7.8 Nid oedd yn anarferol clywed bod seminarau neu sesiynau tiwtorial pwnc llai, a arweiniwyd gan siaradwr Cymraeg, yn cael eu cynnal yn ddwyieithog. Yn yr achosion hyn, mae'r tiwtor yn cyflwyno'r sesiynau yn y Gymraeg a'r Saesneg a darperir deunyddiau yn ddwyieithog fel rheol. Yn gyffredinol, roedd yr hyfforddeion yn gwerthfawrogi gallu trafod eu pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad i derminoleg Gymraeg ac mewn rhai achosion roedd yr hyfforddeion yn teimlo bod eu tiwtor yn mynd y tu hwnt i'w ddyletswydd:

'ma 'hi'n ffantastig. Ma 'hi wastad yn rhoi mwy o bethau inni ... dyw'r rhai di-Gymraeg ddim yn eu cael.'

- 7.9 Fodd bynnag, awgrymodd rhai hyfforddeion fod y sesiynau pwnc dwyieithog hyn yn cymryd dwywaith cyhyd o ganlyniad:

'mae'r sesiynau pwnc' ma dwbl yr amser mae angen iddynt fod '.

- 7.10 Awgrymodd nifer bach o hyfforddeion a gyfrannodd at drafodaethau'r grwpiau ffocws hefyd nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio i'r un graddau â Saesneg mewn sesiynau dwyieithog o'r fath:

'mae o'i gyd bron yn Saesneg hefo tipyn bach o Gymraeg'.

- 7.11 Mynegodd rhai hyfforddeion a gymerodd ran mewn trafodaethau grŵp ffocws rwystredigaeth bod darlithoedd generig yn ogystal â seminarau pwnc-benodol yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf gan eu bod yn teimlo dan anfantais wirioneddol oherwydd hyn. Roeddent yn dadlau nad oedd sesiynau Saesneg yn unig yn eu paratoi cystal i addysgu eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddweud eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar eu sesiynau tiwtorial Cymraeg neu sesiynau 'gloywi iaith' i ganolbwyntio ar 'gyfieithu terminoleg o'r darlithoedd'. Roedd adborth gan rai athrawon newydd a gafodd eu cyfweld yn ystod ymweliadau ag ysgolion yn ategu hyn gydag un athro o'r fath yn esbonio ei fod wedi ei chael hi'n anodd addasu i brofiad dysgu cyfrwng Cymraeg oherwydd iddo gael y mwyafrif o'i ddarlithoedd yn Saesneg h.y. nid oedd yn gyfarwydd â'r terminoleg priodol neu gyfoes ar gyfer ei bwnc ar ddechrau ei brofiad dysgu cyntaf.

- 7.12 Un thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg gan hyfforddeion oedd y diffyg deunyddiau addysgu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael iddynt tra ar brofiad dysgu mewn ysgol - er bod hyn mewn rhai achosion oherwydd diffyg ymwybyddiaeth neu fynediad cyfyngedig i adnoddau megis [Hwb](#). Roedd galw cyffredinol i fwy o ddeunyddiau cyfrwng Cymraeg fod ar gael i hyfforddeion - yn enwedig pan oedd cynnwys pwnc AGA ar gael yn Saesneg yn bennaf, er mwyn rhoi'r derminoleg Gymraeg i'r hyfforddeion. Dadleuwyd hefyd y byddai hyn yn lleihau'r amser a dreulir yn cyfieithu deunyddiau a dogfennau - rhywbeth yr amcangyfrifwyd ei fod yn cymryd llawer o oriau ychwanegol bob wythnos i hyfforddeion cyfrwng Cymraeg.

Ansawdd

- 7.13 At ei gilydd, roedd yr adborth gan hyfforddeion, ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn awgrymu bod ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, lle mae ar gael, yn dda ac mai'r brif broblem yw'r anghysondeb ledled Cymru. Ategwyd y farn hon gan randdeiliaid a ddywedodd fod AGA cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol o safon uwch nag AGA cyfrwng Saesneg. Mae adborth gan athrawon dan hyfforddiant yn awgrymu mai darparu sesiynau grŵp llai sydd i'w gyfrif yn rhannol am hyn gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth mwy personol.
- 7.14 Roedd un brif feirniadaeth o ran ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ymwneud ag anghydraddoldeb o ran adnoddau, a'r ffaith bod deunyddiau'n gysylltiedig â chwrs AGA yn cael eu darparu'n hwyrach nag adnoddau Saesneg: 'Dyw'r cwrs Cymraeg ddim ar yr un safon a'r Saesneg, mae nhw'n dweud cewn ni'r deunyddiau Cymraeg yn hwyrach.'

Asesiadau cychwynnol o sgiliau Cymraeg

- 7.15 Datgelodd y gwaith maes fod yr holl Ganolfannau AGA yn cynnal asesiadau sgiliau Cymraeg ar gyfer hyfforddeion ar ddechrau'r cwrs. Fodd bynnag, nid oes un prawf asesu cenedlaethol ar waith ac o ganlyniad mae darparwyr yn mabwysiadu dulliau gwahanol. Cred darparwyr AGA fod angen offeryn asesu safonol.

Aseiniadau cwrs

- 7.16 Dywedodd hyfforddeion AGA cyfrwng Cymraeg eu bod yn gallu dewis iaith ar gyfer cyflwyno aseiniadau eu cwrs, er bod darparwyr yn eu hannog i gwblhau o leiaf un aseiniad yn Gymraeg ac yn cynnig cymorth ychwanegol gan staff i wneud hynny. Caiff y dull hyblyg hwn ei groesawu gan hyfforddeion a gyfrannodd at drafodaethau grŵp ffocws, yn enwedig y rhai nad oedd ganddynt hyder yn eu Cymraeg ysgrifenedig ar ddechrau'r cwrs. Roedd yr hyfforddeion yn fwy tebygol o baratoi eu haseiniadau cwrs yn Gymraeg os oeddent yn teimlo'n fwy hyderus yn ysgrifennu yn Gymraeg na'r Saesneg a hefyd lle roedd eu tiwtor yn gallu marcio aseiniad Cymraeg. Datgelodd un drafodaeth grŵp ffocws gyda hyfforddeion gymysgedd mawr o ran yr iaith a ddewiswyd gan gyfranwyr i gwblhau eu haseiniadau cwrs, gyda phedwar o blith y chwe chyfrannwr yn dewis cyflwyno eu haseiniadau yn Saesneg. Ar adegau, roedd rhai hyfforddeion a ddewisodd baratoi eu haseiniadau yn Gymraeg yn ystyried eu bod dan anfantais os nad oedd gan eu tiwtor pwnc y sgiliau Cymraeg i farcio eu gwaith:

Roedd dau hyfforddai AGA uwchradd mewn un Ganolfan AGA wedi dewis paratoi eu haseiniadau yn Gymraeg. Gan nad oedd eu tiwtor pwnc yn medru'r Gymraeg roedd yr aseiniadau hyn wedi'u marcio gan gydlynnydd y Gymraeg ac roedd yr hyfforddeion yn teimlo dan anfantais o'u cymharu â'u cyd-hyfforddeion a fyddai'n elwa ar adborth arbenigwr pwnc.

Darpariaeth Gloywi iaith

- 7.17 Mae pob darparwr AGA yn darparu o leiaf rywfaint o ddarpariaeth i ddatblygu neu wella sgiliau Cymraeg yr holl athrawon dan hyfforddiant (boed ar gyrsiau uwchradd neu gynradd cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg). Cyfeiriwyd yn aml at y rhain fel 'sesiynau gloywi iaith' yn ystod y gwaith maes. Mae'n ofynnol i bob hyfforddai AGA uwchradd cyfrwng Cymraeg gymryd rhan yn y sesiynau hyn fel un o amodau eu cyllid Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Ni nododd y gwaith maes unrhyw hyfforddeion TAR uwchradd a oedd wedi dewis y cwrs cyfrwng Cymraeg nad oeddent yn cymryd rhan yn y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Mae'r sesiynau

hefyd yn paratoi hyfforddeion ar gyfer yr arholiad sy'n gysylltiedig â'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith, lle bo hynny'n briodol.

7.18 Mae Canolfannau AGA yn darparu'r sesiynau gloywi iaith hyn mewn gwahanol ffyrdd. Yn achos y sector cynradd (lle nad yw arian y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn ei gwneud yn elfen orfodol) mae hyfforddeion sy'n cymryd rhan yn:

- y cwrs BA Addysg Cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cael sesiynau gloywi iaith wythnosol. Mae hyfforddeion y credir eu bod yn llai hyderus yn eu sgiliau iaith hefyd yn cael cwrs cynefino dwys tridiau ar ddechrau eu cwrs sy'n canolbwyntio ar hanes Cymru a rhywfaint o ramadeg y Gymraeg. Dywedodd yr hyfforddeion a fynychodd y cwrs hwn eu bod yn credu ei fod wedi helpu i wella eu hyder
- y cyrsiau a ddarperir gan Brifysgol Bangor (os ydynt yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg) yn cael eu neilltuo i un o bedwar grŵp, yn ôl yr ystod oedran y byddant yn ei addysgu (h.y. 3-7 neu 7-11) a'u gallu yn y Gymraeg. Mae pob grŵp yn cael gwersi Cymraeg wythnosol. Yn nodweddiadol, mae dau o'r grwpiau hyn wedi'u targedu at fyfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl ac mae'r ddau arall wedi'u targedu at fyfyrwyr a chanddynt sgiliau Cymraeg amrywiol
- cyrsiau cyfrwng Cymraeg a ddarperir ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn cymryd rhan mewn sesiynau gloywi iaith gallu cymysg pob prynhawn Gwener. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd personol yn ogystal â sut i wella sgiliau llythrennedd disgyblion.

7.19 Yn achos y sector uwchradd, mae hyfforddeion TAR cyfrwng Cymraeg fel arfer yn mynychu sesiynau gloywi iaith wythnosol pan nad ydynt ar brofiad dysgu mewn ysgolion, sy'n gyfystyr â chyfanswm o 25 awr fesul blwyddyn academiaidd. Mae hyn fel arfer yn cynnwys sesiynau tair neu bedair awr yn y Canolfannau hynny lle mae'r hyfforddeion yn ymgymryd ag elfen prifysgol eu cwrs mewn 'blociau', neu sesiwn o awr yr wythnos ar gyfer cyrsiau lle y disgwylir i hyfforddeion fod yn y brifysgol un diwrnod yr wythnos dros y flwyddyn academiaidd gyfan.

Darpariaeth Gymraeg ychwanegol ar gyfer myfyrwyr TAR cyfrwng Saesneg

- 7.20 Yn achos cyrsiau TAR cyfrwng Saesneg, mae un Ganolfan wedi cyflwyno sesiynau Cymraeg wythnosol i bob athro dan hyfforddiant o 2017/18:

Cynllun Cymraeg i Bawb

Cynllun newydd yw hwn sy'n cael ei dreialu gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18 gyda'r nod o ddarparu gwersi Cymraeg i bob myfyriwr AGA cyfrwng Saesneg. Caiff eu sgiliau Cymraeg eu hasesu'n anffurfiol, yn seiliedig ar brofiad blaenorol a chyrhaeddiad yn y Gymraeg (TGAU Cymraeg ail iaith fel arfer) a rhennir hyfforddeion yn grwpiau yn ôl eu gallu. Mae'r myfyrwyr yn cael dwy wers iaith yr wythnos, gan weithio tuag at gyflwyno micro-wers yn eu maes pwnc gan ddefnyddio cymaint o Gymraeg ag y gallant/ag y maent yn hyderus i'w defnyddio.

Y sail resymegol dros y dull hwn yw ei fod yn cysylltu â'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob athro ddangos ymrwymiad i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg. Mae'n ceisio hyrwyddo agweddau cadarnhaol a dangos bod myfyrwyr - beth bynnag fo'u sgiliau yn y Gymraeg ar ddechrau eu cwrs AGA - yn gallu gwneud cynnydd ar hyd y continwwm.

Mae'r brifysgol yn gwerthuso'r cynllun peilot yn fewnol gyda'r bwriad o adeiladu ar y dull gweithredu hwn dros y blynnyddoedd i ddod.

Adborth ar y sesiynau gloywi iaith

- 7.21 Yn gyffredinol, roedd hyfforddeion ac athrawon newydd yn glir iawn bod sesiynau gloywi iaith yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at wella eu sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, roedd y dull o gyflwyno elfen gloywi iaith cyrsiau AGA yn amrywio ar draws y Canolfannau ac roedd yn amlwg bod lle i wella ac, o bosibl, i sicrhau mwy o gysondeb ar draws y Canolfannau.
- 7.22 Ar draws pob Canolfan, ymddengys nad oedd gan yr athrawon dan hyfforddiant fawr o ddealltwriaeth ar y cychwyn y byddai'n ofynnol iddynt ymgymryd â'r sesiynau hyn a bod hynny'n un o amodau cyllid y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg.

Awgrymwyd y dylid gwneud mwy o ymdrech i gyfathrebu hyn yn glir i ymgeiswyr, yn enwedig mewn deunyddiau hyrwyddo a chanllawiau ar wefannau.

- 7.23 Roedd y mater cyffredin arall a godwyd gan hyfforddeion, athrawon newydd a rhai cynrychiolwyr ysgol yn ymwneud â natur ddwys y gwaith sy'n gysylltiedig â'r sesiynau gloywi iaith ychwanegol hyn. Roedd llawer o hyfforddeion yn cael eu llethu gan y gwaith ychwanegol dan sylw, yn enwedig y gwaith cartref sy'n cael ei osod rhwng y sesiynau gloywi iaith a'r aseiniadau ychwanegol y mae'n rhaid iddynt eu cwblhau er mwyn bodloni amodau cyllid y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg.
- 7.24 Er gwaethaf y cwynion hyn am y baich gwaith trwm ychwanegol sy'n gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, fodd bynnag, roedd y darparwyr AGA yn awyddus i bwysleisio bod y gyfradd adael ymhlith hyfforddeion AGA cyfrwng Cymraeg yn debyg i'r gyfradd ar gyfer hyfforddeion AGA cyfrwng Saesneg ac nad oedd llawer o dystiolaeth i awgrymu bod hyfforddeion yn newid iaith ran o'r ffordd drwy'r cwrs e.e. yn ystod y flwyddyn academaidd hon, o blith 74 o hyfforddeion y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a oedd wedi cofrestru, roedd 11 wedi gadael y cwrs yn llwyr a dim ond un a oedd wedi trosglwyddo i'r cwrs cyfrwng Saesneg.
- 7.25 Pwynt arall a wnaed gan nifer o hyfforddeion a gyfrannodd at drafodaethau'r grwpiau ffocws oedd nad yw'r aseiniadau a osodir fel rhan o'r sesiynau gloywi iaith yn cyd-fynd yn arbennig o dda â chynnwys eu cwrs AGA a'u bod yn dueddol o fod yn 'annibynnol' eu natur. Byddai hyfforddeion yn croesawu newid a fyddai'n sicrhau bod yr aseiniadau yn fwy perthnasol i'w gwaith cwrs ac addysgu'n fwy cyffredinol e.e. cyflwyno cynllun gwers y gellid ei asesu o ran ei gynnwys ieithyddol. Fel y dywedodd un hyfforddai o'r fath:
- 'ni'n gorfod creu deunyddiau hollol ddibwrpas ar gyfer y cwrs gloywi iaith ac o ystyried y pwysau gwaith mae'n wastraff amser'.
- 7.26 At hynny, roedd un mater terfynol a godwyd gan hyfforddeion ac athrawon yn ymwneud â darpariaeth wahaniaethol. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan hyfforddeion ac athrawon presennol a oedd wedi cymryd rhan mewn dull mwy gwahaniaethol o ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, gan ychwanegu ei fod wedi canolbwyntio ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Mae tystiolaeth un athro newydd yn ategu'r farn hon:

Cwblhaodd Athrawes Y gwrs TAR cyfrwng Cymraeg cynradd ym Mhrifysgol Bangor yn ystod 2016/17 a chafodd swydd fel athrawes mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn union wedyn. Roedd yn ystyried ei bod yn rhugl ac yn hyderus iawn yn y Gymraeg gan ei bod wedi astudio ei chymwysterau Safon Uwch a gradd drwy gyfrwng y Gymraeg, ar ôl derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ymgymryd â'r olaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Cwblhaodd 'archwiliad' o'i sgiliau Cymraeg ar ddechrau'r cwrs a oedd yn cynnwys 'tasg ramadeg, ymarfer ysgrifenedig, tasg i nodi camgymeriadau iaith a thasg drawsieithu'. Dangosodd canlyniad yr archwiliad hwn nad oedd angen y gwersi Cymraeg ychwanegol arni ond fe'i gwahoddwyd i fynychu'r 'tri chwarter awr' olaf y sesiynau iaith er mwyn paratoi ar gyfer arholiad y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon. Roedd yr athrawes hon yn gwerthfawrogi'r dull gweithredu hwn gan ei fod yn caniatáu iddi ganolbwyntio ar agweddau eraill ar ei gwaith cwrs.

- 7.27 Canfu'r ymchwiliad fod hyfforddeion AGA uwchradd yn mynychu'r un sesiynau gloywi iaith yn eu prifysgol, yn bennaf oherwydd bod niferoedd bach y cyfranogwyr yn golygu nad yw'n ymarferol cynnal mwy nag un grŵp. Datgelodd y gwaith maes fod hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i hyfforddeion sydd â chymhwyster Safon Uwch yn y Gymraeg ac sydd yn aml wedi astudio rhan o'u gradd drwy gyfrwng y Gymraeg gymryd rhan yn yr un ddarpariaeth â'r rhai nad ydynt wedi astudio'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg ers TGAU. Yn wir, mewn un grŵp ffocws i hyfforddeion, eglurodd un cyfranogwr ei fod yn bwriadu addysgu Cymraeg fel ail bwnc gan gwestiynu a oedd angen iddo gymryd rhan yn y sesiynau gloywi iaith wythnosol o gwbl. Yn ystod ymweliad ag ysgol, mae profiad athrawes newydd yn egluro'r pwynt hwn ymhellach:

Roedd Athrawes B yn ystyried ei hun yn hollol rugl yn y Gymraeg gan ei bod yn dod o aelwyd Gymraeg, wedi astudio mewn ysgol ddwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi ennill gradd ar y cyd mewn Cymraeg a Hanes (gan astudio'r rhan fwyaf o'r modiwlau Hanes drwy gyfrwng y Gymraeg). Ar hyn o bryd roedd hi'n addysgu mewn ysgol uwchradd ddwyieithog (Math A) drwy gyfrwng y Gymraeg. Er gwaethaf hyn, cymerodd ran ochr yn ochr â hyfforddeion eraill yn y

sesiynau gloywi iaith fel rhan o'i chwrs TAR cyfrwng Cymraeg a disgrifiodd y profiad fel un 'di-fudd a phoenus'. Ychwanegodd fod y cwrs wedi tanseilio ei hyder yn ei galluoedd yn y Gymraeg ac nid oedd yr unigolyn yn credu bod ei sgiliau iaith wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan yn y sesiynau. Fodd bynnag, roedd yr unigolyn yn cydnabod bod y ffocws ar sut i fodelu iaith i ddisgyblion yn agwedd ddefnyddiol ar y ddarpariaeth.

- 7.28 Un wrthddadl a gynigiwyd gan ddarparwyr AGA am beidio â gwahaniaethu rhwng hyfforddeion oedd ei bod yn fanteisiol cynnal sesiynau iaith gallu cymysg gan fod y rhai gwannach yn elwa'n fawr o gymryd rhan mewn sgysiau Cymraeg a bod hyn yn eu paratoi ar gyfer lleoliadau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yr oeddent ar fin ymweld â hwy.
- 7.29 Wrth fyfyrion ar eu profiad o AGA, byddai'r athrawon presennol a gyfwelwyd wedi gwerthfawrogi dull mwy unigoledig o ddatblygiad eu sgiliau Cymraeg, yn enwedig o gofio bod eu sgiliau wedi'u hasesu i ddechrau ond heb eu defnyddio fel sail i'r ddarpariaeth:
- 'bydden i wedi hoffi adnabod fy ngwendidau a taclo nhw'.

Profiad Dysgu Mewn Ysgolion

- 7.30 Dywedodd y rhan fwyaf o staff ysgolion uwchradd a gyfrannodd at yr astudiaeth hon wrthym y bu lleihad yn nifer yr hyfforddeion AGA ar brofiad dysgu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a phriodolwyd hyn i leihad yn nifer yr hyfforddeion sy'n dilyn cwrs AGA cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol. Nid oedd yn anghyffredin clywed bod nifer yr hyfforddeion fesul blwyddyn wedi lleihau o tua phedwar neu bump y flwyddyn i ddau neu dri erbyn hyn. Felly, roedd yn syndod clywed bod darparwyr sy'n gweithredu ar draws y de-ddwyrain yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i nifer ddigonol o gyfleoedd profiad dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu hyfforddeion uwchradd.
- 7.31 Mewn gwrthgyferbyniad â hynny o bosibl mae profiad dwy ysgol gynradd yn y de-orllewin sydd wedi'u dynodi'n 'ysgolion arweiniol' ar gyfer darpariaeth AGA mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'r ysgolion hyn yn

cymryd rhan mewn cynllun peilot i ddarparu cyfleoedd profiad dysgu i lawer mwy o fyfyrwyr nag a wnaed yn y gorffennol. Caiff yr ysgolion hyn daliadau ariannol ar gyfer yr hyfforddeion TAR a BA ychwanegol sy'n mynd yno ar brofiad dysgu yn ystod y flwyddyn. Er y croesewir y dull newydd sy'n cael ei dreialu, nid yw'r broses o'i gyflwyno wedi bod yn gwbl ddiidrafferth, a hynny'n bennaf oherwydd yr ansicrwydd ynghylch strwythur y cynllun peilot a lefel y cymorth y mae'n ofynnol i ysgolion unigol ymrwymo iddo. Fodd bynnag, roedd y ddwy ysgol o'r farn ei fod yn gam cadarnhaol ymlaen i'r sector.

- 7.32 Pan gynhaliwyd y gwaith maes, roedd hyfforddeion TAR cyfrwng Cymraeg uwchradd a chynradd a gyfrannodd at y grwpiau ffocws wedi cael un profiad dysgu mewn ysgol ac roedd y rhan fwyaf wedi cael profiad dysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Nodwyd rhai eithriadau ar draws CAAGCC lle roedd hyfforddeion yn teimlo'n llai hyderus ynghylch addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gofyn am brofiad dysgu cyntaf mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac yna ail brofiad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- 7.33 Dywedodd y cynrychiolwyr ysgol y gallai fod yn her iddynt gynllunio a darparu ar gyfer hyfforddeion gan nad ydynt bob amser yn cael syniad clir ar ddechrau'r flwyddyn academaidd o ran faint o hyfforddeion y gallant ddisgwyl eu derbyn ar brofiad dysgu. Mae hyn yn aml yn creu anawsterau i ysgolion o ran amserlennu (e.e. i ryddhau mentoriaid pwnc ac iaith ar gyfer y nifer ofynnol o wersi er mwyn cefnogi hyfforddeion yn eu hysgolion). Yn ogystal, mae ysgolion yn aml yn cydweithio â dau neu fwy o ddarparwyr AGA ac mae hyn yn creu anawsterau logistaidd, yn enwedig oherwydd bod yr hyfforddeion yn cael eu rhyddhau ar gyfer profiad dysgu ar wahanol adegau e.e. bydd un darparwr AGA yn rhyddhau'r hyfforddai am bedwar diwrnod yr wythnos tra bydd hyfforddeion eraill yn cael eu rhyddhau am bum niwrnod yr wythnos, ond am gyfnod byrrach:
- 'Y poen mwyaf yw'r ffaith ein bod yn gorfod delio gyda gwahanol golegau sydd â gwahanol gweithdrefnau a threfniadau gwahanol.'
- 7.34 Dywedodd ysgolion fod gan hyfforddeion sy'n dod atynt ar brofiad dysgu allu cymysg yn y Gymraeg ac nad oedd yn anghyffredin i sgiliau llafar yr hyfforddeion fod yn well na'u sgiliau ysgrifenedig. Amlygodd nifer o fentoriaid pwnc ac iaith

wendidau fel treigladau gwael a diffyg dealltwriaeth gyffredinol o reolau gramadeg. O ran y wybodaeth a dderbyniwyd am bob hyfforddai, dywedodd y cynrychiolwyr ysgol eu bod yn cael llai o fanylion am hyfforddai sydd ar ei brofiad dysgu cyntaf gyda hwy (mae ysgolion sy'n cael hyfforddai ar ei ail brofiad dysgu yn elwa o gael asesiad iaith ysgol gyntaf yr hyfforddai hwnnw). Er bod pob ysgol yn cael gwybodaeth am y radd a gafodd yr hyfforddai yn ei asesiad cychwynnol, dadleuwyd y byddent yn croesawu rhagor o fanylion e.e. yr agweddau ar eu hiaith y mae angen cymorth arnynt i'w gwella.

- 7.35 Roedd pob un o'r cyfranwyr yn ystyried bod y cyfnodau profiad dysgu mewn ysgolion yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu a gwella sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg hyfforddeion a'u hannog i chwilio am waith yn y sector cyfrwng Cymraeg ar ôl cwblhau eu cwrs. Nodwyd bod yr amser a dreulir ar brofiad dysgu yn llawer hwy na'u hamser yn y brifysgol ac maent yn aml yn cael eu 'trochi' mewn amgylchedd Cymraeg tra byddant yn yr ysgol. Roedd hyfforddeion yn ogystal ag athrawon presennol yn ystyried mai cael profiad ymarferol o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ystafelloedd dosbarth yw'r ffordd orau o ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dadleuodd cynrychiolwyr ysgol (cydlynwyr a mentoriaid) mewn un ysgol uwchradd ddwyieithog fod y cymorth ieithyddol 'anffurfiol' a ddarperir gan yr ysgol yn amhrisiadwy o ran helpu hyfforddeion i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae pwysigrwydd siarad Cymraeg yn yr ystafell athrawon, mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd staff Cymraeg yn gyfle i 'drochi' hyfforddeion (ac yn wir unrhyw athrawon newydd) mewn diwylliant Cymraeg.

- 7.36 Er bod yr hyfforddeion ac athrawon newydd yn ystyried bod profiad dysgu mewn ysgolion yn hanfodol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac addysgeg, cydnabuwyd bod ansawdd y profiad yn amrywio o un ysgol i'r llall.
- 7.37 Yn yr un modd, awgrymodd yr hyfforddeion fod y rôl a chwaraeir gan fentoriaid iaith yn bwysig iawn o ran eu helpu i wella eu sgiliau, eu terminoleg a'u gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd hyfforddeion fod modd iddynt gael cymorth gan eu mentor iaith am awr yr wythnos naill ai yn unigol neu ar y cyd os oedd mwy

nag un hyfforddai ar brofiad dysgu yn yr un ysgol. Fodd bynnag, canfuwyd bod y cymorth a ddarparwyd yn amrywio o un ysgol i'r llall a chafodd hyn ei ategu gan rai rhanddeiliaid. Dywedodd mentoriaid iaith fod agweddau hyfforddeion tuag at y sesiynau hyn yn amrywio, gyda rhai yn fwy parod i gymryd rhan ynddynt nag eraill. Tynnodd rhai mentoriaid hefyd sylw at anawsterau mentora nifer fwy o hyfforddeion, yn enwedig pan oedd lefelau sgiliau iaith a'u hanghenion cymorth yn wahanol.

7.38 O ran arfer da, nodwyd rhai enghreifftiau lle mae ysgolion yn cydweithio i gynorthwyo hyfforddeion ar brofiad dysgu a bod hyn yn cael ei ystyried yn effeithiol iawn. Mewn un achos, esboniodd cynrychiolydd ysgol eu bod yn darparu cymorth mentora iaith ar y cyd i'w hyfforddeion tra mewn ardal arall roedd grŵp o chwe ysgol uwchradd yn cymryd eu tro i gynnal a hyfforddi'r holl hyfforddeion, gan gynnwys hyfforddiant mewn addysgeg cyfrwng Cymraeg.

7.39 Yn gyffredinol, dywedodd yr hyfforddeion fod mentoriaid iaith fel arfer yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o:

- adolygu adnoddau addysgu a thaflenni gwaith a gynhyrchwyd yn Gymraeg er i ambell fentor iaith nodi y gall hyfforddeion fod yn amharod i ofyn am adolygiad o'u hadnoddau, gan y byddai'n ofynnol iddynt gynhyrchu'r deunyddiau ymlaen llaw ac roedd eu llwyth gwaith yn golygu mai anaml y byddai hyn yn bosibl
- arsylwi eu gwersi a nodi'r defnydd amhriodol o dermau Saesneg yn eu haddysgu megis 'so' a 'really' a chynnig cyngor ar fodelu iaith a mynd i'r afael â gramadeg gwael e.e. treigladau, sillafu
- eu cynghori ar sut i drochi eu disgyblion yn y Gymraeg yn ystod gwersi ac asesu llythrennedd yn y Gymraeg.

7.40 Roedd yn nodedig bod yr hyfforddai nad oedd yn dilyn cwrs cyfrwng Cymraeg a gyfrannodd at drafodaeth y grŵp ffocws wedi cael cynnig cyfle i addysgu rhai gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg tra roedd ar brofiad dysgu ond nid oedd mentor iaith ar gael iddo yn yr ysgol. Roedd yr hyfforddai hwn yn credu y byddai wedi gallu elwa ar drefniant o'r fath er gwaetha'r ffaith nad oedd yn rhan o fenter y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg.

- 7.41 O ran y canllawiau a gyhoeddwyd gan Brifysgol Aberystwyth i fentoriaid iaith, teimlwyd yn gyffredinol bod y rhain wedi gwella dros amser ac erbyn hyn mae dull asesu manwl a llym ar waith. Mae hyn yn galluogi prifysgolion i adnabod hyfforddeion gwan ac ymateb yn gyflym er mwyn mynd i'r afael â'r problemau, gan dargedu cymorth ychwanegol lle mae ei angen fwyaf. Mewn un achos, nododd mentor iaith fod hyfforddai gwan wedi cael ei asesu dair gwaith yn fwy na hyfforddeion eraill a hynny'n rhannol oherwydd bod gwendidau iaith wedi'u canfod yn y ffurflenni asesu.
- 7.42 Cwestiynodd nifer o gynrychiolwyr ysgol, gan gynnwys athrawon newydd, a yw hyfforddeion TAR uwchradd yn cael digon o amser addysgu tra byddant ar brofiad dysgu ac roedd y pwynt hwn yr un mor berthnasol i hyfforddeion a oedd yn dilyn y llwybr cyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r llwybr cyfrwng Saesneg. Nodwyd y disgwylir i hyfforddeion TAR uwchradd addysgu rhwng 40 a 60 y cant o lwyth gwaith addysgu llawn tra roeddent ar brofiad dysgu o'u cymharu â BA cynradd dan hyfforddiant a all ddisgwyl addysgu rhwng 50 a 70 y cant o'u hamser.

8. Mentrau ychwanegol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon a Chynllun Colegau Cymru

- 8.1 Mae'r bennod hon yn trafod y mentrau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg sydd ar gael ar draws darpariaeth AGA, sef y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon a Chynllun Colegau Cymru.

Y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

- 8.2 Datgelodd y gwaith maes fod y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg bellach yn gynllun sydd wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei gydnabod yn eang ar draws y sector uwchradd. Cydnabu nifer o gynrychiolwyr ysgol, staff darparwyr AGA a rhanddeiliaid fod y cynllun wedi esblygu dros amser ac roeddent yn gwerthfawrogi manteision cael un dull cenedlaethol o godi safonau ar draws darpariaeth AGA uwchradd.
- 8.3 Fodd bynnag, roedd un o'r prif faterion a godwyd gan gynrychiolwyr rhanddeiliaid a chynrychiolwyr ysgol yn ymwneud â'r ffaith bod cylch gwaith y cynllun wedi'i gyfyngu i hyfforddeion a oedd yn dilyn y llwybr TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg i addysgu. Cododd nifer o gyfranwyr gwestiynau ynghylch a oedd hyn yn deg i hyfforddeion, gan awgrymu yn hytrach y byddai pob hyfforddai AGA yn elwa o allu cael hyfforddiant sgiliau Cymraeg tebyg yn y brifysgol a chymorth gan fentor iaith tra roedd ar brofiad dysgu a lle yr oeddent yn gwneud hynny, dylid cynnig cymhelliad ac ad-daliad ariannol iddynt yn yr un modd, waeth beth fo'u llwybr i'r sector addysg. Nododd un ysgol o'r fath (ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed):
- 'Mae'r Cynllun Gwella gyda nhw yn yr uwchradd ond does dim byd cyfatebol i'r cynradd. Fel ysgol ganol, mae'r diffyg cysondeb hwn yn sefyll allan yn fwy amlwg. Rwy'n meddwl y byddai cael cysondeb yn fuddiol.'
- 8.4 Yn yr un modd, dywedodd rhai hyfforddeion fod eu cymheiriaid ar y cwrs AGA cyfrwng Saesneg wedi cwestiynu'n gyson y sail resymegol dros dargedu'r cynllun at siaradwyr Cymraeg yn unig:

'pam 'da chi'n cael gwersi Cymraeg, da chi'n medru siarad yr iaith? Da ni eu hangen nhw'.

- 8.5 Nodwyd er enghraifft bod hyfforddeion cynradd sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Colegau Cymru yn ogystal â hyfforddeion cyfrwng Cymraeg eraill yn y sector cynradd eisoes wedi ymgymryd â hyfforddiant sgiliau Cymraeg fel rhan o'u cwrs ond eto nid oeddent yn cael ad-daliad ariannol am wneud hynny. Awgrymwyd y gallai cymhelliad ariannol i'r sector cynradd helpu i annog mwy o hyfforddeion i ddilyn eu cwrs AGA drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gyffredinol, byddai ymgynghoreion yn croesawu mwy o gydraddoldeb ar draws y ddarpariaeth AGA - o ran y cymorth a gynigir yn ogystal â'r cymhelliad ariannol a ddarperir.
- 8.6 Mynegodd nifer bach o gyfranwyr bryder bod y gofynion ychwanegol sylweddol a osodir ar gyfranogwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn anghyfiawn ac yn atal unigolion rhag mynd ar drywydd gyrfa yn y sector cyfrwng Cymraeg.
- 8.7 At hynny, o ran sail resymegol y cynllun, cwestiynodd ambell gyfrannwr y rhesymeg dros eithrio hyfforddeion a oedd yn bwriadu addysgu Cymraeg fel pwnc uwchradd (gan dderbyn wrth gwrs na fyddai arnynt angen y cymorth sgiliau Cymraeg a gynigir) gan y teimlwyd y dylai'r cymhelliad ariannol ychwanegol sydd ar gael drwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg fod ar gael i unrhyw unigolyn a oedd yn ystyried gyrfa addysgu yn y sector cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Gan dderbyn wrth gwrs bod hyfforddeion cwrs TAR uwchradd Cymraeg fel pwnc a chanddynt naill ai radd dosbarth 1^{af}, PhD neu Radd Meistr yn gallu bod yn gymwys i gael bwrsariaeth o £20,000, y rhai â 2:1 yn gymwys i gael bwrsariaeth o £10,000 a rhai â 2: 2 yn gymwys i gael bwrsariaeth o £6,000.

Gweinyddu'r cynllun

- 8.8 At ei gilydd, roedd y cyfranwyr o'r farn bod sawl agwedd ar y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, megis gwneud taliadau i hyfforddeion, yn cael ei weinyddu'n effeithlon gan Brifysgol Aberystwyth a mynegodd mentoriaid iaith farn gadarnhaol am yr hyfforddiant a'r arweiniad a gawsant.

- 8.9 Roedd hyfforddeion ac athrawon newydd fel ei gilydd yn credu bod y gofynion arnynt o ran llwyth gwaith fel cyfranogwr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn sylweddol a dywedodd nifer o gynrychiolwyr ysgol bod y gofynion ar hyfforddeion wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r cynllun gael ei gyflwyno gyntaf, a bod y disgwyliadau presennol bellach yn cael eu hystyried yn 'rhy eithafol' .
- 8.10 O safbwynt hyfforddeion ac athrawon newydd, ymddengys y gall y cynllun fod yn anhyblyg gan nad yw'n ystyried unrhyw derfynau amser ar gyfer cyflwyno aseiniadau AGA (sydd wrth gwrs yn amrywio o un darparwr AGA i'r llall). Roedd hyfforddeion ac athrawon newydd fel ei gilydd hefyd yn cwyno am ddull 'hynafol' y cynllun gan fod angen iddynt argraffu a phostio eu haseiniadau iaith yn uniongyrchol i Brifysgol Aberystwyth.

Cymhelliad ariannol

- 8.11 Roedd yn werth nodi cyn lleied o hyfforddeion ac athrawon newydd a oedd yn ymwybodol o'r cymhelliad ariannol pan oeddent yn gwneud cais neu'n dechrau ar eu cwrs, gan awgrymu nad oedd ei argaeledd yn effeithio ar eu penderfyniad i gofrestru ar gwrs AGA cyfrwng Cymraeg. Dywedodd un hyfforddai TAR cyfrwng Cymraeg presennol:
- 'Do'n i ddim yn gwybod am yr arian ychwanegol nes bod rhywun yma yn gofyn i fi am fy manylion banc so oedd e jyst yn syrpreis bach neis'.
- 8.12 Thema gyffredin a drafodwyd yn y grwpiau ffocws gyda hyfforddeion oedd diffyg unrhyw wybodaeth gyhoeddus am y cymhelliad ariannol, yn wahanol i gymhellion ariannol eraill sy'n gysylltiedig â chyrsgiau hyfforddi athrawon.
- 8.13 Yn y mwyafrif o achosion lle roedd hyfforddeion ac athrawon newydd wedi dod yn ymwybodol o'r cymhelliad (yn nodweddiadol yn ystod eu cyfweliad â'r darparwr AGA), ystyriwyd nad oedd y cymhelliad ariannol ychwanegol wedi bod yn ystyriaeth o bwys yn eu penderfyniad i ddewis y llwybr cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, ynghyd â'r cymorth ychwanegol a addawyd gan ddarparwyr AGA, roedd hyn yn hanfodol bwysig i lond llaw o'r rhai a gyfwelwyd a gafodd eu perswadio i newid eu hiaith astudio naill ai yn ystod eu cyfweliad neu yn ystod ychydig wythnosau cyntaf

eu cwrs. Yn nodweddiadol, roedd y rhain yn hyfforddeion a oedd yn llai hyderus o ran eu sgiliau Cymraeg eu hunain.

- 8.14 Dadleuodd y rhan fwyaf o hyfforddeion ac athrawon newydd y byddent wedi penderfynu dilyn eu cwrs TAR uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg beth bynnag a bod y cymhelliad ariannol yn aml yn cael ei ystyried fel bonws i'w groesawu.
- 8.15 Datgelodd y gwaith maes fod gan y cymhelliad ariannol rôl fwy i'w chwarae wrth sicrhau bod yr hyfforddeion yn parhau â'u cwrs cyfrwng Cymraeg gan i nifer o gyfranwyr ddadlau ei fod yn gwneud iawn am y gwaith sylweddol, ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Yn wir, cyfaddefodd nifer o hyfforddeion na fyddent o bosibl wedi parhau â'r sesiynau gloywi iaith yn absenoldeb cymorth ariannol ar ôl iddynt sylweddoli nad oeddent yn rhan orfodol o'r cwrs:
- 'sele dim arian bydde ni ddim wedi parhau [gyda'r sesiynau iaith]'.
- 8.16 Ychydig iawn o dystiolaeth uniongyrchol a gasglwyd yn ystod y gwaith maes i awgrymu bod y cymhelliad ariannol yn denu hyfforddeion amhriodol i ddilyn cwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg (yn hytrach na chwrs AGA arall) ond myfyriodd llawer o gyfranwyr ar dystiolaeth anecdotaidd y gallai hyn ddigwydd. Ystyriwyd mai'r prif bosibilrwydd yw y byddai myfyrwyr yn cofrestru ar gwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn manteisio ar y cymhelliad ariannol ond eu bod yn bwriadu addysgu yn y sector cynradd. Eto, o ystyried cyn lleied oedd yr ymwybyddiaeth o hyn ymhlith darpar hyfforddeion, rydym o'r farn y byddai hyn yn annhebygol iawn. At hynny, datgelodd y grwpiau ffocws gyda hyfforddeion a oedd yn dilyn cwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg awydd cryf iawn i gael swydd addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector uwchradd.

Cyrsiau undydd

- 8.17 Mae'n ofynnol i gyfranogwyr y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg fynychu dau gwrs dydd Sadwrn yn Aberystwyth er mwyn bod yn gymwys i gael rhan o'u cymhelliad ariannol. Roedd gan yr hyfforddeion a fynychodd drafodaethau grŵp ffocws ac athrawon newydd farn gymysg am y digwyddiadau hyn. Gan fyfyrion ar gynnwys y ddarpariaeth eleni, dywedodd yr hyfforddeion fod y sesiynau wedi bod yn ddefnyddiol o ran datblygu eu dealltwriaeth o addysgeg cyfrwng Cymraeg ac

arferion da y gallent eu haddasu i'w haddysgu yn eu pwnc eu hunain. Yn gyffredinol, roedd yr hyfforddeion o'r farn bod yr ail sesiwn wedi bod yn fwy buddiol na'r cyntaf, yn bennaf oherwydd ystyriwyd bod y cynnwys yn fwy defnyddiol a pherthnasol iddynt ac roedd llai o ddyblygu gyda'r hyn yr oeddent eisoes wedi'i ddysgu yn ystod sesiynau gloywi iaith yn eu Canolfannau. Yn ôl un hyfforddai o'r fath:

'roedd yr ail [gwrs undydd] yn llawer gwell na'r cyntaf... roedd yn dangos i ni sut i gyflwyno llythrennedd yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y cyntaf yn mynd yn ôl dros beth roedden ni eisoes wedi'i wneud yn y brifysgol.'

- 8.18 Gwnaed cryn dipyn o sylwadau am logisteg y cyrsiau hyn. Roedd prif bryderon yr hyfforddeion yn ymwneud â gorfod eu mynychu ar ddydd Sadwrn a gorfod teithio i Aberystwyth. Roedd gan nifer llai bryderon ynghylch eu hamseriad o gofio bod y cwrs cyntaf yn digwydd yn ystod profiad dysgu cyntaf yr hyfforddeion (SEWCTET) ac yn hyn o beth, nid oedd yr amseru'n ddelfrydol.
- 8.19 Ar lefel ehangach, dadleuodd hyfforddeion (yn enwedig y rhai nad oeddent yn cael cyfle i drafod eu pwnc yn Gymraeg gyda'u darparwr AGA) y byddent wedi croesawu darpariaeth a oedd yn fwy penodol ar gyfer y pwnc o'u dewis. Galwyd hefyd am ddarparu adnoddau a deunyddiau i hyfforddeion drwy ddulliau eraill (e.e. dulliau ar-lein) er mwyn lleihau'r angen i deithio i ddau ddigwyddiad. Fodd bynnag, byddai hyn yn lleihau'r cyfleoedd i hyfforddeion ymgysylltu â myfyrwyr eraill, yn enwedig y rhai â'r un arbenigedd pwnc, ac amlygwyd bod yr elfen hon yn werthfawr i lawer o hyfforddeion.

Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon

- 8.20 Un o negeseuon allweddol y gwaith maes oedd cyn lleied o ymwybyddiaeth a oedd gan gynrychiolwyr ysgol o'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon. Yn ddealladwy efallai, o ystyried y ffaith mai yn gymharol ddiweddar y cyflwynwyd y Dystysgrif, nid oedd y rhan fwyaf o staff uwch a mentoriaid pwnc yn ymwybodol ohoni. Ychydig iawn o ystyriaeth, os o gwbl, a roddir iddi wrth recriwtio a phenodi staff newydd, a hynny'n bennaf gan na fydd unrhyw unigolyn a benodir fel hyfforddai AGA wedi cael

cyfle i ennill y cymhwyster ar yr adeg honno. Yn hytrach, roedd cynrychiolwyr ysgol yn ffafrio dulliau traddodiadol megis ffurflenni cais, arsylwi gwers a chyfweliadau fel modd o asesu sgiliau Cymraeg ymgeiswyr.

- 8.21 Credai'r rhan fwyaf o gyfranwyr, pe bai'n parhau, y dylai'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith sicrhau bod ganddi broffil gwell ar draws y sector addysg ac y dylai Llywodraeth Cymru, Canolfannau AGA a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wneud mwy i hyrwyddo'r cymhwyster i ysgolion.
- 8.22 Roedd nifer bach o'r athrawon newydd a gafodd eu cyfweld wedi ennill y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith ac er eu bod wedi bod yn falch eu bod wedi llwyddo, codwyd cwestiynau ynghylch gwerth y Dystysgrif gan nad oedd 'neb erioed wedi holi amdani'.
- 8.23 Roedd yr hyfforddeion a gyfrannodd at drafodaethau'r grwpiau ffocws yn ymwybodol y byddai'n ofynnol iddynt sefyll arholiad ar ddiwedd eu cwrs er mwyn ennill y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddeion ar gyrsiau uwchradd TAR cyfrwng Cymraeg yn ogystal â rhai hyfforddeion cynradd. Yn gyffredinol, nid oedd gan bobl fawr o awydd cael proses arholi i ddilysu eu sgiliau Cymraeg. Roedd y rhan fwyaf o hyfforddeion o'r farn y byddai ennill y cymhwyster yn ddefnyddiol o ran gwella eu CV ond roedd nifer yn cwestiynu ei werth o ran sicrhau swydd fel athro, yn enwedig o ystyried y gallent sicrhau eu statws ANG beth bynnag fo canlyniad y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith. Yn wir, yn ôl adborth gan ddau hyfforddai yn ystod un ymweliad ag ysgol uwchradd:

Nid oedd yr un ohonynt wedi deall nad oedd y Dystysgrif yn rhan orfodol o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a dim ond ar ôl y Nadolig y cawsant wybod am hynny. Er gwaethaf y ffaith bod y ddau wedi dweud y byddent wedi ymgymryd â hi beth bynnag, roeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu camarwain gan eu darparwr. Roeddent hefyd yn dadlau bod y gwaith sy'n gysylltiedig â'r sesiynau iaith a'r Dystysgrif wedi bod yn llawer mwy na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol: roeddent ar ddeall y byddai'n 'gyfres o wersi ar foreau Llun i helpu i wella ein safonau iaith... ac o bosibl yn ddefnyddiol o ran y cwrs... ond doeddwn i ddim wedi sylweddoli byddai cymaint o waith ynghlwm â hi.'

- 8.24 Roedd llawer o randdeiliaid a chynrychiolwyr ysgol o'r farn ei bod yn amhriodol i hyfforddai allu cyflawni statws SAC ac eto fethu'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith, gan awgrymu yn hytrach y dylai'r Dystysgrif ddod yn rhan annatod o'r broses gymhwyso yn hytrach na 'rhywbeth ychwanegol, ar wahân'.
- 8.25 Roedd llawer o randdeiliaid a rhai cynrychiolwyr ysgol o'r farn y dylai ANG gael y cyfle i ailymgeisio am y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith er mwyn sicrhau gradd uwch ac mewn gwirionedd ei chynnwys yn rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ANG. Aeth rhai â'r cysyniad hwn ymhellach, gan awgrymu y gellid mabwysiadu'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith fel dull o raddio sgiliau Cymraeg pob athro ai gynnwys fel rhan o ofynion DPP ar gyfer pob athro. Dywedodd nifer o gyfranwyr, ar ôl i'r hyfforddeion gwblhau eu AGA a chyflawni eu statws ANG, nad oedd unrhyw gymorth neu hyfforddiant pellach ar gael iddynt o ran sgiliau Cymraeg ac nad oes cynllun hirdymor i sicrhau bod ymarferwyr yn parhau i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg.
- 8.26 Mynegwyd pryder hefyd gan sawl rhanddeiliad bod y Dystysgrif yn cael ei hystyried yn offeryn asesu iaith sydd ond yn addas i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Gwellu Cyfrwng Cymraeg. Tybiwyd y gallai hyfforddeion AGA eraill elwa ar ennill y cymhwyster yn yr un modd, yn enwedig o ystyried y cydweithio agos rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Aberystwyth wrth ddatblygu'r Dystysgrif. Er i'r gwaith maes ddatgelu bod hyfforddeion AGA eraill yn ymwneud â'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith awgrymwyd yn eang y gellid ei hymestyn i'r holl hyfforddeion AGA, ond wrth wneud hynny byddai angen ei haddasu i ystyried sgiliau ieithyddol y rhai sy'n dysgu'r Gymraeg a'r rhai sy'n llai rhugl.
- 8.27 Roedd llawer o'r cyfranwyr hyn hefyd o'r farn ei bod yn amhriodol i hyfforddai fethu proses arholi'r Dystysgrif a derbyn gradd 'anfoddhaol' ar y diwedd, gan fod hyn yn tanseilio ymhellach hyder yr hyfforddeion yn eu sgiliau iaith. Yn hyn o beth, galwodd sawl rhanddeiliad i'r Dystysgrif gael ei hadolygu a'i hehangu i fod yn offeryn y gellid ei ddefnyddio i asesu a graddio sgiliau ieithyddol ar draws continwmm gallu ehangach, o ddechreuwr pur i'r rhai'r sy'n hyfedr. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai'r gwaith hwn fod yn seiliedig ar waith presennol Llywodraeth Cymru ar ddatblygu model continwmm Cymraeg tra i eraill awgrymu y gellid modelu'r

Dystysgrif, yn absenoldeb model continwwm presennol, ar y lefelau cyrhaeddiad iaith presennol fel y'u nodir gan y sector Cymraeg i Oedolion.

- 8.28 Awgrymwyd hefyd gan rai rhanddeiliaid ac athrawon newydd y gellid dileu'r broses arholi sy'n gysylltiedig â'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith ac asesu sgiliau iaith pob hyfforddai AGA drwy un broses asesu. Dywedodd un cyfrannwr o'r fath:

'Mae just angen un asesiad sy'n rhoi lefel hyfedredd ieithyddol i BOB myfyriwr. Does dim angen iddo fod yn dystysgrif. Does dim angen i neb sefyll arholiad'.

Cynllun Colegau Cymru

- 8.29 Ychydig iawn o randdeiliaid a chynrychiolwyr ysgol oedd mewn sefyllfa i roi sylwadau ar Gynllun Colegau Cymru yn bennaf oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion hyfforddeion a oedd yn bwriadu addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg nad oeddent wedi'u cynnwys yn y sampl gwerthuso. Lle roeddent yn ymwybodol o'r cynllun, roedd natur eu sylwadau yn strategol. Awgrymwyd bod Cynllun Colegau Cymru wedi'i ynysu braidd o ymyriadau eraill megis y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith a byddai cyfranwyr yn croesawu cyfatebiaeth agosach a gwell integreiddio gyda'r dulliau hyn.

9. I ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion hyfforddeion ac ysgolion

- 9.1 Mae'r bennod hon yn ystyried i ba raddau y mae darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg yn diwallu anghenion hyfforddeion, athrawon newydd ac ysgolion.

Hyfforddeion

- 9.2 Roedd bron pob un o'r hyfforddeion a gymerodd ran yn y trafodaethau grŵp ffocws yn meddwl bod eu sgiliau Cymraeg yn gwella tra roeddent ar eu cwrs AGA cyfrwng Cymraeg. Roedd eraill yn credu bod y cwrs, a'r sesiynau gloywi iaith yn arbennig, wedi rhoi sicrwydd iddynt bod eu hiaith yn dderbyniol ac yn gywir.

- 9.3 Roedd y mathau o welliannau a nodwyd gan hyfforddeion yn cynnwys mwy o ddealltwriaeth o reolau gramadegol, gwell gallu i fodelu iaith dda yn yr ystafell ddosbarth, ymglyfarwyddo'n well â therminoleg pwnc, adnabod camgymeriadau iaith cyffredin (yn eu gwaith eu hunain yn ogystal â gwaith y disgyblion) a mwy o hyder i gywiro gwallau ieithyddol yng ngwaith disgyblion. Ymhlith y sylwadau a wnaed oedd:

'mae fy Nghymraeg wedi gwella ers i mi ddechrau ar y cwrs'

'dwi'n meddwl bod hyder rhywun yn gwella pan fyddwch chi'n mynd nôl i'r ysgol... rydych chi'n defnyddio eich Cymraeg drwy'r amser'.

- 9.4 Roedd hyfforddeion yn aml yn meddwl bod y gwelliannau hyn wedi deillio o gyfuniad o wahanol elfennau AGA, yn fwyaf arbennig y sesiynau gloywi iaith a'u profiad dysgu mewn ysgolion, ac roedd yn anodd iddynt nodi pa rai oedd fwyaf dylanwadol.

- 9.5 Nododd sawl hyfforddai newid yn lefel eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg ac roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith hyfforddeion a oedd wedi cael eu haddysg uwch drwy gyfrwng y Saesneg. Nododd un cyfrannwr o'r fath:

'Dwi'n hyderus yn y Gymraeg nawr. Pan o'n i'n rhoi cais i fewn, o'n i mor bryderus doedd fy Nghymraeg ddim yn ddigon da.'

- 9.6 Soniodd yr hyfforddeion yn aml fod y sesiynau gloywi iaith wedi eu helpu i ddeall rheolau treiglo:
- ‘dwi’n dallt pam fod fi’n treiglo rŵan ... mae o fath a sa rhywun yn agor drws i chdi ... i fi oedd o jest fath a “wow”!’
- 9.7 Roedd nifer fach o hyfforddeion o grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn dau sefydliad yn fwy gochelgar ynghylch y sesiynau gloywi iaith gan ddweud, er eu bod wedi gwella eu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg, bod y dull a fabwysiadwyd wedi eu dieithrio a thanseilio eu hyder o ran defnyddio'r iaith. Nododd ambell gyfrannwr bod:
- angen i'r dull symud i ffwrdd o 'ramio fo i lawr corn gyddfa pobl nes eu bod nhw ofn agor eu cega'
- a bod y tiwtor yn 'swta iawn ac yn ddi-flewyn-ar dafod...nid bod [y tiwtor] yn ein trin ni fel plant ond yn llai fel oedolion'.
- 9.8 Cyflwynodd yr hyfforddeion ddarlun mwy cymysg ynghylch y graddau yr oeddent yn credu bod y ddarpariaeth yn y brifysgol yn eu paratoi'n ddigonol gydag addysgeg briodol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg - roedd y rhai a oedd yn ymgymryd â chyfran uwch o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn teimlo bod ganddynt well gafael ar derminoleg eu pwnc cyn eu profiad dysgu cyntaf o gymharu â'r rhai nad oedd modd iddynt gael mynediad at unrhyw gymorth pwnc yn y Gymraeg.
- 9.9 Neges ddiddorol a gyflëwyd gan hyfforddeion uwchradd mewn un grŵp ffocws oedd nad oeddent yn teimlo bod y cwrs AGA wedi eu paratoi i ddeall yn ddigonol y cyddestun yr oedd ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gweithredu ynddo. Gan fyfyrion ar eu profiadau dysgu, roeddent yn teimlo y gallent fod wedi cael eu paratoi'n well i gyflwyno gwersi a oedd yn gofyn am derminoleg a mewnbwn Cymraeg a Saesneg, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall y wers. Yn yr un modd, cyflwynwyd dadl debyg gan gynrychiolwyr ysgol ynghylch yr angen i baratoi hyfforddeion yn well i 'drochi' disgyblion yn y Gymraeg, er mwyn darparu ar gyfer dysgwyr Cymraeg o fewn gwers cyfrwng Cymraeg.

Athrawon newydd

- 9.10 Yn yr un modd, dywedodd y rhan fwyaf o athrawon newydd a oedd wedi cymryd rhan mewn darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg fod eu sgiliau Cymraeg wedi gwella tra roeddent ar y cwrs. Ystyriwyd bod agweddau ar y sesiynau gloywi iaith wedi bod yn ddefnyddiol iawn i athrawon a oedd mewn swydd:
- ‘o edrych yn ôl, mae'r gwaith wnaethon ni ar gywiro gramadeg wedi bod yn ddefnyddiol iawn i mi wrth farcio gwaith’.
- 9.11 Dywedodd athro a fu'n dysgu am ddwy flynedd fod y sesiynau gloywi iaith:
- ‘yn ddefnyddiol iawn – o safbwynt gwella sgiliau Cymraeg ond hefyd o ran rhannu profiadau gyda myfyrwyr eraill. Roedd rhai yn yr un sefyllfa â fi – hynny yw, heb fod wedi defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd neu'n broffesiynol ers amser, felly roedd hyn yn gysur mewn ffordd.’
- 9.12 Nid oedd yn anghyffredin clywed gan athrawon newydd nad oedd cymorth iaith ffurfiol 'dilynol' ar gael iddynt ers cwblhau eu cwrs AGA. Yn hytrach, mae ysgolion yn cynnig cymorth mentora i athrawon newydd ar draws ystod eang o agweddau yn unol â'u hanghenion. Credwyd bod dwy o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â hwy yn cynnig cymorth iaith da iawn: roedd un yn gweithredu ei 'Chynllun Gwella'r Gymraeg' ei hun a oedd (ymysg elfennau eraill) yn darparu tasgau ar-lein i athrawon a oedd wedyn yn cael eu marcio gan staff yn adran Gymraeg. Roedd nifer o ysgolion uwchradd hefyd yn cynnig cymorth i athrawon gan gydweithwyr pe baent yn dymuno prawffddarllen unrhyw un o'u hadnoddau addysgu.
- 9.13 Roedd rhanddeiliaid a rhai cynrychiolwyr ysgol hefyd dan yr argraff nad oes darpariaeth bellach ar gael i alluogi athrawon i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar ôl i hyfforddeion gwblhau eu AGA. Er y cydnabuwyd bod Safonau Proffesiynol yn cael eu cyflwyno ac y dylai'r rhain, mewn egwyddor, fynd i'r afael â'r mater hwn, roedd rhai rhanddeiliaid ac, yn wir, darparwyr AGA yn cwestiynu a yw'r gofynion o ran y Gymraeg yn rhy generig ac na fyddant yn cymell dysgu a datblygiad parhaus:
- ‘Dylai bod y myfyrwyr yn cael mwy o gynhaliaeth nag un sesiwn yr wythnos am flwyddyn yn unig. Mae angen parhau i ddatblygu eu sgiliau.’

- 9.14 Athrawon ysgolion cynradd oedd y lleiaf tebygol o allu manteisio ar unrhyw gymorth yn yr ysgol:

Dywedodd dau athro mewn un ysgol gynradd a gyfrannodd at yr ymchwil y byddent yn croesawu cwrs gloywi neu wella iaith ar ôl bod yn y swydd am ychydig flynyddoedd. Ar ôl ymchwilio i'r cyfleoedd i wneud hynny, nid oeddent yn gallu dod o hyd i gwrs Cymraeg i Oedolion yn lleol ar y lefel gywir. Dywedodd un 'bydden i yn mynd ar unrhyw gwrs Cymraeg os byddai ar gael yn weddol leol'.

- 9.15 Un o'r prif heriau a godwyd gan athrawon uwchradd newydd oedd dwysedd y ddarpariaeth AGA ac, er nad oedd hwn yn fater penodol yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, credwyd bod y sesiynau gloywi iaith ychwanegol a'r angen i baratoi ar gyfer y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith yn ychwanegu at y llwyth gwaith yn ddiangen. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn awgrymodd nifer o athrawon newydd 'uno' neu 'wella cysondeb' y cwrs TAR a'r Cynllun Gwellu Cyfrwng Cymraeg. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, defnyddio'r aseiniadau neu'r cynlluniau addysgu a gynhyrchwyd ar gyfer y cwrs TAR fel sail ar gyfer asesu cyrhaeddiad y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith yn hytrach na hyfforddeion yn gorfod cynhyrchu deunyddiau ychwanegol yn unswydd at ddibenion cyflawni'r Dystysgrif.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

- 9.16 Datgelodd y gwaith maes fod ysgolion uwchradd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon â sgiliau Cymraeg priodol i allu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai pynciau. Y pynciau y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd Gwyddoniaeth a Saesneg. Mae'n ymddangos bod recriwtio yn llai o her yn y sector cynradd.
- 9.17 Roedd nifer bach o ysgolion o'r farn bod eu hanawsterau recriwtio i'w priodoli'n rhannol i'w lleoliad daearyddol e.e. dywedodd y rhai mewn ardaloedd gwledig iawn eu bod wedi'u cyfyngu i ddalgylch isel ei phoblogaeth tra bod rhai ysgolion yng nghymoedd y de-ddwyrain yn sylwi eu bod yn cael trafferth recriwtio ymgeiswyr â'r sgiliau Cymraeg cryfaf. Awgrymwyd hefyd bod rhai ysgolion uwchradd yn ei chael

hi'n anodd recriwtio ar gyfer rhai pynciau os nad yw eu darparwr AGA lleol yn cynnig darpariaeth ar gyfer y pwnc hwnnw.

- 9.18 Roedd ysgolion uwchradd yn aml yn dweud mai ychydig iawn o geisiadau yr oeddent yn eu derbyn am swyddi addysgu a hysbysebwyd. Nododd nifer o gynrychiolwyr ysgol fod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diwethaf a bod nifer y ceisiadau fesul swydd wag wedi lleihau ers dechrau'r degawd. Eglurodd un cyfrannwr o'r fath:

'Gwelwyd cwymp yn nifer yr ymgeisyddion ar gyfer swydd athro Cymraeg o 23 a nifer fawr yn geisiadau cryf dros ben. O fewn dwy flynedd ... hysbysebwyd eto am athro Cymraeg a chafwyd 1 cais, a hynny gan rhywun a oedd wedi bod ar ymarfer dysgu gyda ni. Ry'n ni mewn sefyllfa debyg ar hyn o bryd wrth geisio penodi athro Saesneg'.

- 9.19 Roedd yn gyffredin i ysgolion gysylltu â'r darparwyr AGA hynny yr oeddent yn cydweithio â hwy i gael gwybodaeth am eu carfan bresennol o athrawon cyfrwng Cymraeg AGA er mwyn eu targedu. Awgrymodd rhai ysgolion uwchradd fod recriwtio o'r garfan hon yn gynnar yn y flwyddyn, yn union ar ôl y Nadolig, yn llawer haws ac yn fwy cynhyrchiol nag yn ddiweddarach yn y flwyddyn academiaidd pan fydd llai o ddewis. Yn wir, dywedodd sawl cyfrannwr y bydd yr hyfforddeion AGA cyfrwng Cymraeg cryf wedi cael eu bachu erbyn mis Chwefror. Er gwaethaf hyn, dadleuodd ysgolion a rhanddeiliaid fel ei gilydd fod y garfan o hyfforddeion Cymraeg eu hiaith wedi ei disbyddu at ddibenion recriwtio, waeth beth fo cymwyseddau iaith Gymraeg yr hyfforddeion neu iaith astudio eu cwrs AGA, oherwydd prinder cyffredinol yr ymgeiswyr sydd ar gael.
- 9.20 Datgelodd y gwaith maes fod rhai ysgolion uwchradd yn gorfod penodi staff di-Gymraeg ar adegau i rai swyddi gwag: 'mae'n well gael rhywun na neb o gwbl'. Byddai'r rhai a benodir yn cael eu cefnogi i ddysgu Cymraeg 'wrth eu gwaith'. Nodwyd rhai enghreifftiau hefyd lle roedd ysgolion uwchradd yn symud athrawon presennol i addysgu pwnc mewn maes lle roedd prinder. Un enghraifft o'r fath oedd y prosiect 'Gyda'n Gilydd' sy'n anelu at helpu athrawon presennol i addysgu pynciau nad ydynt yn arbenigo ynddynt. Roedd hefyd yn weddol gyffredin i ysgolion uwchradd benodi staff â Chymraeg gwan iawn a darparu'r cymorth a'r hyfforddiant

angenrheidiol iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Datgelodd y gwaith maes hefyd fod rhai ysgolion uwchradd yn manteisio ar ewyllys da athrawon sydd wedi ymddeol yn ddiweddar fel ateb 'dros dro' i'w hanawsterau recriwtio.

- 9.21 Nodwyd nifer o enghreifftiau lle mae ysgolion uwchradd yn penodi unigolion heb gymhwyster addysgu fel ffordd o fynd i'r afael â'u hanawsterau recriwtio: mewn un achos o'r fath, roedd ysgol uwchradd wedi hysbysebu swydd addysgu yn ddiweddar gan nodi y byddent yn ystyried penodi unigolyn heb gymhwyster addysgu. Mewn enghraifft arall, yn ddiweddar roedd ysgol uwchradd wedi penodi athro celf heb y cymhwyster addysgu angenrheidiol ac wedi gorfod dyrannu cynorthwyydd addysgu cymwys i gefnogi'r person hwn yn ei rôl. Yn hyn o beth, roedd nifer o ysgolion uwchradd yn rhan o gynlluniau megis y Rhaglen Addysgu i Raddedigion (GTP) a Teach First ac roeddent yn ystyried y rhain yn ddulliau recriwtio cynyddol bwysig.
- 9.22 Roedd cynrychiolwyr ysgol o'r farn bod sgiliau ieithyddol yr hyfforddeion a oedd yn dod ar brofiad dysgu gyda hwy yn amrywio. Rhoddwyd enghreifftiau o hyfforddeion eithriadol o dda yn ogystal â hyfforddeion gwannach a oedd yn cael trafferthion gyda sillafu, treigladau a defnyddio gramadeg cywir. Nododd ambell gynrychiolydd ysgol ei fod wedi gweld newid ym mhroffil hyfforddeion dros amser gyda chynnydd yn nifer yr hyfforddeion o gefndiroedd Saesneg a oedd â sgiliau Cymraeg gwannach na'r rhai o gefndiroedd Cymraeg.
- 9.23 Nododd cynrychiolwyr ysgolion cynradd fod llai o anawsterau recriwtio i swyddi lle roedd yn ofynnol i athrawon addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhai o ardaloedd awdurdodau lleol lle ceir cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i gael llai o anawsterau nag eraill. Er enghraifft, dywedodd un cynrychiolydd ysgol o ogledd-orllewin Cymru:
- ‘rydym mewn ardal Gymraeg iawn a dwi ddim wedi cael unrhyw bryderon mawr am sgiliau Cymraeg unrhyw athrawon dan hyfforddiant dwy wedi gweithio gyda nhw’.
- 9.24 Mewn gwrthgyferbyniad i hynny nododd cynrychiolydd ysgol gynradd o'r de-ddwyrain:
- ‘Gyda pob un dwi wedi mentora, mae safon iaith wedi bod yn broblem dwi wedi gorfod codi gyda'r Brifysgol’.

Datblygu gwybodaeth addysgeg

- 9.25 Roedd cynrychiolwyr ysgol o'r farn bod darpariaeth AGA yn gyffredinol yn rhoi methodolegau addysgeg priodol i hyfforddeion er mwyn addysgu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Nododd ychydig o gynrychiolwyr ysgol y byddent yn hoffi gweld mwy o ffocws ar lythrennedd yn y cwrs AGA yn ogystal â mwy o ffocws ar baratoi hyfforddeion i asesu llythrennedd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 9.26 Roedd cynrychiolwyr ysgol yn cydnabod bod gan ysgolion eu hunain rôl bwysig i'w chwarae wrth atgyfnerthu'r dulliau addysgeg hyn yn ystod y cyfnodau profiad dysgu. Fodd bynnag, awgrymwyd bod y terfyn a osodwyd ar amser addysgu hyfforddeion yn ystod cyfnodau profiad dysgu mewn ysgolion wedi atal ysgolion rhag cyflawni hyn. Dywedodd nifer o gynrychiolwyr ysgol y byddent yn croesawu cynnydd yn yr amser addysgu a ganiateir i hyfforddeion:
- 'Mae angen i hyfforddeion gael mwy o amser ar lawr dosbarth'.
- 9.27 Roedd sawl rhanddeiliad o'r farn nad oedd digon o ffocws ar hyn o bryd yn cael ei roi ar draws darpariaeth AGA i elfennau addysgeg addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, yn enwedig o ran rhoi'r gallu i hyfforddeion drochi disgyblion yn y Gymraeg: er enghraifft, datblygu gwell dealltwriaeth o sut i ddysgu disgyblion sy'n dod o wahanol gefndiroedd ieithyddol iddynt hwy eu hunain e.e. i siaradwr Cymraeg iaith gyntaf sy'n dod o gymuned Gymraeg ddeall sut i drochi disgyblion o deuluoedd a chymunedau di-Gymraeg yn yr iaith. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn dymuno gweld mwy o bwyslais ar hyn yn y dyfodol.
- 9.28 Un thema bwysig a ddaeth i'r amlwg o'r gwaith maes oedd y pryderon ymysg rhai cynrychiolwyr ysgolion uwchradd ynghylch gallu ANG i addysgu mewn cyd-destun dwyieithog. Mewn achosion prin iawn, disgwylir i athrawon addysgu dosbarthiadau yn ddwyieithog ac ni theimlwyd bod darpariaeth AGA yn paratoi hyfforddeion yn ddigonol ar gyfer yr amgylchiadau hyn.

Mewn un ysgol uwchradd ddwyieithog, disgwylir i athrawon newydd a benodir addysgu rhai pynciau dyniaethau i ddosbarth iaith ddeuol. Yn gyffredinol, roedd y cyfranwyr a oedd wedi cael profiad o hyn (naill ai ar brofiad dysgu neu fel athro/athrawes) o'r farn bod hyn yn heriol gan fod angen ymgyfarwyddo â therminoleg pwnc mewn dwy iaith, ymrwymo i'r gwaith ychwanegol o baratoi adnoddau dwyieithog a chyflwyno gwers mewn dwy iaith heb ailadrodd yn slafaid yr hyn a ddywedir mewn un iaith yn y llall.

Diwallu anghenion y rhai nad ydynt yn dilyn y cwrs cyfrwng Cymraeg

- 9.29 Er bod yr adborth yn adlewyrchu barn dim ond un hyfforddai a phedwar athro presennol nad oeddent wedi cymryd rhan yn y cwrs cyfrwng Cymraeg, un o'r negeseuon allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwaith maes yw bod y ddarpariaeth sgiliau Cymraeg ar gyfer hyfforddeion a ddewisodd gwers AGA cyfrwng Saesneg yn elfennol ac nid yw'n diwallu anghenion a sgiliau hyfforddeion a chanddynt ryw faint o sgiliau Cymraeg eisoes. Dywedodd un hyfforddai o'r fath ei fod wedi cymryd rhan mewn gwersi Cymraeg i ddechreuwr fel rhan o'i gwers AGA:

'ar y cwrs Saesneg mae e fel one size fits all ... gyda dysgu lliwiau yn y Gymraeg, a rhifau ... a mae gynnai ddau A yn TGAU Cymraeg ... so dwi'n gwybod y lliwiau a'r rhifau'.

- 9.30 Soniodd athrawes newydd arall am brofiad tebyg:

Dilynodd Athrawes J ei chwrs TAR drwy gyfrwng y Saesneg ac mae bellach yn addysgu Saesneg a Cherddoriaeth fel ANG mewn ysgol uwchradd ddwyieithog. Mae hi'n ystyried y Gymraeg yn ail iaith iddi ac yn cydnabod ei bod hi'n cael trafferth â Chymraeg ffurfiol a phroffesiynol. Er bod yr ysgol wedi bod yn gefnogol iawn o ran ei helpu i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg ymhellach, nid oes unrhyw gymorth na hyfforddiant iaith ffurfiol ar gael iddi: yn bennaf gan nad oedd yr ysgol yn gallu darparu'r adnoddau ariannol ar gyfer hyn.

Fel unigolyn â sgiliau Cymraeg cyfyngedig, roedd hi'n teimlo tra roedd hi ar ei chwrs TAR ei bod hi'n syrthio rhwng dwy stôl - nid oedd ei Chymraeg yn ddigon cryf i'w galluogi i ddilyn yr opsiwn cyfrwng Cymraeg ac eto roedd ei sgiliau'n rhy

ddatblygedig ar gyfer y gwersi Cymraeg rhagarweiniol sydd ar gael i ddechreuwyd pur. Fodd bynnag, byddai wedi ystyried dewis y cwrs cyfrwng Cymraeg pe bai'r ffocws wedi bod ar ddatblygu hyder a sgiliau llai heriol yn hytrach nag ar iaith a gramadeg cywir.

- 9.31 Roedd rhanddeiliaid yn arbennig yn credu bod diffyg darpariaeth iaith addas i hyfforddeion AGA a chanddynt rywfaint o afael ar yr iaith ond nad oeddent yn hyderus nac yn gymwys eto i ddewis y llwybr cyfrwng Cymraeg. Awgrymwyd y gellid cynnig cwrs gwella Cymraeg i'r garfan arbennig hon o hyfforddeion.
- 9.32 Yn ystod ein gwaith maes cynhaliwyd cyfweiliadau â dau athro nad oeddent yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Roedd un yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg mewn ysgol ddwyieithog tra bod y llall wedi symud o'r sector cyfrwng Cymraeg oherwydd cyfleoedd am ddyrchafiad, fel y dangosir isod:

Mae Athro X yn Bennaeth Pwnc mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg mewn awdurdod lleol lle mae ychydig iawn o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ar ôl astudio ar gyfer gradd israddedig drwy gyfrwng y Saesneg, dilynodd gwrs TAR drwy gyfrwng y Gymraeg. Er gwaethaf ei bryderon am ei allu i addysgu ei bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd wedi bwriadu gwneud hynny o'r cychwyn a derbyniodd ei swydd addysgu gyntaf mewn ysgol uwchradd ddwyieithog. Maes o law, roedd yn awyddus i symud yn ôl i fro ei febyd yn ogystal â symud ymlaen i rôl pennaeth adran. Ni chododd unrhyw gyfleoedd o'r fath yn y sector cyfrwng Cymraeg ac felly cafodd ddyrchafiad mewn ysgol cyfrwng Saesneg.

10. Blaenoriaethau (a pholisïau) ar gyfer y dyfodol a'r newidiadau sydd eu hangen

- 10.1 Daeth nifer o flaenoriaethau a themâu allweddol i weithredu arnynt i'r amlwg yn ystod y gwaith maes. Mae'r bennod hon yn trafod pob un o'r 'themâu strategol' hyn yn eu tro.

Cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg

- 10.2 Cydnabuwyd yn eang fod yr uchelgeisiau a'r targedau a bennwyd ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn Cymraeg 2050 yn newid y sefyllfa'n sylweddol ar gyfer y sector addysg yng Nghymru a byddai gwireddu hyn yn gofyn am ddull radical ynghyd â llawer o adnoddau. Roedd pob grŵp o gyfranwyr yn cydnabod bod gan y ddarpariaeth AGA rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu i wireddu'r uchelgeisiau hyn a derbyniwyd yn gyffredinol mai un o'r newidiadau sylfaenol sydd ei angen yw denu mwy o unigolion i astudio AGA drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynwyd rhai syniadau gan y cyfranwyr ond roeddent yn cydnabod anferthedd yr her hon yng ngoleuni delwedd negyddol bresennol y proffesiwn addysgu.
- 10.3 Yr ateb mwyaf cyffredin a gynigiwyd gan gyfranwyr oedd ymgyrch farchnata a chanddi adnoddau digonol i dargedu disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal ag israddedigion gyda negeseuon cadarnhaol am y proffesiwn addysgu a'u hannog yn weithredol i ystyried addysgu fel proffesiwn a dewis llwybr cyfrwng Cymraeg er mwyn cymhwyso. Derbyniwyd yn gyffredinol na fu unrhyw ymdrech recriwtio genedlaethol i ddenu darpar athrawon yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru, ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg na'r sector cyfrwng Saesneg. Yn seiliedig ar adborth gan hyfforddeion presennol, ychydig iawn o wybodaeth gyhoeddus sydd ar gael am y llwybrau tuag at yrfa addysgu cyfrwng Cymraeg (ar gyfer y sector uwchradd) ac nid yw'n hawdd dod o hyd i wybodaeth am AGA cyfrwng Cymraeg a'r cymhellion ariannol ychwanegol sydd ar gael drwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg.

- 10.4 Roedd eraill yn awgrymu gosod targedau cofrestru cyfrwng Cymraeg ar gyfer darparwyr AGA er bod darparwyr AGA yn pryderu am yr heriau y byddai hyn yn eu creu. Dadleuodd rhanddeiliaid yn gryf pe bai targedau Cymraeg 2050 yn cael eu gwireddu, byddai gosod a monitro targedau recriwtio cenedlaethol yn atal a, gobeithio, yn gwyrddroi'r gostyngiad presennol yn niferoedd yr hyfforddeion cyfrwng Cymraeg.
- 10.5 Awgrymodd ambell gyfrannwr hefyd y byddai'n fuddiol ystyried cynnig cymhelliad ariannol i ANG dderbyn, yn ogystal â chadw, swyddi addysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd drwy fenter 'croeso euraidd'. Dadleuwyd y gallai cynllun o'r fath wneud taliad ariannol bach i athrawon cymwys naill ai pan fyddant yn cael eu swydd addysgu gyntaf neu ar ôl dwy neu dair blynedd o ddal swydd addysgu cyfrwng Cymraeg (Fel sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Cymhelliad Iaith Athrawon Yfory o fis Medi 2018 ymlaen). Awgrymwyd y byddai hyn yn helpu'r sector addysg i gystadlu yn erbyn sectorau cyflogaeth eraill a oedd yn llwyddo i ddenu cyflogaeth sy'n medru'r Gymraeg. Awgrymodd y cyfranwyr y gallai gwerth y taliad ystyried gwahaniaethau mewn anawsterau recriwtio ar gyfer pynciau penodol.
- 10.6 Yn olaf yn nhermau recriwtio, datgelodd y gwaith maes mai grŵp targed pwysig arall sydd angen rhywfaint o ystyriaeth yng nghyd-destun Cymraeg 2050 yw athrawon sy'n medru'r Gymraeg sydd ar hyn o bryd yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Awgrymwyd y gellid ymchwilio i gyfleoedd i dargedu a chynnig secondiadau i'r sector cyfrwng Cymraeg neu gynnig cymhelliad ariannol iddynt drosglwyddo (er mwyn eu digolledu am waith ychwanegol sy'n ymwneud â throsglwyddo i swydd addysgu cyfrwng Cymraeg).

Integreiddio'r Gymraeg i ddarpariaeth AGA

- 10.7 Dadleuodd llawer o'r cyfranwyr y dylai datblygu sgiliau Cymraeg ac addysgeg cyfrwng Cymraeg fod yn agwedd sy'n rhan annatod o ddarpariaeth AGA yn hytrach na'i gyflwyno drwy ystod o gynlluniau ychwanegol wedi'u targedu at wahanol garfanau o hyfforddeion AGA. Yn wir, mae un o'r negeseuon allweddol gan rhanddeiliaid a rhai darparwyr yn awgrymu bod y ddarpariaeth bresennol yn 'gybolfa'

o ymyriadau, a gyflwynir ar wahanol bwyntiau ac at wahanol ddibenion. Roedd consensws cyffredinol, yn enwedig ymysg rhanddeiliaid, bod angen fframwaith cyffredinol o ddarpariaeth sy'n ystyried anghenion datblygiad ieithyddol yr holl hyfforddeion AGA yn ddigonol a bod y fframwaith cydlynol hwn yn disodli cynlluniau presennol megis Cynllun Gwellu Cyfrwng Cymraeg a Chynllun Colegau Cymru. Fel y dywedodd un cyfrannwr o'r fath:

'All y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ddim bod yn add-on mwyach. Ac os yw yn rhan o'r Safonau Proffesiynol, mae'n mynd i orfod bod yn greiddiol i ddarpariaeth AGA'.

- 10.8 Dadleuodd sawl rhanddeiliad y dylai datblygu sgiliau Cymraeg gael ei ymgorffori mewn darpariaeth AGA prif ffrwd, yn hytrach na'i fod ar gael drwy fentrau ar wahân fel Cynllun Gwellu Cyfrwng Cymraeg a Chynllun Colegau Cymru. Y gobaith oedd y byddai achrediad presennol darparwyr AGA yn helpu gydag integreiddio'r ddarpariaeth ond bod galwad cyffredinol bod angen cynllun strategol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg pob hyfforddai fel rhan o ddarpariaeth AGA.
- 10.9 Yn hyn o beth, cafwyd galwad gyffredinol i gymhwysedd yn y Gymraeg gael ei ystyried yn rhan o asesiad ymarfer dysgu ar gyfer hyfforddeion AGA, yn hytrach na'i asesu ar wahân h.y.
- 'oni ddylai eu hiaith fod yn rhan o'u hasesiad? Ar hyn o bryd mae hyfforddeion yn cael un lefel ar gyfer eu gwrs a lefel arall ar gyfer eu hiaith.'
- 10.10 Yn aml, dadleuwyd y dylai pob hyfforddai AGA gymryd rhan mewn rhywfaint o hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg tra roeddent ar y cwrs, beth bynnag eu sector neu'r iaith o'u dewis. Ar ben hynny, awgrymwyd y dylai'r ddarpariaeth hon gael ei theilwra i anghenion pob dysgwr ac, mewn achosion lle na wneir hynny ar hyn o bryd, dylai darparwyr sicrhau bod cyfleoedd dysgu gwahaniaethol ar gael ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg. Dadleuodd un cyfrannwr o'r fath fod angen i AGA gynnig:
- 'continwwm dysgu sydd wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn'.

- 10.11 Canfu'r gwaith maes fod hyfforddeion AGA, yn amlach na pheidio, yn cael eu rhoi mewn un o ddau 'focs' nad yw'n cydnabod continwwm galluoedd ieithyddol yr hyfforddeion. Er eu bod yn fach o ran nifer, roedd rhai cyfranwyr o'r farn ei bod yn bwysig bod yr hyfforddeion hynny sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg ond nad yw'r sgiliau hynny'n ddigonol i ddilyn llwybr hyfforddiant cyfrwng Cymraeg (neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny) yn cael darpariaeth well - gyda phwyslais cryf ar wella eu hyder.
- 10.12 Awgrymwyd gan garfan fach o gyfranwyr y gallai fod yn werth cynnig cwrs Cymraeg dwys i'r rhai sydd ei angen cyn iddynt ddechrau ar eu cwrs AGA. Fodd bynnag, cafwyd gair o rybudd gan swyddogion Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd hwn yng ngoleuni'r cynllun peilot aflwyddiannus blaenorol i gyflwyno cwrs Cymraeg dwys mis o hyd - cwrs nad oedd llawer wedi manteisio arno a lle y cafwyd nifer fawr o ymadawyr cynnar. Ystyriwyd bod ymdrechion mwy diweddar gan un darparwr AGA wedi bod yn fwy llwyddiannus. Yn yr achos hwn, cynigir dosbarthiadau gwella sgiliau yn ystod yr haf i hyfforddeion sy'n dymuno ymuno â darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg. Gellid efelychu'r model hwn a'i ymestyn i garfan lawer ehangach o hyfforddeion AGA, nid dim ond i'r rhai sy'n dewis y llwybr cyfrwng Cymraeg.
- 10.13 Byddai rhai cyfranwyr yn croesawu cyflwyno cynlluniau datblygu unigol ar gyfer yr holl hyfforddeion AGA a fyddai'n nodi eu hanghenion hyfforddiant iaith ar y dechrau ac y gallai hyfforddeion eu gweithredu'n barhaus. Byddai'r cynlluniau hyn yn cefnogi hyfforddeion ac athrawon yn eu hymgais i gyrraedd y Safonau Proffesiynol newydd, o gofio y byddant yn dod yn gyfrifol am ddatblygu sgiliau Cymraeg a chymhwyso iaith o fewn y cwricwlwm.
- 10.14 Yn gyson â'r model newydd hwn o weithio, awgrymwyd yn aml y byddai angen addasu'r Dystysgrif Cymhwysedd iaith i Athrawon i ddarparu ar gyfer sbectrwm ehangach o alluoedd yn y Gymraeg a fyddai'n caniatáu i unigolion wneud cynnydd ar hyd ei lefelau cyrhaeddiad dros amser. Yng ngoleuni hyn, cwestiynodd rhai cyfranwyr briodoldeb arholiad, gan fynegi y byddai'n well ganddynt weld y dyfarniad yn seiliedig ar asesiad o ddeunyddiau addysgu ac adnoddau yn ogystal ag arsylwadau yn y dosbarth.

Datblygu capasiti darparwyr AGA

- 10.15 Un o'r heriau sylfaenol i'r sector AGA o ran bodloni rhai o'r amcanion strategol a nodwyd gan y cyfranwyr yn y gwerthusiad hwn oedd materion yn ymwneud â capasiti addysgu'r Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ar draws y rhwydwaith darparwyr AGA. Datgelodd y gwaith maes y byddai hyfforddeion yn croesawu mwy o gapasiti Cymraeg yn y pynciau hynny lle nad oes staff sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd.
- 10.16 Awgrymodd rhai cyfranwyr y byddai o fudd i'r sector ymchwilio i sut y gellir rhannu a defnyddio capasiti'r Gymraeg fel pwnc, o fewn y rhwydwaith darparwyr AGA yn ogystal ag o fewn ysgolion, i sicrhau bod cyfran uwch o ddarpariaeth AGA ar gael yn ddwyieithog. Roedd rhanddeiliaid a darparwyr AGA hefyd yn cydnabod nad yw hyn wedi bod yn bosibl yn y gorffennol oherwydd natur gystadleuol recriwtio rhwng darparwyr, sydd wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i nifer yr hyfforddeion leihau. Awgrymwyd y gallai darparwyr ymchwilio i sut i 'gyfuno adnoddau a staff cyfrwng Cymraeg' yn ogystal ag ystyried darpariaeth fideo-gynadledda a skype ar gyfer hyfforddeion.
- 10.17 Roedd rhanddeiliaid yn arbennig yn cydnabod bod bwch enfawr ar hyn o bryd o ran yr ymchwil a wneir gan ddarparwyr AGA yn ymwneud ag addysgeg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg. Y gobaith oedd y byddai'r broses achredu yn arwain at ffocws cynyddol ar ymchwil yn y dyfodol ond roedd angen ymdrechion i sicrhau bod hyn yn cynnwys addysgeg Gymraeg.

Darpariaeth sgiliau Cymraeg barhaus i athrawon newydd

- 10.18 Roedd y gwaith maes yn awgrymu bod diffyg darpariaeth sgiliau Cymraeg barhaus ar gyfer hyfforddeion ar ôl iddynt gyflawni eu statws SAC ac, yn wir, statws ANG, a lle mae ar gael, naill ai drwy gonsortia addysgol neu ddarpariaeth ar lefel ysgol unigol, mae'r ddarpariaeth yn amrywio ac mae ymwybyddiaeth ymhlith athrawon newydd yn eithaf gwael. Nid oedd y cyfranwyr yn credu y dylai'r ddarpariaeth sgiliau Cymraeg sydd ar gael drwy'r Cynllun Sabothol, sydd wedi'i thargedu at athrawon presennol ar drefniant sabothol, gael ei ymestyn i athrawon newydd ond yn hytrach

roeddent yn galw am dargedu darpariaeth bresennol sgiliau Cymraeg y consortia yn well a'i chysoni â darpariaeth AGA a'r continwwm Cymraeg. Mae'r Cynllun Sabothol yn gwrs iaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr a chynorthwywyr dosbarth sydd eisiau codi safon eu Cymraeg a magu hyder wrth ddefnyddio'r iaith.

- 10.19 Roedd llawer o'r cyfranwyr (gan gynnwys athrawon newydd) o'r farn y byddai'n fuddiol i'r sector addysg fapio a (lle mae bylchau yn bodoli) darparu sbectrwm eang o ddarpariaeth sgiliau Cymraeg a fyddai'n addas i bob athro newydd. Awgrymodd un cyfrannwr fod angen i'r sector ymgysylltu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ymchwilio i sut y gellid ymgysylltu â'r seilwaith Cymraeg i Oedolion a bod angen i'r consortia addysg gymryd rhan yn y broses weithredu. Awgrymwyd hefyd y dylai ysgolion unigol fabwysiadu eu cynlluniau datblygu eu hunain, yn unol â'r safonau proffesiynol, i sicrhau bod sgiliau Cymraeg eu gweithlu yn cael eu datblygu'n barhaus. Awgrymwyd y dylai ffocws y cynlluniau hyn fod yn ehangach na sgiliau Cymraeg a chwmpasu gwybodaeth addysgeg er mwyn addysgu mewn cyd-destunau dwyieithog e.e. addysgu dosbarthiadau dwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal â throchi disgyblion ysgol mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg.

11. Casgliadau ac Argymhellion

11.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau ac yn cynnig cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru, ar y cyd â'i rhanddeiliaid, eu hystyried. Mae'n ystyried pum mater allweddol:

- y gostyngiad parhaus yn nifer y darpar hyfforddeion a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â recriwtio i AGA cyfrwng Cymraeg
- natur gymhleth a darniog y ddarpariaeth bresennol a'r angen i symleiddio a datblygu mwy o gysondeb ar draws AGA cyfrwng Cymraeg
- yr angen i gynyddu capasiti Cymraeg darpariaeth uwchradd AGA ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach rhwng darparwyr ac ysgolion
- gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o gymhellion ariannol i ddenu hyfforddeion a chadw athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- yr angen i ystyried cyfleoedd parhaus i athrawon newydd ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth am addysgeg mewn perthynas â gwahanol leoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Recriwtio i AGA cyfrwng Cymraeg

11.2 Un o ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad hwn yw bod ysgolion uwchradd, o ganlyniad i'r gostyngiad parhaus yn nifer yr hyfforddeion sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau AGA uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ei chael hi'n fwyfwy anodd recriwtio. Heb ymyrraeth mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau. Mae'r strategaeth Cymraeg 2050 yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 2,200 erbyn 2021 ac i 3,200 erbyn 2031 yn ogystal â chynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc i 600 erbyn 2021 ac i 900 erbyn 2031. Hyd yn oed heb ystyried y rhai sy'n debygol o adael y proffesiwn dros y tair blynedd ar ddeg nesaf, mae angen i ddarpariaeth AGA bron ddyblu nifer yr hyfforddeion sy'n cael eu hyfforddi'n flynyddol er mwyn cyrraedd y targedau hyn.

Mae angen newid sylweddol felly o ran yr ymdrechion i hyrwyddo a recriwtio i'r proffesiwn ac mae angen neilltuo digonedd o adnoddau ar gyfer ymgyrch hyrwyddo o'r fath a'i thargedu'n effeithiol.

- 11.3 Canfyddiad allweddol arall gan y gwerthusiad yw bod hyfforddeion yn aml yn aneglur ynghylch faint o ddarpariaeth a fydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg cyn dechrau ar eu cyrsiau - yn enwedig gan nad yw'r lefel hon o wybodaeth ar gael yn gyhoeddus mewn ffordd sy'n hawdd ei deall bob tro ond hefyd oherwydd bod y cynnig a'r ddarpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg yn amrywio rhwng darparwyr. Mae'r canfyddiad hwn yn nodi'r angen i fynd i'r afael â dau beth - yr angen i gytuno ar ddiffiniad clir o'r hyn sy'n gyfystyr â darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg a'r angen i gyfathrebu'n well y 'cynnig' i ddarpar hyfforddeion. Yn unol â hyn rydym hefyd yn credu y byddai'n fuddiol mabwysiadu'r term 'darpariaeth ddwyieithog' lle mae hyn yn adlewyrchu'n well natur y ddarpariaeth a addysgir yn y brifysgol.
- 11.4 Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil ar wahân a phenodol sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru. Yn unol â hynny, dylid ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'r argymhellion a gynigir gan yr adolygiad penodol hwnnw o recriwtio a chadw athrawon.
- 11.5 Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn Cymraeg 2050, rydym yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'i phartneriaethau AGA achrededig, ddatblygu'r ddarpariaeth sylfaenol sy'n gyfystyr â darpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg a chytuno ar y ddarpariaeth honno. Byddem yn rhybuddio rhag gosod y bar yn rhy uchel gan y gallai ddieithrio o'r cychwyn rai darpar hyfforddeion a chanddynt lai o hyder yn eu sgiliau Cymraeg. Byddem yn awgrymu y dylai'r diffiniad hwn gael ei lywio gan y ddarpariaeth bresennol yn ogystal â nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan hyfforddeion AGA cyfrwng Cymraeg:

- cymorth o ran arbenigedd pwnc (h.y. tiwtoriaid pwnc) ar gael i hyfforddeion drwy gyfrwng y Gymraeg
- o leiaf hanner y ddarpariaeth a addysgir (darlithoedd, seminarau,

tiwtorialau) ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog

- mynediad i gymorth gan fentor iaith yn ystod cyfnodau profiad dysgu mewn ysgolion
- o leiaf un profiad dysgu yn cael ei gynnal mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog
- o leiaf un aseiniad yn cael ei baratoi yn Gymraeg gan hyfforddai.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'i phartneriaethau AGA

achrededig, ddatblygu brand AGA cyfrwng Cymraeg cryfach ac adnabyddadwy. Rydym yn argymhell ymhellach y dylai partneriaethau AGA gynnig mwy o eglurder i ddarpar ymgeiswyr ynghylch pa agweddau ar eu cwrs AGA sy'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'i phartneriaethau AGA

achrededig, gynnal ymgyrch farchnata a chanddi ddigonedd o adnoddau sydd wedi'i hanelu at ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal ag israddedigion mewn SAU yng Nghymru gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a chynyddu diddordeb mewn cyrsiau AGA cyfrwng Cymraeg.


Symleiddio

- 11.6 Deuwn i'r casgliad fod y 'cynnig' presennol i hyfforddi a pharatoi hyfforddeion AGA i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymhleth iawn ac yn eithaf digyswllt fel y dangosir yn Ffigur 12.1. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yn rhaid i ddarparwyr AGA ddiwallu anghenion hyfforddeion â lefelau amrywiol o sgiliau Cymraeg pan fyddant yn dechrau ar eu cyrsiau AGA. Ar hyn o bryd mae amrywiaeth o 'fentrau' ar waith sy'n targedu gwahanol garfanau o hyfforddeion AGA - mae rhai o'r rhain yn gynlluniau cenedlaethol tra bod eraill yn lleol ac yn cael eu harwain gan y darparwyr. At hynny, mae rhai o'r darpariaethau hyn yn gynlluniau sefydledig, megis y cymorth sydd ar gael drwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg sydd wedi bod ar waith ers tua 30 mlynedd, tra bod eraill, megis y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i

Athrawon, yn gymharol newydd heb ymwybyddiaeth arbennig o uchel ar draws y sector.

- 11.7 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gan ddarparwyr, myfyrwyr ac ysgolion, ceir dadl gref dros resymoli a symleiddio'r ddarpariaeth sydd wedi'i hanelu at gefnogi hyfforddeion AGA i ddysgu'r Gymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg eu hunain neu i'w paratoi'n well i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddem yn pwysleisio fodd bynnag y byddai'n hanfodol cadw elfennau arfer da sydd i'w gweld ym mhob un o'r mentrau hyn ar hyn o bryd, fel y nodwyd yn y gwerthusiad hwn.
- 11.8 Canfu'r gwerthusiad fod y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu sgiliau iaith hyfforddeion a deawn i'r casgliad fod hon yn agwedd werthfawr a phwysig ar ymyrraeth y dylid ei chadw fel egwyddor o fewn unrhyw gynnis AGA yn y dyfodol.

Ffigur 12.1: Sgiliau Cymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer hyfforddeion ac athrawon



- 11.9 Mewn byd delfrydol, credwn y dylai unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau Cymraeg hyfforddeion ac sy'n eu paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei hymgorffori yng nghynnig craidd partneriaethau AGA. At hynny, mae'r broses achredu bresennol yn cynnis cyfle i Lywodraeth Cymru gyflawni hyn drwy ymgorffori gofynion o'r fath yn narpriaeth graidd partneriaethau AGA ac asesu hyn yn barhaus. Fodd bynnag, rydym yn

pryderu, drwy ddileu unrhyw ymyriad 'ychwanegol', bod perygl o golli arferion da a blaenoriaethau. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y broses achredu, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn parhau i fynd rhagddi ac nad yw'r canlyniad yn hysbys. O'r herwydd, rydym yn cynnig dau argymhelliad posibl i Lywodraeth Cymru eu hystyried, ar ôl i'r broses achredu gael ei chwblhau:

Argymhelliad 4a: Byddem yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen ymyriadau unigol sy'n anelu at gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau Cymraeg ymhlith yr holl hyfforddeion AGA cynradd ac uwchradd a datblygu eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu mewn ysgolion dwyieithog. Rydym yn credu y dylai'r rhaglen ymyriadau hon gynnwys elfennau o arfer da sy'n bodoli ar draws ymyriadau presennol ac adeiladu arnynt. Os eir ar drywydd yr opsiwn hwn yna byddem yn argymell cyfuno'r adnoddau ariannol presennol a ddyrennir i weinyddu'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a Chynllun Colegau Cymru er mwyn ariannu'r rhaglen. Byddai'n bosibl integreiddio elfennau o'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon i'r fenter hon, megis asesu adnoddau ac ymarfer dysgu.

Neu Argymhelliad 4b: Byddem yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaethau AGA penodedig i ymgorffori darpariaeth sgiliau Cymraeg mewn cynnig gorfodol o fewn AGA, gan ddileu'r angen am unrhyw fentrau 'atodol' fel y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a Chynllun Colegau Cymru. Yn yr achos hwn, byddem yn argymell neilltuo'r adnoddau ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd i weinyddu cynlluniau sy'n rhan o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a Chynllun Colegau Cymru yn uniongyrchol i bartneriaethau AGA. Pe bai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu, byddem yn pwysleisio bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod yr holl bartneriaethau AGA yn ateb gofynion y cytunwyd arnynt ac sydd wedi'u diffinio'n glir a bod ymrwymiad gan bartneriaethau AGA i gynyddu eu capasiti i gyflwyno AGA cyfrwng Cymraeg ar draws yr ystod lawn o arbenigeddau pwnc.

Argymhelliad 5: Waeth pa un o'r opsiynau uchod a ddewisir, byddem yn argymell y dylai darpariaeth briodol wedi'i theilwra ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg fod ar gael i'r holl hyfforddeion AGA, p'un a ydynt yn dilyn gyrfa addysgu yn y sector cynradd neu uwchradd, neu'r sector cyfrwng Cymraeg neu Saesneg fel bod pob athro dan hyfforddiant yn cael y cyfle i symud ymlaen ar hyd y continwmm iaith

Gymraeg. Mae'n hanfodol bod yr hyfforddeion hyn yn gallu cael gafael ar gymorth sy'n addas ar gyfer lefel eu hyfedredd yn y Gymraeg gan roi'r gorau i'r dull dwy haen (dechreuwr pur neu siaradwr hyfedr) sy'n nodweddiadol o rywfaint o'r ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Argymhelliad 6: Byddem hefyd yn argymhell cadw'r elfennau canlynol o arfer da sydd eisoes i'w gweld yn y ddarpariaeth bresennol (a'u hymestyn lle y bo'n briodol):

- y defnydd o fentoriaid iaith yn yr ysgol (sy'n cael ad-daliadau ariannol) i gefnogi hyfforddeion uwchradd a chynradd sy'n dilyn cwrs AGA cyfrwng Cymraeg
- amlinelliad clir o'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan fentoriaid iaith yn yr ysgol wrth gefnogi hyfforddeion, gan gynnwys cymorth iaith ac arsylwi.

- 11.10 Un o ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad yw yr ystyrir mai darpariaeth sgiliau Cymraeg gwahaniaethol yw'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac rydym o'r farn y dylid ymestyn yr arfer da hwn, lle mae'n bodoli, ar draws y rhwydwaith. Deuwn i'r casgliad fod darpariaeth sgiliau Cymraeg gallu-cymysg yn annymunol ac y dylai darparwyr AGA ffrydio pob hyfforddai ar sail ei allu ieithyddol fel bod cyfle i hyfforddeion ymuno â'r grŵp sydd fwyaf addas i'w hanghenion. Rydym yn casglu ymhellach y dylai unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol fod yn seiliedig ar gynlluniau datblygu personol ar gyfer pob hyfforddai sy'n seiliedig ar offeryn asesu iaith cyson a ddefnyddir gan bob darparwr AGA. Rydym yn rhagweld y dylai darpariaeth yn y dyfodol, os bydd angen, gynnwys dosbarthiadau byr a dwys dros yr haf i'r hyfforddeion hynny sydd angen sesiynau gloywi neu drochi. Yn ogystal, credwn y byddai'n fuddiol i ddarparwyr AGA ymchwilio i sut y gallent ddefnyddio sgiliau hyfforddeion AGA a chanddynt sgiliau Cymraeg rhagorol yn well er mwyn cefnogi'r rhai â sgiliau gwannach.
- 11.11 Deuwn i'r casgliad y dylai unrhyw ddatblygiad o ran sgiliau Cymraeg yn y dyfodol ganolbwyntio ar wella hyder hyfforddeion i ddefnyddio'r iaith yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â datblygu eu sgiliau mewn addysgeg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Yn benodol rydym yn credu bod budd posibl o ran rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu galluoedd hyfforddeion i drochi eu disgyblion yn y Gymraeg (a chael eu paratoi'n

well i allu addysgu disgyblion sy'n dod o gefndiroedd ieithyddol gwahanol iddynt hwy eu hunain) yn ogystal â chael eu paratoi'n well i addysgu mewn dosbarthiadau iaith ddeuol.

Argymhelliad 7: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaethau AGA achrededig, ddatblygu un offeryn iaith i asesu sgiliau Cymraeg hyfforddeion ar ddechrau'r cwrs AGA mewn modd cyson. Byddem hefyd yn argymell y dylai'r offeryn hwn, y gellid ei ddefnyddio ar ddechrau a diwedd darpariaeth AGA, gyd-fynd â'r Safonau Proffesiynol a'r data a gesglir drwy'r data cyfrifiad blynyddol arfaethedig o'r gweithlu a gesglir o 2019 ymlaen, a chaniatáu cymharu â'r Safonau a'r data hynny.

Argymhelliad 8: Rydym yn argymell yn gryf y dylai darpariaeth sgiliau Cymraeg yn y dyfodol fod ar gael i hyfforddeion yn unol â'u hanghenion fel yr aseswyd drwy gynllun datblygu personol ar ddechrau eu cwrs AGA. Dylai'r cynlluniau datblygu hyn nodi'r hyn sydd ei angen ar hyfforddeion cyn iddynt ddechrau ar eu cwrs AGA, yn ogystal ag yn ystod y cwrs, yn hytrach na thybio bod angen isafswm o oriau astudio ar bob hyfforddai, waeth beth yw ei allu. Wedi dweud hyn byddem yn argymell bod y rhai sydd angen cymorth o ran sgiliau Cymraeg yn parhau i dderbyn o leiaf 25 awr o gymorth fesul blwyddyn academiaidd. Dylai'r cynlluniau datblygu hyn ystyried anghenion hyfforddeion o ran:

- datblygu hyder
- datblygu sgiliau Cymraeg
- gwybodaeth addysgeg a
- galluedd i drochi disgyblion yn y Gymraeg ac addysgu mewn dosbarthiadau iaith ddeuol.

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell ymhellach y dylai'r holl bartneriaethau AGA ymchwilio i gyfleoedd i gynnig darpariaeth sgiliau Cymraeg ddwys i'r hyfforddeion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt cyn eu cwrs, drwy ddosbarthiadau ar ddiwedd yr haf fel sydd eisoes yn cael eu darparu gan rai. Efallai y byddai'n fuddiol i bartneriaethau ddarparu cyrsiau o'r fath drwy fodelau cydweithredol.

- 11.12 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, deawn i'r casgliad fod nifer o faterion yn gysylltiedig â'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon sy'n codi cwestiynau am ei haddasrwydd, yn enwedig o gofio y gall hyfforddeion AGA gyflawni eu SAC ond methu'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith. Rydym hefyd o'r farn fod ei diben a'i chydawnsedd yn mynd yn groes i feddylfryd presennol Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo'r continwwm sgiliau Cymraeg. Rydym yn cydnabod bod y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon yn dal yn ei babandod ac os bydd yn parhau, byddai angen addasu ac ehangu ei chylch gwaith a'i swyddogaeth. Er enghraifft, credwn y byddai cyfle i ymestyn offeryn ardystio o'r fath er mwyn bod yn berthnasol i fwy o hyfforddeion ac athrawon, o ddysgwyr pur i siaradwyr hyfedr ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg, boed yn hyfforddeion neu'n athrawon presennol.
- 11.13 Fodd bynnag, credwn fod y cyflwyniad a'r gofynion a nodir fel rhan o'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu yn codi cwestiynau ynghylch perthnasedd offeryn achredu ar wahân ar gyfer y dyfodol. Yn ddelfrydol, byddai cymwyseddau iaith hyfforddeion ac athrawon yn cael eu monitro'n well drwy'r safonau hyn ac felly rydym yn cynnig yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad 10: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu elfennau o'r Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon (fel y nodir yn argymhelliad 4a) i asesu cymwyseddau hyfforddeion o ran y Gymraeg ar ddechrau a diwedd darpariaeth AGA ac asesu cymwyseddau Cymraeg athrawon newydd drwy'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Datblygu capasiti

- 11.14 Canfu'r gwerthusiad fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amrywio rhwng un darparwr AGA a'r llall ac un ffactor allweddol sy'n cyfrif am yr amrywiad hwn yw capasiti o ran y Gymraeg ar draws y rhwydwaith o ddarparwyr AGA. Mae'r adborth gan hyfforddeion yn awgrymu bod y rhai nad oedd ganddynt fynediad i diwtor pwnc uwchradd Cymraeg yn teimlo dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid. Rydym yn cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chynyddu capasiti darpariaeth uwchradd

AGA o ran y Gymraeg ac wedi ystyried nifer o fodelau posibl i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys datblygu un ganolfan sengl ar gyfer AGA cyfrwng Cymraeg, datblygu dull cydweithredol ar draws darparwyr AGA (lle y caiff arbenigedd o'r fath ei rhannu) yn ogystal â model lle y gwneir defnydd cynyddol o gapasiti ysgolion. Mae manteision ac anfanteision i bob un o'r tri model, yn ogystal â heriau o ran eu cyflawni. Er enghraifft, efallai y bydd datblygu canolfan arbenigedd sengl yn ymarferol o safbwynt cyflwyno'r ddarpariaeth ond gallai ddieithrio darpar ymgeiswyr oherwydd bod angen teithio/bod mewn un ganolfan. Deuwn i'r casgliad fodd bynnag mai gweithio ar y cyd ag ysgolion fyddai'r dull gorau o fynd i'r afael â'r bylchau mewn capasiti ar draws y ddarpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg bresennol.

Argymhelliad 11: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaethau AGA ac ysgolion partner, ymchwilio i nifer o opsiynau i gynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg y rhwydwaith AGA o ran pynciau ysgol uwchradd. Gallai'r opsiynau hyn gynnwys gwneud mwy o ddefnydd o gapasiti ysgolion (gan gydnabod y byddai angen adnoddau ariannol ar gyfer hyn) a chydweithio rhwng partneriaethau AGA (e.e. rhannu tiwtoriaid pwnc) lle y bo'n briodol.

Cymhellion

- 11.15 Canfu'r gwerthusiad nad yw'r cymhelliad ariannol presennol drwy'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn ffactor pwysig o ran denu unigolion i ymgeisio am gwrs TAR cyfrwng Cymraeg, gan mai ychydig iawn oedd yn ymwybodol o'r cymhelliad cyn ymuno â'r cwrs; yn hytrach mae'n chwarae rhan bwysig o ran cadw hyfforddeion i gymryd rhan mewn sesiynau sgiliau Cymraeg ar ôl cofrestru ar gwrs. Yng ngoleuni ein hargymhelliad y dylai'r ddarpariaeth sgiliau Cymraeg gael ei hymgorffori ar draws yr holl ddarpariaeth AGA ar gyfer yr holl hyfforddeion, nid ydym yn credu y byddai'n briodol rhoi ad-daliad ariannol i garfan benodol am fanteisio ar y ddarpariaeth hon, o ystyried na fyddai bellach yn golygu llwyth gwaith ychwanegol.
- 11.16 Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig gwella'r cymhelliad ariannol cyfrwng Cymraeg o'r flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen ac rydym yn credu bod y gwelliant hwn yn angenrheidiol ac yn briodol, yng ngoleuni'r

anawsterau sy'n gysylltiedig â denu ymgeiswyr i'r proffesiwn. Fodd bynnag, credwn y byddai'n fuddiol cynyddu hyn ymhellach, yn unol â'r cymhelliad ariannol uchaf sydd ar gael yn Lloegr, ar gyfer y rhai yng Nghymru sy'n dymuno bod yn athrawon Cymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng ngoleuni'r heriau recriwtio sylweddol a wynebier a'r angen i gyflawni'r amcanion a nodir yn Cymraeg 2050. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn gallu cystadlu'n well â sectorau proffesiynol eraill sy'n recriwtio o'r un gronfa o ymgeiswyr. Yn ychwanegol at hynny, credwn ei bod yn bwysicach bod y cymhellion ariannol hyn yn annog cyfran uwch o hyfforddeion i symud i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a chaniatáu i ysgolion o'r fath gadw cyfran uwch o'u gweithlu. O'r herwydd, rydym yn gwneud yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad 12: Rydym yn argymell y dylid dirwyn y cymhelliad ariannol presennol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg i ben ar gyfer hyfforddeion uwchradd. Yn hytrach, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymhelliad ariannol uwch hyd at £10,000 i bob unigolyn sy'n cwblhau cwrs TAR uwchradd cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus ac yn ymuno â'r proffesiwn addysgu. Byddem yn awgrymu y dylai'r cymhelliad hwn gael ei ddyfarnu ar bwyntiau allweddol:

- taliad cychwynnol o £2,500 ar ôl cwblhau Statws Athro Cymwysedig Cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus
- taliad gyrfa gynnar o £2,500 yn y drydedd flwyddyn o addysgu
- taliad gyrfa gynnar arall o £5,000 yn ystod y bumed flwyddyn o addysgu

- 11.17 Un o ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad hwn yw nad oes gan ddarparwyr AGA unrhyw dargedau i'w cyflawni dan gontract ar hyn o bryd o ran recriwtio hyfforddeion AGA cyfrwng Cymraeg. Er nad yw gosod targedau o'r fath yn arbennig o effeithiol, credwn y byddai'n fuddiol cyfathrebu disgwyliadau cliriach i'r partneriaethau AGA achrededig hynny o ran faint o hyfforddeion cyfrwng Cymraeg y dylent fod yn anelu at eu recriwtio'n flynyddol er mwyn gwireddu'r uchelgais yn

Cymru 2050. Dylid ymgorffori'r disgwyliadau hyn hefyd ym mhrosesau adolygu achrediad partneriaethau yn barhaus.

Parhad o ran cymorth a datblygu

- 11.18 Un neges bwysig a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwerthusiad yw'r angen i ystyried cyfleoedd parhaus i athrawon newydd ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u dealltwriaeth a'u gwybodaeth am addysgeg mewn perthynas â gwahanol leoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o ddarpariaeth ar gael i athrawon - naill ai drwy eu consortia addysg neu drwy eu hysgol eu hunain - ond mae neges glir o'r ymchwil hwn yn dangos bod angen ffurfioli'r ddarpariaeth hon, ynghyd â'i strwythuro'n well (o ran bod ar gael i bawb) a'i hyrwyddo'n well i athrawon newydd. Cytunwn â barn llawer o gyfrannwr a ddywedodd fod y ddarpariaeth Gymraeg ddwys sydd ar gael i hyfforddeion yn ystod eu cwrs AGA yn diflannu wrth iddynt ymuno â'r gweithlu, ac mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth o gyfleoedd datblygu personol eraill sydd ganddynt nes iddynt ddod yn athrawon profiadol (ac felly'n gymwys ac yn addas ar gyfer y Cynllun Sabothol). Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r angen i athrawon ddangos eu hymrwymiad i wella eu sgiliau Cymraeg fel rhan o ddangos eu safonau proffesiynol.
- 11.19 Rydym yn ystyried ymhellach a fyddai'n briodol cysylltu unrhyw gymhelliad ariannol gyda'r continwwm Cymraeg arfaethedig sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu cymell i ddatblygu eu sgiliau o un lefel i'r lefel nesaf dros y cyfnod amser byrraf posibl. Yng ngoleuni'r ffaith bod y continwwm Cymraeg yn dal i gael ei ddatblygu, nid ydym yn gwneud argymhelliad cadarn i'r perwyl hwn ond nodwn y gallai fod yn werth ystyried opsiwn o'r fath ar gyfer y dyfodol. Rydym yn rhagweld y byddai model o'r fath yn gwobrwyo hyfforddeion neu athrawon wrth iddynt gyflawni pob lefel, gyda'r rhai sydd eisoes yn cyrraedd y lefel uchaf yn cael y swm llawn sydd ar gael.

11.20 Rydym felly yn gwneud yr argymhelliad canlynol:

Argymhelliad 13: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r consortia addysg, ymchwilio i sut y gallai ddarparu cyfleoedd parhaus i athrawon newydd barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ogystal â'u sgiliau addysgeg i drochi disgyblion yn y Gymraeg ac addysgu mewn dosbarthiadau iaith ddeuol, er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch canfyddedig mewn cymorth sy'n bodoli ar hyn o bryd ar ôl ennill SAC. Gellid cyflwyno hyn fel estyniad i raglenni dysgu proffesiynol rhanbarthol presennol a gynigir i athrawon newydd gymhwyso yn ystod eu cyfnod sefydlu ac i gyd-fynd â chefnogi'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer athrawon.